



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Rhagfyr 2013

Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith

Trosolwg

Ym Mawrth 2012 cyhoeddodd y cyn-Weinidog dros Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, strategaeth newydd ar y Gymraeg, *laith Fyw: laith Byw*.

Yn dilyn dadl yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar y 12 Mawrth 2012 penderfynwyd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. O ganlyniad i'r bleidlais hon cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y bwriad i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg.

Yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar y 11 Mehefin 2012 penderfynwyd y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithredu fel is-grŵp i'r Cyngor Partneriaeth, a phenodwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan yn Gadeirydd y Grŵp.

Sefydlwyd y Grŵp ym mis Medi 2012, ac mae'r ddogfen hon yn cynnwys ffrwyth y gwaith at sylw'r Cyngor Partneriaeth a'r Prif Weinidog.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg yn y Gymuned

Is-adran y Gymraeg

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 060 4400

e-bost: unediaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

www.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
Rhan 1: Cefndir a dull gweithredu	4
Rhan 2: Papurau tystiolaeth	6
1. Y proffil demograffeg	6
2. Trosglwyddo'r iaith a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yteulu	12
3. Addysg	22
4. Statws, economi a seilwaith	34
5. Bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol	57
Rhan 3: Y cynllun gwaith	71
Atodiad 1: Rhestr aelodau	78
Atodiad 2: Cylch gorchwyl	79
Atodiad 3: Llyfryddiaeth, adroddiadau a dogfennau cyfeirio eraill	80
Atodiad 4: Grŵp ffocws – Aberteifi	83
Atodiad 5: Grŵp ffocws – Caerdydd	88
Atodiad 6: Cyflwyniadau i'r Grŵp	93
Atodiad 7: Llythyr ymgynghoriad	94

Rhagair y Cadeirydd

Cyflwynwn y Cynllun Gwaith a'r adroddiad ategol hwn yn ffrwyth cyfnod o gywain a thrafod tystiolaeth o feysydd ac o gyfeiriadau go eang. Ein tasg yn ei hanfod oedd cynnig Cynllun Gwaith ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith. Bu diffinio'r dasg honno yn destun ystyriaeth byw a chyson gydol ein gwaith fel Grŵp. Cyflwynwn yr adroddiad ategol manylach er mwyn crynhoi a thrin y dystiolaeth a ystyriwyd ac i ddangos y seiliau ar gyfer ein casgliadau fel Grŵp ynghyd â'r argymhellion sy'n sylfaen i'n hargymhellion gweithredol.

Cyfarfu'r Grŵp am y tro cyntaf ar 12 Medi 2012. Yn fuan wedi'r ail gyfarfod yn Llanllyfni ar 7 Rhagfyr 2012 cyhoeddwyd canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg a siom ond nid syndod fu *mantra* y diwrnod hwnnw a sawl datganiad a chynhadledd wedi hynny. Yr ymateb y dymunwn gyfrannu ato bellach yw datganiad o fwriadau ac o weithredu – nid fel adwaith i'r Cyfrifiad yn unig ond fel ymgorfforiad o ddyheadau cadarnhaol Llywodraeth Cymru a'i budd-ddeiliaid fod yn rhaid datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hynny lle mae'n rhan o'r gwead cymdeithasol.

Cyfarfu'r Grŵp bump gwaith. Derbyniwyd adroddiadau gan swyddogion y Llywodraeth a chyfraniadau deallus gan gynrychiolwyr budd-ddeiliaid perthnasol. Cawsom fudd hefyd o ddadansoddiadau data, o ganlyniadau'r Arolwg ar-lein a fu'n sail i'r Gynhadledd Fawr yn haf 2013, ac o'r dystiolaeth gan y cyhoedd a budd-ddeiliaid. Derbyniasom hefyd ganfyddiadau cyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd cyn ac ar ôl y Gynhadledd Fawr. Ystyriwyd sawl adroddiad a chyhoeddiad swyddogol ac academaidd yn ogystal.

Un ffaith a ddaeth i'r amlwg yn fuan iawn oedd fod y modelau a'r cynseiliau i'n gwaith yn bethau go brin – yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Oes, mae yna bolisiau a strategaethau iaith go niferus ond cymharol ychydig a rydd sylw penodol i ardaloedd y dwysedd uchel neu'r canrannau uwch o siaradwyr. Am resymau digon dilys a dealladwy cyfeiria'r rhelyw o bolisiau a strategaethau at y wlad/wladwriaeth gyfan gan rychwantu sbectwm eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau ieithyddol.

Yn amlwg fe werthfawrogwn y ffaith nad unffurfiaeth ond amrywiaeth eang iawn a welwn o fewn i'r ardal a ystyrir, yn gam neu'n gymwys heddiw, yn gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Deallwn fod pwyslais yr heriau a natur y blaenoriaethau yn medru amrywio o ardal i ardal ac o gymuned i gymuned. O dderbyn yr amrywiaeth hwn a natur ddeinamig ein cymunedau, nid doeth, yng ngolwg y Grŵp, fyddai pennu adroddiad a Chynllun Gwaith a fyddai'n berthnasol ar gyfer clwstwr cyfyngedig iawn o gymdogaethau. Ystyriwn mai priodol yw gwrthod unrhyw ddiffiniad ystadegol gor-gaeth i'r ardal dan sylw a'i bod yn gyfrifoldeb arnom, yn hytrach, i gynnig dulliau i gynyddu nifer y cymunedau lle mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol o fewn eu cymdeithas.¹

¹ Am drafodaeth ar broblemau diffinio daearyddiaeth y "Fro Gymraeg", gweler Jones R a Fowler C (2007) 'Where is Wales? Narrating the territories and borders of the Welsh nation', *Regional Studies* 41: 89-101. Ategwyd y cymhlethdod yn rhai o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth.

Ffaith waelodol ein hystyriaethau oedd demograffeg yr ardal dan sylw a demograffeg y siaradwyr ynddi. Nid pos mathemategol cythreulig mo'r sefyllfa o gwbl ond patrwm cyson yn y dystiolaeth sy'n profi fod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn lleihau yn ardaloedd y canrannau uwch. Daw cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o siaradwyr Cymraeg newydd – wedi eu magu ar yr aelwyd neu'n ennill dwyieithrwydd trwy'r gyfundrefn addysg – ond mae rhyw draean o'r siaradwyr Cymraeg hyn yn gadael yr ardaloedd hynny. Ffaith waelodol arall yw lleihad yn nifer y plant a enir ac a fegir yn ardaloedd y canrannau uwch. Ynddo'i hun mae hyn yn tanseilio gallu cymuned iaith i'w hatgynhyrchu ei hun a datblygu. Rhaid cyplysu hyn gydag effaith newydd-ddyfodiaid i'r ardaloedd hyn nad ydynt yn dysgu'r iaith nac yn cymdeithasu trwy'r iaith Gymraeg. Amcan clir i'r Grŵp oedd darlunio'r tueddiadau hyn a'n nod yn sylfaenol yw newid demograffeg y Gymraeg mewn ffordd arwyddocaol yn ardaloedd y canrannau uwch. Byddai'r newid angenrheidiol yn cynnwys hwyluso bywyd teuluol deniadol yn ogystal â rhoi'r cyfle gorau i'r to iau yn enwedig i fod yn ddwyieithog ac i fedru dewis byw yn Gymraeg

Cychwyn cynnar i'n taith fu ystyriaeth i'r modelau gweithredu rhyngwladol. Nid yw Cymru, ei llywodraeth, ei hasiantaethau a'i chymdeithasau yn gweithredu mewn gwagle cynllunio ieithyddol. Wynebier tueddiadau cyffelyb ledled y byd ac er bod gan bob gwlad ei hamgylchiadau unigryw ei hun rydym yn credu yng ngwerth cyfathrebu, cydweithio ac ennill cyd-ddealltwriaeth gyda'r llywodraethau a'r cymunedau iaith eraill hyn. Sylwer yn arbennig ar lwyddiannau rhai cymunedau megis Quebec, Catalonia a Gwlad y Basg. Sylwn hefyd ar wladwriaethau eraill sydd â pholisïau a strategaethau cefnogol tuag at eu hieithoedd llai ond lle profir colli tir o genhedlaeth i genhedlaeth. Gwannach byth yw sefyllfa'r cymunedau iaith hynny lle mae'r wladwriaeth yn anwybyddu ei chyfrifoldeb. O ddefnyddio ffon fesur sylfaenol cynyddu nifer y siaradwyr, mae'r gwledydd uchod yn brawf fod modd sicrhau cynnydd. Wyneba'r tair cymuned iaith heriau parhaus wrth geisio angori ac ymestyn defnydd iaith. Er hynny, mae'r tair yn tystio hefyd i'r hyn y gellir ei gyflawni gyda phenderfyniad, ewyllys a gweithredu cadarnhaol.

Rhoddwyd ystyriaeth go fanwl i gonglfeini cynllunio ieithyddol, megis trosglwyddo'r iaith yn y cartref – neu gymdeithasoli iaith yn y teulu – ac archwiliwyd yn helaeth y ddarpariaeth addysg a chapasiti cymdeithasau lleol i ddarparu ac atgynhyrchu'r cyddestun cymdeithasol angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r gwead cymdeithasol arferol. Cawsom fudd hefyd o sesiynau trafod gwerthfawr am sefyllfa tai ac economi ardaloedd y canrannau uwch a dod i werthfawrogi arwyddocâd y rhain ym mhenderfyniadau pobl ifanc a theuluoedd i fwrw gwreiddiau. Wrth i bwysigrwydd y thema tai a'r economi – y seilwaith – amlygu ei hun yn fwyfwy, fe sicrhawyd dolen gyswllt effeithiol gyda'r Grŵp a sefydlwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart AC, i adolygu'r dystiolaeth am y cyswllt rhwng y Gymraeg a datblygiad economaidd. Tanlinellwyd pwysigrwydd y prif themâu – economi lewyrchus a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg – gan dystiolaeth holiadur Y Gynhadledd Fawr a'r grwpiau ffocws.

Wrth ddod i lunio'r Cynllun Gwaith rydym wedi ceisio diriaethu'r argymhellion mewn termau uchelgeisiol ond cyraeddadwy a wynebu cwestiynau go ddryrs ond gan gynnig dull gweithredu cadarnhaol. Er yn ddadleuol, efallai, nid ydym yn mentro i dir hawliau unigolion neu "hawliau grŵp" yn yr adroddiad hwn. Ni cheir yma bwyslais ar "daclo mewnfudo", na chreu sefydliadau rhanbarthol drudfawr, nac ychwaith ar greu

ffiniau gwarchodol ac amddiffynnol o amgylch y “Fro Gymraeg”. Yn hytrach, anogwn ddull gweithredu adeiladol tuag at y dasg. Ceisiwn amlygu gwirionedd y sefyllfa, gwnawn, ac er yr heriau sylweddol rydym yn hyrwyddo egwyddorion blaengar ac allblyg.

Yn bennaf rydym yn annog dull deuol o gynllunio cynnydd economaidd ochr yn ochr â chynllunio ieithyddol trylwyr. Seilir hyn i raddau helaeth ar ddatblygiad strategol Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau ardaloedd y canrannau uwch. Yn ail, galwn ar y gyfundrefn addysg ledled ardaloedd y canrannau uwch i gamu ymlaen er mwyn i bob person ifanc (a hŷn) fedru dod yn rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Ceir cynigion eraill yn ogystal er mwyn diriaethu a chadarnhau'r cynnydd ieithyddol a gaiff ei yrru gan y ddau brif argymhelliad. Bodlonwn fel Grŵp fod y cynigion a geir yn y Cynllun Gwaith yn cydnabod y blaenoriaethau ac, o weithredu arnynt, hyderwn y byddant yn sail i gynyddu nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith ac fel rhan naturiol o'r gymdeithas.

Wrth gyflwyno'r Adroddiad, carwn ddiolch i aelodau'r Grŵp am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth, ac i swyddogion Uned y Gymraeg yn y Llywodraeth am eu cymorth ymarferol drwy gydol y broses.

Dr Rhodri Llwyd Morgan
Cadeirydd y Grŵp

Rhan 1: Cefndir a dull gweithredu

Yn dilyn dadl ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg Iaith Fyw: Iaith Byw yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar y 12fed o Fawrth 2012, penderfynwyd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

“Yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith”.

O ganlyniad i'r bleidlais hon cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y bwriad i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg.

Yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar y 11eg o Fehefin 2012 penderfynwyd y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg yn is-grŵp i'r Cyngor Partneriaeth a phenodwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan yn Gadeirydd y Grŵp.

Cyhoeddwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y gwaith (Atodiad2), yn ogystal â derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog Leighton Andrews yn aelod (Atodiad 1).

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Medi 2012, ac fe'i dilynwyd gan bedwar cyfarfod arall, gyda'r olaf yn cael ei gynnal ym Medi 2013. Yn ystod y cyfnod, mae'r Grŵp Adolygu wedi derbyn, ac ymchwilio i dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau sy'n cynnwys:

- cyflwyniadau i'r grŵp (gweler Atodiad 6)
- ymchwil ac adroddiadau allweddol (gweler Atodiad 3)
- ymgynghoriad ar-lein (gweler Atodiad 7)
- canlyniadau/data Cyfrifiad 2011
- ymatebion o'r Gynhadledd Fawr a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar sefyllfa'r Gymraeg
- grwpiau ffocws yn Aberteifi a Chaerdydd (Atodiad 4 a 5)

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych ym mis Awst 2013 ble cafwyd adroddiad interim ar lafar gan y Cadeirydd ar ddatblygiadau a chyfeiriad y gwaith.

Ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn Rhagfyr 2012, bu sylw cyson yn y wasg a'r cyfryngau i sefyllfa'r Gymraeg, yn enwedig yn ei chadarnleoedd traddodiadol, ac mae'r Grŵp wedi ystyried y drafodaeth sydd wedi datblygu sy'n cyfeirio at sefyllfa fregus yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol.

Cyflwynir ffrwyth y gwaith at sylw'r Cyngor Partneriaeth, ac at y Prif Weinidog, Carwyn Jones sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn y Llywodraeth.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys papurau cefndir ar y meysydd blaenoriaeth a chynllun gwaith ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i benderfyniad yn gynnar yn y broses mai'r meysydd allweddol oedd: **Demograffeg, Trosglwyddo'r iaith, Addysg, Statws, Economi, Seilwaith a Bwrlwm Cymdeithasol.**

Yr ardaloedd o dan sylw a gyfeirir atynt fel “Y Cymunedau Cymraeg” neu'r “cadarnleoedd” yw'r siroedd canlynol: **Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Gâr,**


yn ogystal ag ardaloedd o fewn siroedd Conwy, Powys, Penfro, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, a Dinbych.

Rhan 2: Papurau tystiolaeth

1. Y proffil demograffeg

Y darlun cenedlaethol

Nifer a % (3 oed +) yn gallu siarad Cymraeg 1901-2011




Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg²

- 1.1 Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 19 y cant o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg (562,000 o bobl). Er yn parhau'n uwch na'r ffigurau a nodwyd yng Nghyfrifiad 1991 (18.7 y cant a 508,100 o bobl), roedd y canlyniadau'n dangos gostyngiad ers Cyfrifiad 2001 (20.8 y cant a 582,400 o bobl).

²<http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Cymorth/dataacystadegau/Pages/Cyfrifiad2011canlyniadauaneuadiadauer2001.aspx>

1.2 Nid oedd y gostyngiad hwn o 20,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn syndod. Gwnaeth ystadegwyr y Llywodraeth amcangyfrifon bras o'r newid blyneddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth y Gymraeg, iaith fyw: iaith byw, gan gasglu bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn ar hyn o bryd. Mae hynny yn bennaf yn sgil y gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n allfudo o Gymru a'r nifer sy'n dychwelyd.

1.3 Gwelwyd gostyngiad yn niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru, gyda chynnydd yng Nghaerdydd, Caerffili, Sir Fynwy a Bro Morgannwg yn unig. Gwelodd awdurdodau lleol Gorllewin Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) oll ostyngiad yn niferoedd y siaradwyr. Gwelsant hefyd ostyngiad o 2 bwynt canran neu fwy yng nghanran y bobl allai siarad Cymraeg. Yn fwyaf nodedig, roedd y gostyngiad yn Sir Gaerfyrddin yn 6,148 o bobl (6.4 pwynt canran) a'r gostyngiad yng Ngheredigion yn 2,954 (4.7 pwynt canran) – mae'r map yn dangos y newidiadau hyn. Canlyniad hynny yw fod canrannau siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir wedi gostwng o dan 50% am y tro cyntaf.



1.4 Gwelwyd cynnydd mewn un grŵp oedran pwysig gyda mwy o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru yn 2011 o'i gymharu â 2001, sy'n awgrymu y gallai mentrau fel Twf a'r ffaith bod twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros y ddegawd diwethaf yn dylanwadu ar y dewis iaith mae rhieni yn ei wneud dros eu plant. Mae'n bosib hefyd fod y cynnydd a welwyd yn y gyfradd drosglwyddo mewn teuluoedd lle roedd un o'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg o 40% yn 2001 i 45% yn 2011 yn adlewyrchu'r cynnydd hynny yn niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg.

- 1.5 Mae hefyd yn ddiddorol nodi fod canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 5 a 15 oed wedi aros ar lefel debyg rhwng y ddau Gyfrifiad, sef tua 40%. Er hynny, mae nifer y siaradwyr yn y grŵp oedran hyn wedi lleihau, yn unol â'r lleihad mewn poblogaeth ar gyfer y grŵp. Roedd 41,300 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001, felly gwelwyd gostyngiad anochel bron o 18,900 yn y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hynny'n cyfrannu'n helaeth at y gostyngiad o bron 20,000 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Y darlun yn y cymunedau Cymraeg

- 1.6 Fel y nodwyd uchod, mae Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn siroedd y Gorllewin – gyda'r gostyngiadau mwyaf nodedig yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Newid yn y ganran yn gallu siarad Cymraeg


Awdurdod lleol	% yn gallu siarad Cymraeg 2001	% yn gallu siarad Cymraeg 2011	Newid (%)
Gwynedd	69.0	65.4	-3.6
Môn	60.1	57.2	-2.9
Ceredigion	52.0	47.3	-4.7
Sir Gaerfyrddin	50.3	43.9	-6.4

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

- 1.7 Roedd 157 o adrannau etholiadol (18%) lle roedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (yn y gogledd a'r gorllewin). Mae hyn yn is na'r 192 o adrannau etholiadol (22%) yn 2001. Bellach, ychydig o dan draean (32.4%) o siaradwyr Cymraeg Cymru sy'n byw mewn adrannau o'r fath.

- 1.8 Mae nifer y cymunedau yng Nghymru lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi lleihau yn sylweddol dros y degawdau diwethaf - o 92 yn 1991, 59 (7%) yn 2001 i 49 (6%) yn 2011. Erbyn 2011, roedd pob un o'r adrannau etholiadol hyn (ac eithrio un yng Nghonwy) yng Ngwynedd neu ar Ynys Môn - dangosir hynny ar y map. Cynrychiola'r adrannau etholiadol hyn 11.1% o siaradwyr Cymraeg Cymru.

Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul Adran Etholiadol, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

193.12-13
Technoleg a Dearyddiaeth
© Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rifal Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.



- 1.9 Rhoddwyd sylw arbennig i'r trothwy 70% mewn rhai cylchoedd ac fe'i defnyddiwyd fel sail i un o dargedau Iaith Pawb (2003). Cred rhai fod hwn yn drobwynt ystadegol di-droi-nôl mewn perthynas â defnydd iaith. Trafodwyd arwyddocâd posib hyn gan Hywel Jones, Ystadegydd Comisiynydd y Gymraeg, sy'n cyfeirio at y tebygolrwydd y bydd siaradwyr Cymraeg yn cwrdd

a siaradwr Cymraeg arall ar hap yn lleihau wrth i'r ganran leihau.³ Yn gyffredinol, ac fe adlewyrchwyd hyn yn yr ymgynghoriad a'r alwad am dystiolaeth, mae tipyn o fytholeg wedi datblygu o gylch arwyddocad y "trothwy" 70% ac arwyddocad trothwyon eraill sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Cyfrifiad yn unig.

- 1.10 Er mai'r patrwm cyffredinol yn ardaloedd y canrannau uwch yw lleihad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar sail canlyniadau adrannau etholiadol, bu cynnydd bychan yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn rhai pentrefi yn ardal Caernarfon sydd, o bosib, yn denu siaradwyr Cymraeg o rannau eraill o Wynedd.
- 1.11 Ac eithrio Caernarfon, un nodwedd arwyddocaol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn y gorllewin yw'r gwahaniaethau yng nghyfradd siaradwyr Cymraeg rhwng y prif ganolfannau trefol a'r ardaloedd o'u hamgylch. Mae canran y siaradwyr Cymraeg ym Mangor (36.4%), Aberystwyth (30.9%) Caerfyrddin (37.6%) a Llanelli (23.7%) yn sylweddol is na'r ganran yng ngweddill Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae effaith sefydliadau addysg uwch ac ysbytai ymhlith y rhesymau am hyn ond mae eu pwysigrwydd fel mannau cyflogaeth, masnach, hamdden a gwasanaethau yn rhoi iddynt arwyddocad arbennig.
- 1.12 Wrth ystyried sefyllfa'r Gymraeg yng nghymunedau'r gorllewin, mae'n werth nodi'r ffaith fod Caerdydd wedi gweld cynnydd o 4,231 o siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Mae'n bosib fod hyn yn rhannol o ganlyniad i allfudiad o siaradwyr Cymraeg o gymunedau canrannau uwch i Gaerdydd am resymau economaidd a chymdeithasol. Ond nid o fewn Cymru yn unig y mae siaradwyr Cymraeg yn symud (gweler para.2 uchod). Yn ôl Cyfrifiad 2011, cofnododd tua 8,400 o bobl yn Lloegr mai y Gymraeg oedd eu prif iaith, ond mae'n debyg mai cyfran fach o'r siaradwyr Cymraeg yn Lloegr yw hyn. Yn ôl 'Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg' ceir amcangyfrif fod tua 110,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Lloegr yn 2001.
- 1.13 Yn ogystal ag allfudiad, mae mewnfudiad hefyd yn ffactor allweddol yn sefyllfa'r Gymraeg yng nghymunedau'r canrannau uwch. Gwelwyd twf o 153,000 ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2001 a 2011 a gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r twf hwnnw i bobl sy'n symud i mewn i Gymru. Cafodd y mewnfudo hwn effaith ar gyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru ac ar gymunedau'r canrannau uwch. Gwelodd Sir Gaerfyrddin gynnydd o 6% (10,300), Conwy gynnydd o 5% (5,700), Gwynedd gynnydd o 4% (4,700), Ynys Môn gynnydd o 3% (2,100) a Cheredigion fawr o newid (gostyngiad o ryw 100 person).⁴
- 1.14 Cafodd y gostyngiad yn nifer y plant effaith ar ganran y siaradwyr Cymraeg hefyd ac mae i hyn oblygiadau o ran y potensial i drosglwyddo'r iaith yn y dyfodol (boed o fewn y teulu neu drwy'r system addysg). Gwelwyd gostyngiad o 5% yn nifer y plant 5-15 oed yng Nghymru rhwng 2001 a 2011, ond roedd y

³ Jones, H. (2012) **Darlun Ystadegol o'r iaith Gymraeg**. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012

⁴ Mae Cyngor Sir Ceredigion yn amheus iawn o'r ffigur hwn.

gostyngiad dipyn yn uwch yng Ngheredigion (13%), Ynys Môn (10%) a Gwynedd (8%) ond dipyn yn llai yn Sir Gaerfyrddin (2%).

- 1.15 Gwelwyd hefyd ostyngiad o 5% yn nifer y genedigaethau yng Nghymru dros yr ugain mlynedd diwethaf (1991/92 i 2011/12). Amrywiol oedd y tueddiadau yn ardaloedd y canrannau uwch – yng Ngwynedd cafwyd gostyngiad sylweddol o 15% ond yn Sir Gaerfyrddin cafwyd cynnydd o 6%
- 1.16 Dylid hefyd ystyried cyfradd trosglwyddo'r iaith yng nghymunedau'r gorllewin. Mae'r mapiau isod a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos patrymau trosglwyddo ar draws Cymru (2011).⁵ Gyda rhai eithriadau, y patrwm cyffredinol yw bod y cyfraddau trosglwyddo ar eu cryfaf yn yr ardaloedd lle ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.


Cyplau â phlant 3 i 4 oed
lle roedd 2 oedolyn yn gallu siarad Cymraeg,
2011

Cyfradd drosglwyddo
Cymedr = 0.72 (Nifer o MSOAs)

0.27 < 0.4	(9)
0.4 < 0.5	(17)
0.5 < 0.6	(66)
0.6 < 0.7	(67)
0.7 < 0.8	(101)
0.8 < 0.9	(123)
0.9 < 0.96	(27)

Ffin awdurdod lleol

Mae'r gyfradd wedi ei llyfnhau drwy ddefnyddio llyfnydd gofodol empirig Bayes.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, DC2801

Cynhyrsir data Ystadegau Gwladol a'r Arolwg Ordnans © Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013


Cyplau â phlant 3 i 4 oed
lle roedd 1 oedolyn yn gallu siarad Cymraeg,
2011

Cyfradd drosglwyddo
Cymedr = 0.44 (Nifer o MSOAs)

0.15 < 0.3	(46)
0.3 < 0.4	(111)
0.4 < 0.5	(143)
0.5 < 0.6	(75)
0.6 < 0.72	(35)

Ffin awdurdod lleol

Mae'r gyfradd wedi ei llyfnhau drwy ddefnyddio llyfnydd gofodol empirig Bayes.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, DC2801

Cynhyrsir data Ystadegau Gwladol a'r Arolwg Ordnans © Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013

⁵<http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Cymorth/dataacystadegau/Pages/Hafandataacystadegau.aspx>

Rhuglder a defnydd

- 1.17 Nid yn annisgwyl, mae rhuglder a defnydd yn mynd law yn llaw. Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ychydig dros hanner (58%) o'r rheini a ddwedodd eu bod yn siarad Cymraeg sy'n eu cyfrif eu hunain yn siaradwyr rhugl. O blith y rheini sy'n dweud eu bod yn siaradwyr rhugl, mae'r rhan fwyaf (87%) yn defnyddio'r iaith yn feunyddiol. Mae canlyniadau'r Arolygon Defnydd Iaith hefyd yn dangos mai yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad yr iaith bob dydd.

Casgliadau

- 1.18 Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn siroedd y canrannau uwch – gyda'r gostyngiadau mwyaf nodedig yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- 1.19 Ac eithrio Caernarfon, un nodwedd amlwg ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn ardaloedd y canrannau uwch yw'r gwahaniaethau yng nghyfradd siaradwyr Cymraeg rhwng y prif ganolfannau trefol a'r ardaloedd o'u hamgylch.
- 1.20 Yn ogystal ag allfudo, mae mewnfudo hefyd yn ffactor allweddol yn sefyllfa'r Gymraeg yng nghymunedau'r gorllewin.
- 1.21 Cafodd y gostyngiad yn nifer y plant effaith ar ganran y siaradwyr Cymraeg hefyd ac mae i hyn oblygiadau o ran y potensial i drosglwyddo'r iaith yn y dyfodol.
- 1.22 Gyda rhai eithriadau, y patrwm cyffredinol yw bod y cyfraddau trosglwyddo ar eu cryfaf yn yr ardaloedd lle ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.
- 1.23 Mae canlyniadau'r Arolygon Defnydd Iaith hefyd yn dangos mai yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad yr iaith bob dydd.

2. Trosglwyddo'r iaith a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu

Cefndir

- 2.1 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth, *Iaith fyw: iaith byw* yn nodi pwysigrwydd teuluoedd mewn cynllunio ieithyddol. Ynghyd ag addysg gwelir bod trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yn faes allweddol. Er mwyn gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad yr iaith mae'n rhaid iddi fod yn iaith y cartref i gymaint o blant ag y bo modd.

Ffenomen gyffredin ymysg ieithoedd llai eu defnydd yw'r duedd tuag at yr ieithoedd mawr a cholli'r defnydd o'r iaith lai yn y cartref.⁶ Yn yr wythdegau, er enghraifft, roedd yna bryder mawr yn y Gaeltacht am fod rhieni yn ddifater ac yn wangalon o ran trosglwyddo'r iaith i'w plant, a bod rhai o gymunedau'r Gaeltacht yn dibynnu ar yr ysgolion i drosglwyddo'r iaith i'w plant. Yr un yw'r profiad yng Nghymru a fe geir cyfeiriadau helaeth gan sylwebyddion yn mynegi pryder at ddirywiad dros y degawdau yng nghyfraddau trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu.⁷

Fel rhan o drafodaethau'r grŵp ystyriwyd beth yw'r ffactorau allweddol sydd yn / a allai annog teuluoedd ifanc i drosglwyddo'r iaith. Cyhoeddwyd rhai astudiaethau ymchwil ym maes trosglwyddo'r iaith dros y blynyddoedd (gweler Atodiad 1) ac ystyrir casgliadau'r astudiaethau hyn yn yr adran yma. Ystyrir hefyd ystadegau Cyfrifiad 2001 a 2011 sydd yn berthnasol i faes trosglwyddo'r iaith, yn ogystal â gweithgarwch presennol Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid grant o fewn y maes hwn.

Wrth fynd ati i ystyried maes trosglwyddo'r iaith a defnydd iaith o fewn teuluoedd mewn ardaloedd canrannau uchel, dylid cadw mewn cof nifer o ffactorau all ddylanwadu ar rieni/gofalwyr. Dylid rhoi ystyriaeth yn y lle cyntaf i natur ieithyddol amrywiol y teuluoedd, gan gynnwys teuluoedd ble mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yn ddwyieithog, yn uniaith Saesneg neu deuluoedd un riant.

Gall proffil iaith y gymuned a statws iaith o fewn y gymuned fod yn ffactorau pwysig wrth drosglwyddo iaith o fewn yr ardaloedd o dan sylw. Awgryma canfyddiadau adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen* gan Brifysgol Bangor⁸ fod cyswllt rhwng y ddau ffactor yma a'r tebygolrwydd y bydd rhieni yn dangos awydd i drosglwyddo'r iaith. Mewn sampl o 306 o rieni, nododd 64% o fewn yr astudiaeth hon fod rhoi ystyriaeth i fywyd cymdeithasol a

⁶ Gwaith nodedig yw Fishman, J. (1991) **Reversing Language Shift: theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages**. Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

⁷ Jenkins, Geraint H. gol. (1998-2001) Cyfres Hanes Cymdeithasol Yr Iaith Gymraeg, yn cynnwys "Gwnewch Bopeth yn Gymraeg – Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911" ac "Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif".

⁸ Irvine, Roberts et al. 2008, 'Twf ac Ymlaen - Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen' Prifysgol Bangor

diwylliannol eu plentyn yn y dyfodol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i drosglwyddo'r iaith.

Y Dystiolaeth

Astudiaethau

2.2 Fel y nodwyd eisoes, mae astudiaethau amrywiol wedi'u comisiynu'n y maes dros y blynyddoedd a thra'n cadw mewn cof fod y samplau yn amrywio o ran natur a maint, maent yn ffynonellau defnyddiol iawn o wybodaeth ynglŷn â thueddiadau cymdeithaseg iaith. Mewn gwaith ymchwil gan Dr Kathryn Jones a Dr Delyth Morris am deuluoedd yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin yn 2004-05,⁹ casglwyd bod pum prif ddylanwad i'w hystyried o ran trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, sef;

- ansawdd y berthynas rhwng rhiant a phlentyn
- ymwneud y tadau a'r mamau
- y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd
- rôl a dylanwad y teulu estynedig
- gwerthoedd ieithyddol y rhieni a'r berthynas sydd rhyngddynt

2.3 Mae dystiolaeth hefyd yn awgrymu mai greddfoll i raddau helaeth yw penderfyniad rhieni/gofalwyr i drosglwyddo'r iaith. Maent yn dueddol o ddefnyddio'r iaith y maent fwyaf cyfarwydd â hi, neu'r iaith y maent yn siarad â'u partner. Nodir hefyd fod yr addysg Gymraeg a'r gofal plant Cymraeg sydd ar gael yn gallu naill ai atgyfnerthu neu rwystro'r broses o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu. Nodir mewn astudiaeth sylweddol arall gan Brifysgol Bangor fod cyswllt yn bodoli rhwng dewisiadau trosglwyddo iaith a phrofiad y rhiant o'r Gymraeg ers yn blentyn.¹⁰ Amlygwyd fod cyswllt rhwng iaith cartref y rhiant a'u profiad cymdeithasol pan yn blant a'u dewis i drosglwyddo'r iaith i'w plant eu hunain. Yn dilyn hynny, ystyrir hefyd y gall ffactorau megis hyder rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, rhuglder a hunan-ganfyddiad rhieni o'u rhuglder effeithio ar y trosglwyddo a'r defnydd iaith o fewn y teulu.

2.4 O dderbyn bod trosglwyddo'r iaith yn y teulu neu gymdeithasoli'r Gymraeg yn y teulu yn fater canolog i atgynhyrchu iaith, mae'n bwysig parhau i weithredu yn y maes a diweddarau'r corff ymchwil a gwerthuso.

⁹ <http://www.esrc.ac.uk/my-esrc/grants/RES-000-22-0611/read/reports/> Jones, Kathryn and Morris, Delyth (2007) Welsh language socialization within the family. *Contemporary Wales*. 20 (1), tt. 52-70 Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

¹⁰ Gathercole, V.C. a Thomas, E.M. gol. (2007) *Trosglwyddo iaith mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Data


2.5 Cynyddodd nifer y plant 3-4 a all siarad Cymraeg o 13,329 yn 2001 i 16,495 yn 2011 (cynnydd o 18.8% i 23.3%).

Cyfraddau trosglwyddo (seiliedig ar blant 3-4 oed yn unig)


Yn ôl Cyfrifiad 2001:

- Mewn cartrefi lle roedd y ddau riant yn siarad Cymraeg roedd 82% o'r plant yn gallu siarad yr iaith;
- Mewn cartrefi lle roedd rhiant unigol yn siarad Cymraeg roedd 55% o'r plant yn gallu siarad yr iaith;
- Mewn cartrefi lle roedd cyplau ag 1 oedolyn yn siarad Cymraeg roedd 40% o'r plant yn gallu siarad yr iaith;
- Arhosodd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, yn sefydlog rhwng 2001 a 2011, ar oddeutu 82%;
- Cynyddodd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, o 40% yn 2001 i 45% yn 2011;
- Gostyngodd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, o 55% yn 2001 i 53% yn 2011;

Siart 1



Siart 2



****** Gall fod mwy nag un oedolyn mewn cartref un rhiant ee brawd/chwaer nad sy'n ddibynnol.

Tabl 1: Canran y plant 3-4 sy'n gallu siarad Cymraeg mewn aelwydydd un teulu, siroedd y canrannau uchaf (2001)

Sir	Teulu cwpl, 2+ oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu cwpl, 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu un rhiant, o leiaf 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	Cyfanswm
Ynys Môn	79	49	70	18	55
Gwynedd	90	56	74	35	72
Ceredigion	88	53	66	28	56
Sir Gaerfyrddin	85	48	61	16	42

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001

Tabl 2: Canran y plant 3-4 sy'n gallu siarad Cymraeg mewn aelwydydd un teulu (2011)

Sir	Teulu cwpl, 2+ oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu cwpl, 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu un rhiant, o leiaf 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	Cyfanswm
Ynys Môn	80	47	61	22	54
Gwynedd	90	63	82	35	74
Ceredigion	83	59	63	34	59
Sir Gaerfyrddin	85	57	56	25	46

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

- Ar y cyfan mae'r gyfradd drosglwyddo ar gyfer teuluoedd cwpl gyda dau neu fwy oedolyn yn siarad Cymraeg wedi aros yn gyson ar draws Cymru rhwng 2001 a 2011. (Mae'r ffigur yn amrywio mwy mewn ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg).
- Mae'r gyfradd drosglwyddo ar gyfer teuluoedd cwpl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg wedi cynyddu ar draws Cymru.
- Mae nifer y plant sy'n siarad Cymraeg mewn teuluoedd heb oedolyn sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu ym mhob awdurdod lleol (yng Ngwynedd arhosodd y gyfradd yn sefydlog).

Dadansoddiadau pellach

- 2.6 Bydd rhan o brosiect ymchwil myfyriwr MSc, sydd yn cael ei wneud mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru, yn edrych ar nodweddion gwahanol fathau o ardaloedd (gan gynnwys ardaloedd a welodd ostyngiad/cynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011). Bydd y gwaith yma'n cynnwys cymharu demograffeg yr ardaloedd yma ee strwythur oedran, nifer y plant ayyb. Gobeithir y bydd elfen o'r gwaith yma'n edrych ar nodweddion teuluoedd. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2014.

Gweithgarwch Cyfredol Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo a defnydd iaith o fewn teuluoedd

Twf

- 2.7 Mae prosiect Twf yn un o'r prif ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu o fewn maes trosglwyddo'r iaith yn y teulu. Lansiwyd y prosiect yn 2002 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r nod o annog mwy o deuluoedd yng Nghymru i drosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd. Y brif gynulleidfa darged oedd teuluoedd ble gall o leiaf un rhiant siarad Cymraeg.

Nod Twf yw rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i famau beichiog, mamau newydd a'u teuluoedd ynglŷn â manteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Gwneir hyn yn uniongyrchol drwy gyfrwng swyddogion maes a gweithgareddau hyrwyddo lleol a chenedlaethol ac mewn partneriaeth â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Lleolir 20 o swyddogion maes y cynllun mewn ardaloedd ar draws Cymru ac maent yn gweithio yn agos gyda phartneriaid iechyd a chymunedol yn lleol i drosglwyddo negeseuon i rieni am werth y Gymraeg o'r crud a dwyieithrwydd.

Mae asesiad effaith cynllun Twf (*Twf ac Ymlaen; Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen, Irvine F et al, 2008*) wedi nodi bod ymyriadau cynnar yn bwysig iawn gan fod arferion ieithyddol yn anodd i'w newid ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Yn ogystal â hyn fe nodwyd fod Twf yn gweithredu'n effeithiol o fewn y sector iechyd ac yn cynnig gwybodaeth briodol i rieni sydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus.

Ar hyn o bryd mae swyddogion maes Twf yn gweithio'n rhan-amser ac yn cynnal dros 9000 o gysylltiadau i rannu negeseuon Twf yn flynyddol. Golyga hyn sgwrs gydag oddeutu 4000 o unigolion, o leiaf ddwywaith yn y cyfnod cyn ac wedi geni'r plentyn.

Fe geidw swyddogion Twf gofnod cyson¹¹ o farn defnyddwyr o'r gwasanaethau a gynigir, ac o'r ymatebion ceir cadarnhad clir fod yr hyn a gyflawnir drwy gynllun Twf yn llwyddo. Dyma rai dyfyniadau perthnasol:

"[As a Health Visitor] Twf has certainly made me more aware of the importance of introducing the two languages to a child as early as possible, and has helped in promoting this to families during the course of my job".

"I first came into contact with Twf in the doctor's waiting area when I was pregnant and read the information on the board... Twf has helped us as a family as I bring the Welsh I have learnt at the [Amser Twf] group home and introduce it to the family home...Without Twf, although we felt it would be beneficial for our daughter to learn Welsh, it is unlikely we would have taken steps to teach her. Whereas with Twf we are speaking Welsh every day to her and would like to send her to a Welsh-medium school so she will become truly fluent".

"The principles of Twf hit a strong chord with me as I was brought up in a strong Welsh speaking extended family environment. However, my parents spoke English and as such I was never encouraged to speak Welsh with aunts and uncles and cousins... Twf has encouraged me to converse in Welsh with my son via the use of song in nursery rhymes which both [my son] and I thoroughly enjoy... [Twf] has also assisted my husband in participating in the language journey, so we can all learn together".

Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt

- 2.8 Nod prosiect "*Mae dy Gymraeg di'n grêt*" yw codi hyder a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymhlith rhieni isel eu hyder yn y Gymraeg ac nad ydynt yn yr arfer o ddefnyddio'r iaith gyda'u plant nac yn gymdeithasol. Sefydlwyd y prosiect yng nghyswllt gwaith swyddogion maes Twf o fewn ardaloedd yn y De-orllewin, ble daeth yn gynyddol amlwg bod angen cefnogaeth bellach ar rai teuluoedd yn ogystal â darparu cyngor a chefnogaeth i rieni ynglŷn â throsglwyddo a defnydd iaith o fewn y teulu.

Cynlluniwyd i gyflawni'r nod drwy gynnal cyfres o sesiynau anffurfiol gyda grwpiau o rieni a theuluoedd estynedig plant o dan 5 oed dros gyfnod penodol o amser. Darparwyd cyfleoedd anffurfiol a hamdden cyfrwng Cymraeg difyr a diogel i rieni ddechrau magu hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg, yn ogystal â chyfle i ystyried y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn eu teuluoedd, eu cylch

¹¹ Effaith Twf – ymchwil maes 2011, Iaith Cyf.

cyfoedion ac yn gymdeithasol yn y gymuned. O wneud hynny rhoddwyd cyfle i'r rhieni feddwl am gyfleoedd newydd i geisio ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol.

Profa adroddiadau gwerthuso'r prosiect bod cynnal sesiynau o'r fath yn llwyddo i newid arferion iaith y mynychwyr erbyn diwedd y cyfnod gyda'r canlyniadau yn dangos cynnydd o 90% yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg y mynychwyr a'u plant; gyda'r un ganran yn nodi eu bod yn hapusach yn eu sgiliau Cymraeg llafar ers mynychu'r sesiynau. Nododd un rhiant ei bod hi'n "*..ardderchog iawn i siarad Cymraeg heb becco am wneud camgymeriadau*" gyda rhiant arall yn ychwanegu "*Fi'n gweld mwy o werth i'r Gymraeg gyda'r plant nawr*". (MDGDG 2012/13: *Adroddiad diwedd blwyddyn*). Mynychodd 70 o unigolion ar gyfartaledd yn ystod 2012/13.

Cymraeg i'r Teulu

- 2.9 Wrth ystyried yr ardaloedd dan sylw, mae'n bwysig ystyried teuluoedd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y cartref, gan gynnwys teuluoedd sy'n dysgu Cymraeg neu sydd wedi symud mewn i ardal benodol. Yn y cyswllt hwn, mae rôl y Canolfannau Cymraeg i Oedolion a phartneriaid cymunedol amrywiol yn bwysig.

Lansiwyd cwrs Cymraeg i'r Teulu yn 2012 ac mae'r cwrs wedi'i gynllunio i sicrhau bod rhieni ar lefel Mynediad yn dysgu iaith addas ac yn cael cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant bach o'r dechrau. Cyfeiria *Codi golygon: Adolygiad Cymraeg i Oedolion* Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013 at lwyddiant y Canolfannau Cymraeg i Oedolion i ddenu diddordeb ymysg dysgwyr yn y cyrsiau Cymraeg i'r Teulu. Mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, trwy'r gweithgor a sefydlwyd i edrych ar y maes Cymraeg i'r Teulu, wedi llwyddo i feithrin perthynas gydweithredol gadarn â phartneriaid allweddol fel ysgolion, y Mudiad Meithrin a Twf er mwyn denu rhieni a'r teulu estynedig, a darperir sesiynau *Cymraeg o'r Crud* hefyd ar gyfer rhieni newydd a'u babanod. Mae'r cydweithio yma wedi sicrhau bod anghenion y dysgwr yn ganolog i'r broses gynllunio, gan ofalu y cynhelir cyrsiau ar yr un pryd ac yn yr un lleoliad â'r cylchoedd meithrin neu'r ysgol; a sicrhau bod pwyslais y cyrsiau ar gyflwyno Cymraeg i'w defnyddio a'i hymarfer yn syth, a hynny gan ddilyn yr un patrymau iaith a ddefnyddir gan y plentyn. Mae'r niferoedd sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg i'r Teulu yn cynyddu'n gyflym gyda thua 1,600 o oedolion yn dilyn y cyrsiau penodol hyn yn 2012-13. Mae'r cyrsiau Cymraeg i'r Teulu wedi eu teilwra i alluogi rhieni, aelodau teulu, ffrindiau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant i ddysgu a deall plant wrth iddyn nhw siarad Cymraeg.

Partneriaid Grant y Llywodraeth

- 2.10 Gwneir llawer o waith dylanwadu ymhlith teuluoedd gan sefydliadau amrywiol sy'n derbyn grant gan y Llywodraeth yn flynyddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal sgysiau gyda rhieni er mwyn rhoi gwybodaeth am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a chynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cymdeithasol a'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni i fagu eu plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yn ogystal, gweithredir prosiectau amrywiol gan y Mentrau Iaith, gan gynnwys:

- prosiect Blas ar Gymru (prosiect i deuluoedd plant sydd yn mynychu Canolfannau Hwyrddyfodiaid) sydd yn cynnwys 5 sesiwn i deuluoedd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r ardal leol, a'u cymathu i'r ardal leol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u rôl bwysig yn cefnogi datblygiad ieithyddol eu plant, a chodi eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ysgol
- prosiect Ailgydia yn dy Gymraeg i rieni sydd wedi bod drwy'r system addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu eu hyder i siarad mwy o Gymraeg gyda'u plant
- cydweithio gyda lleoliadau gofal plant er mwyn cynyddu a chefnogi eu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol
- cynnal prosiect i deuluoedd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, eu cyflwyno i rwydweithiau Cymraeg lleol a chynyddu eu hunaniaeth Gymraeg.

Mudiad Meithrin

- 2.11 Mae Mudiad Meithrin yn derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am tua 550 o gylchoedd meithrin ledled Cymru gan gynnig gofal ac addysg sesiynol ddyddiol i blant 2 i 5 oed. Rhoddir y cyfle i fwy na 12,000 o blant ddysgu drwy chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylchoedd meithrin. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cynnal dros 450 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig cyfle i blant, o'u geni hyd at oedran ysgol gorfodol, ac i'w rhieni/gofalwyr gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu, rhannu profiadau a chwarae mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol.

Gofal Plant cyfrwng Cymraeg

- 2.12 Un o brif amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw creu system gynllunio fwy effeithiol. Mae gofyn i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru yn flynyddol a bydd hyn yn statudol o Ebrill 2014 ymlaen.

Bydd y Cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae awdurdodau addysg yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cynlluniau Strategol yn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio a'i datblygu mewn ymateb i'r galw. Mae'r Strategaeth yn bwriadu gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol a'r cyfnod statudol, gan ymateb yn rhagweithiol i'r galw ymysg rhieni. Mae'r Strategaeth yn nodi dau amcan strategol sy'n berthnasol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar:

- I. Disgwyl asesiad gwell o ddewisiadau rhieni o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth ar gyfer gofal plant. Ynghyd â darpariaeth y blynyddoedd cynnar a darpariaeth yn y sector statudol yn yr awdurdodau addysg hynny lle y cynigir dewis rhwng

darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, bydd disgwyl i awdurdodau lleol weithredu ar y canfyddiadau wrth gynllunio darpariaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

II. Cynyddu mynediad i ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar a chynradd statudol cyfrwng Cymraeg yng nghymuned y plentyn.

- 2.13 Mae cyswllt pwysig rhwng Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn benodol gyda mesur y galw am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Dangosodd adroddiad *Cordis Bright* ar ofal plant yng Nghymru yn 2012 fod y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yn y mwyafrif o awdurdodau lleol yn ymwneud â gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn flynyddol ac, ar sail yr asesiad hwnnw, amlygodd adroddiad *Cordis Bright* rai canfyddiadau arwyddocaol am ofal plant cyfrwng Cymraeg. Canfuwyd prinder yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn 19 o awdurdodau lleol. Mae'r bylchau yn y ddarpariaeth a ganfuwyd yn ymwneud gan fwyaf â'r diffyg dewis o ofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni. Amlygwyd bylchau cyffredin o ran y nifer o warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd a gofal cyn ac ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg a fodolai. Er enghraifft, ni chofnodwyd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gan Sir Gâr, ond cyfeiriwyd at ddiffyg yn nifer y gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg ym Môn a'r diffyg yn y gwasanaethau ôl-ysgol cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion.

Mae grŵp trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru yn cydweithio i edrych yn fanylach ar y maes gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ystyrir materion megis lle i'r Gymraeg o fewn agenda polisi gofal plant y Llywodraeth, gan gynnwys mesur y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg. Edrychir hefyd ar sut y diwellir y galw hwn, y gweithlu, a safon y ddarpariaeth.

Trafodwyd yn flaenorol ganfyddiadau astudiaethau'n awgrymu bod cyswllt rhwng y maes gofal plant a throsglwyddo'r iaith. Yn gysylltiedig â hyn gellid ystyried ffactorau megis cyflogaeth a gofal plant fforddiadwy, y gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, ac annog defnydd ohono o fewn yr ardaloedd o dan sylw. Yng nghyswllt gofal plant fforddiadwy, fel rhan o drafodaethau'r grŵp, cyffyrddwyd â ffactorau cynllunio ar gyfer teuluoedd a magu plant â'r posibilrwydd bod rhai teuluoedd yn gorfod oedi rhwng cael plant oherwydd costau gofal plant i fwy nag un plentyn. Gallai ymchwil pellach i mewn i'r maes hwn a'i gyswllt â throsglwyddo'r iaith fod o ddefnydd.

Cyd-destun polisi a phrif-ffrydio

- 2.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nifer o feysydd polisi sy'n ymdrin â phlant ac mae yna orgyffwrdd rhwng meysydd polisi allweddol sy'n ymwneud â rhianta a gofal plant a throsglwyddo'r iaith a defnydd iaith y teulu. Er mwyn diwallu anghenion plant a theuluoedd Cymraeg eu hiaith a sicrhau yr anogir ac y cefnogir y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, mae angen darpariaeth ddigonol o wasanaethau iddynt.

Mae rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf yn arwain y gwaith o wella dulliau darparu gwasanaethau i deuluoedd ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd

â'r cymorth a gynigir gan raglenni fel Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ynghlwm â'r rhaglenni uchod ble gofynnir iddynt roi ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg yn unol â gofynion ac anghenion teuluoedd yn lleol.

Casgliadau

- 2.15 O dderbyn bod trosglwyddo'r iaith neu gymdeithasoli'r Gymraeg yn y teulu yn hanfodol er mwyn atgynhyrchu'r iaith, mae'n bwysig parhau i weithredu yn y maes a diweddarau'r corff ymchwil a gwerthuso.
- 2.16 Wrth ystyried anghenion teuluoedd lle nad Cymraeg yw prif iaith y cartref, er enghraifft teuluoedd sydd wedi symud i mewn i ardal neu deuluoedd sydd yn dysgu'r iaith, mae angen math gwahanol o gefnogaeth arnynt er mwyn trosglwyddo manteision dwyieithrwydd iddynt a'u cefnogi i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg o fewn y teulu.
- 2.17 Byddai ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng materion gofal plant, cyfraddau geni a'r dylanwad a geir ar arferion trosglwyddo'r iaith o ddefnydd i gynllunio strategaethau pellach.

3. Addysg

Cefndir

- 3.1 Yn yr adran yma, ceir amlinelliad o rai o'r prif ystyriaethau addysg sy'n wynebu ardaloedd lle ceir canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg. Yn sail i'r materion a amlinellir mae datblygiad polisiau iaith addysg yr awdurdodau lleol ynghyd â'r sylw cynyddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r maes. Canolbwyntir yn bennaf ar ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Môn, gan roi peth sylw hefyd i Bowys, Conwy, Dinbych, Penfro, Caerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot.

Yn ardaloedd y pedwar prif awdurdod lleol dan sylw, Cymraeg yw'r prif gyfrwng o addysgu o leiaf hanner y disgyblion cynradd ac fe asesir y rhan fwyaf o ddisgyblion saith oed mewn Cymraeg iaith Gyntaf. Defnyddir y mesur hwn fel targed ar gyfer Deilliant 1 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, *Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*. Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd 25% o ysgolion yn cyflawni hyn yn genedlaethol erbyn 2015 a 30% erbyn 2020.

Datblygiad hanesyddol

- 3.2 Gwelwyd cyfnod allweddol yn hanes Addysg Gymraeg yn dilyn yr Ail Ryfel Byd pryd gwelwyd normaleiddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn y sector cynradd - yn enwedig ar draws rhannau helaeth o'r ardal dan sylw. Ond "lessons history, lessons geography, lessons English" a gafwyd, chwedl Dafydd Iwan, i raddau helaeth yn y sector uwchradd. Daeth newid cadarnhaol yn y 1960au mewn rhai awdurdodau dan arweinyddiaeth oleuedig aelodau etholedig, swyddogion addysg a phenodiadau i swyddi penaethiaid ysgol. Hwyluswyd hefyd y datblygiadau gan adroddiad Gittins yn 1967. Cadarnhawyd cynnydd anffurfiol a distaw bach yn rhai o'r ardaloedd perthnasol gydag ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974 a phennu polisiau iaith addysg Gwynedd a Dyfed.

Yng Ngwynedd yn enwedig, gwelwyd sefydlu'r ddarpariaeth Canolfannau Iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid yn ddatblygiad anhepgor – trwy greu sefyllfa lle bo'r ysgolion cynradd o leiaf yn rhai cyfrwng Cymraeg bron yn ddiwahân, gydag ambell eithriad ym Mangor ac ym Môn. Bu'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn nodwedd weddol gyffredin ar draws yr ardaloedd canrannau uwch ers yr 80au, er bod y model yn gyffredinol yn un rhan-amser (diwrnod neu ddau yr wythnos) yn hytrach na'r cwrs trochi llawn-amser (bob dydd am 10 wythnos) a geir yng Ngwynedd.¹²

Yn Nyfed yn y 70au, pennwyd categorïau iaith a oedd yn cyfateb yn fras i gyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu ddwy ffrwd, a'r ysgolion dwy ffrwd yn

¹² Gwynedd: http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7072&doc=26125&Language=2&p=1&c=1. Mae Ceredigion hefyd wedi mabwysiadu'r un model llawn-amser erbyn hyn mewn un ardal: http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_9530000/newsid_9537300/9537366.stm

gyffredin yn y trefi. Gyda'r polisïau iaith a'r categoreiddio hwn daeth tensiynau i'r wyneb mewn rhai ardaloedd a fynegwyd gan fudiadau bychain ond llafar megis Parents for Optional Welsh, Language Freedom Movement ac Education First ac yn ddiweddar iawn BiLingo yng Ngheredigion.

Mae newid categori iaith ac unrhyw awgrym o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau'n fater dadleuol. Gorfu i Gyngor Ceredigion fynd i'r Uchel Lys wrth newid Ysgol Gynradd Llandysul o ysgol ddwy ffrwd i ysgol Categori A / cyfrwng Cymraeg yn gynnar yn y 1990au.

Yn fwy diweddar, profwyd peth tyndra wrth weithredu polisi dilyniant cynradd-uwchradd Ceredigion yn fwy cydwybodol a newid Ysgol Gynradd Aberteifi yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Profwyd gwrthwynebiad tebyg ym Mhenmaenmawr wrth i Ysgol Pencae newid o ysgol ddwy ffrwd i ysgol cyfrwng Cymraeg, ac ymateb chwyrn yn ddiweddar a gafwyd wrth awgrymu datblygiad tebyg arfaethedig yng Nghastell Newydd Emlyn.

Disgrifiodd un awdurdod rhyngwladol ar addysg ddwyieithog, yr Athro Colin Baker, y sefyllfa yng Nghymru yn 1993 fel "amrywiaeth caleidosgopig" a hynny ar sail ystod yr arferion a dulliau gwahanol – o'r wers 'Gymraeg Ail iaith' mewn ysgol cyfrwng Saesneg yn naill begwn y continwmm dwyieithog i addysg a gyflwynir bron yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pegwn arall.¹³ **Ugain mlynedd yn ddiweddarach ni welwyd fawr ddim datblygiad. Aros yn yr unfan sydd wedi digwydd yn y bôn ers ugain mlynedd a mwy. Yng Ngwynedd gellir dadlau fod parhad yn dderbyniol ond yn y rhannau eraill mae hynny'n golygu nad yw nodau'r polisïau'n cael eu cyflawni ac nad oes modd gwneud unrhyw beth i gynyddu nifer yr unigolion all ddewis siarad Cymraeg.**

O edrych yn feirniadol, mae eisiau mynd i'r afael nid yn unig â'r materion sy'n caniatáu i'r amrywiaeth caleidosgopig barhau ond hefyd mae angen gofyn "onid oes modd i bob plentyn fedru dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ardaloedd y canrannau uwch?".

Tueddiadau diweddar

Awdurdodau lleol

Tabl 1 Nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg

	2002 (Nifer)	2012 (Nifer)	2002- 12 (Nifer)		2002 (%)	2012 (%)	2002- 12 (%)
Ynys Môn	570	510	-60		77.6	75.2	-2.3
Gwynedd	1249	1181	-68		93.2	98.4	5.2
Conwy	262	251	-11		21.5	23.7	2.3

¹³ Ceir llyfryddiaeth ddefnyddiol ar http://bilingualism.bangor.ac.uk/people/colin_baker.php.cy? Y gyfrol dan sylw yw Encyclopaedia of **Bilingualism and Bilingual Education** (1993) Cleveland: Multilingual Matters.

Sir Ddinbych	233	242	9		21.0	23.2	2.2
Powys	222	261	39		14.6	19.4	4.7
Ceredigion	549	481	-68		77.3	73.3	-4.0
Sir Benfro	216	271	55		16.8	21.2	4.4
Sir Gaerfyrddin	1014	1018	4		54.0	55.6	1.6
Castell-nedd Port Talbot	226	277	51		14.1	17.7	3.6

- 3.3 Fel y gwelir, mae nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl y mesurydd hwn wedi disgyn yn awdurdodau lleol Gwynedd, Môn a Cheredigion ac mae hyn yn deillio o leihad yn nifer y plant yn y siroedd hyn. Gwelir cynnydd yn yr awdurdodau lleol eraill sydd dan sylw, er nad yw graddfa'r cynnydd ymhob achos yn ddigonol i gwrdd â'r targedau cenedlaethol a osodwyd ar gyfer 2015 a 2020.
- 3.4 Yn ôl Ystadegau Cymru, mae 6.2% o blant 5 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Erbyn 7 oed, aseswyd 21.9% o blant saith oed mewn Cymraeg. Trochi a geir felly yn y rhan fwyaf o ysgolion ac ar gyfer mwyafrif y disgyblion yn ardaloedd y canrannau uwch. Mewn sefyllfa drochi rhaid i ysgolion ddelio mewn modd gwybodus a sensitif ag anghenion ieithyddol gwahanol garfannau o fewn yr un dosbarth. Er tegwch mae llawer iawn o lwyddiant yn y cyswllt i'w frolio, diolch i waith caled ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd y canrannau uwch.
- 3.5 Dangosodd dadansoddiad o ddata oedran ysgol o Gyfrifiad 2011 a data asesiadau fod y gydberthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai a aseswyd mewn Cymraeg laith ar ei hagosaf mewn ardaloedd lle ceir canran uwch o siaradwyr Cymraeg.

Tabl 2 Dadansoddiad o ddata oedran ysgol o Gyfrifiad 2011

Awdurdod lleol	Aseswyd mewn Cymraeg laith Gyntaf 2011 7 oed (%)	Yn siarad Cymraeg Cyfrifiad 2011 5-9 oed (%)
Gwynedd	98.4	91.4
Ceredigion	73.1	81.6
Ynys Môn	68.8	78.9
Sir Gaerfyrddin	55.6	60.0
Conwy	26.1	47.9
Sir Ddinbych	25.0	45.3
Sir Benfro	21.2	40.7
Rhondda Cynon Taf	20.8	30.7

Caerffili	17.3	33.4
Powys	16.8	41.2
Caerdydd	15.9	27.1
Castell-nedd Port Talbot	15.3	29.7
Bro Morgannwg	13.7	28.5
Merthyr Tudful	12.8	21.4
Abertawe	12.6	25.7
Wrecsam	11.7	29.5
Torfaen	9.4	38.0
Pen-y-bont ar Ogwr	8.9	24.3
Sir y Fflint	5.7	33.1
Blaenau Gwent	4.7	30.5
Sir Fynwy	4.4	40.3
Casnewydd	3.9	34.8

- 3.6 Gwelwyd hefyd wrth gymharu ffigurau Cyfrifiad 2011 gyda data asesu 2001, y byddai disgyblion 14 oed yn 2001 yng ngharfan oedran 20-24 yn 2011. Gwelir y gymhariaeth yn y tabl hwn:

Yn siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2001 10-14 oed (%)	Aseswyd mewn Cymraeg laith Gyntaf 2001 14 oed (%)	Yn siarad Cymraeg Cyfrifiad 2011 20-24 oed (%)
43.7	13.8	17.6

Awgryma'r data fod y rhai a astudiodd Gymraeg laith Gyntaf yn dal i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg ddeng mlynedd yn ddiweddarach.

Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 3.7 Y polisi cenedlaethol a grisialir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw

*'Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog.'*¹⁴

Yn sgil y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae disgwyliad statudol ar bob awdurdod lleol i baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y prif arf yn y Ddeddf a'r Cynlluniau hyn mewn perthynas ag ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r disgwyliad ar awdurdodau lleol perthnasol i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o ymgynghoriad diweddar ar gynnwys y Cynlluniau rhoddwyd blas hefyd

¹⁴ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/welshmededuca/?lang=cy>

ar y disgwyliadau ar awdurdodau wrth iddynt fwrw ati i asesu'r galw.¹⁵ Bu cryn drafod ar addasrwydd model asesu'r galw mewn ardaloedd lle roedd mwyafrif y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg eisoes. Amlygir canlyniad y drafodaeth honno yn y rheoliadau drafft. Er hynny, nid yw sefyllfa ddi-newid mewn llawer o ardaloedd y canrannau uwch yn llesol i'r nod o gynyddu nifer y cymunedau Cymraeg. Ymhlyg yn hyn mae gofyn cynllunio i gynyddu a darparu rhagor o addysg cyfrwng Cymraeg yn hytrach na'r hyn a ddisgrifir yn aml yn addysg ddwyieithog. Mae'r fframwaith polisi cenedlaethol a'r dehongliad lleol o'r polisi hwn yn allweddol, felly.

Mewn rhai o'r ardaloedd dan sylw, un o ganlyniadau polisi iaith addysg yw ceisio ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg tra'n ystyried y diffiniadau a geir yn y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg; Dogfen Gwybodaeth Rhif: 023/2007*.

Er enghraifft yng Ngheredigion, o ran y polisi iaith addysg, gwelwyd rhai datblygiadau cadarnhaol yn y blynyddoedd diweddar. Yn nhermau polisi pellgyrhaeddol i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg ceir ymrwymiad clir sy'n nodi y bydd unrhyw ysgolion newydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gwelwyd gweithredu mwy pwrpasol ar bolisi dilyniant y sir ac mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae dros 90% o ddisgyblion yn parhau mewn addysg Gymraeg neu ffrydiau Cymraeg wrth symud i'r ysgol uwchradd o gymharu ag 80% rai blynyddoedd yn ôl. Nodwyd eisoes fod Ceredigion hefyd wedi agor Canolfan Iaith newydd ar gyfer hwyrdyfyddiaid sy'n efelychu model llawn-amser mwy effeithiol Gwynedd.

Fodd bynnag, er y cynnydd mewn rhai agweddau ceir diffyg datblygiad mewn rhai ffyrdd hefyd. Y man gwannaf yn y cyswllt hwn yw datblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth. Ers rhai degawdau, ac yn wir ers i'r awdurdod lleol fabwysiadu Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar ôl yr Ail Ryfel Byd, mae llai na thraean o ddisgyblion Aberystwyth mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Sefyllfaoedd nid annhebyg a geir ym Mangor ac yng Nghaerfyrddin o safbwynt cyfrwng ysgolion cynradd ac amgylchiadau go debyg a brofir yn y tair canolfan drefol hon fel y nodwyd eisoes. Wrth gwrs, mae hanes yn chwarae ei ran yn amlwg yn natblygiad y lleoedd a'r sefyllfaoedd hyn. Un o'r sialensau mawr a roddwn i'r asiantaethau perthnasol yw mynd i'r afael â hyn a gweithio i'w gwneud yn bosibl i holl ddisgyblion ardaloedd y canrannau uwch ddod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ym mhob un o'r awdurdodau hyn, nid yw'r sefyllfa o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ychwaith yn y cyfnod ôl-16 wedi datblygu llawer yn yr ugain mlynedd diwethaf. Yn y cyswllt hwn daw'r ymadrodd "amrywiaeth caleidosgopig" i'r amlwg unwaith yn rhagor. Ledled yr ardal gellir cael ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion cyfrwng Cymraeg ynghyd ag ystod o ddarpariaethau gwahanol o dan y diffiniad ysgol uwchradd

¹⁵ <http://wales.gov.uk/consultations/education/draft-welsh-education-strategic-plans-regulations-2013/?lang=cy>

ddwyieithog.¹⁶ Er y cymhlethdod, sydd yn aml yn deillio o ddelio gyda gwaddol amrywiaeth cyfrwng y cynradd yn ogystal â dosbarthiadau gweddol fach, mae'n glir yn nata'r Llywodraeth fod y sefyllfa'n anfodddhaol yn nhermau dilyniant a pharhad.

Gweithio gyda rhieni

- 3.8 Golyga gweithredu polisi iaith addysg cadarn y bydd angen i awdurdod lleol ystyried sut mae perswadio rhieni o werth addysg cyfrwng Cymraeg ac ehangu'r ddarpariaeth honno mewn rhai sefyllfaoedd. Yn aml, bydd rhieni'n cefnogi neu'n derbyn yr hyn a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen, ond bydd rhai yn llai brwdfrydig am raddau'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfnodau allweddol eraill.

Mae angen ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer newid categori ieithyddol a dilyn y drefn a osodwyd. Bydd newidiadau i hwn yn sgil pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013 gan symud mwy o gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Yn yr achosion lle llwyddwyd i newid categori ieithyddol ysgol, roedd angen gweithio'n galed i esbonio natur y newid i rieni. Mae profiadau yr awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn yn amrywio ond fe glywsom fel Grŵp fod ysgolion ac awdurdodau yn ei chael yn anodd arwain newidiadau cadarnhaol i'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg. Amser a ddengys a fydd arweiniad polisi'r Llywodraeth, darpariaethau a disgwyliadau'r Ddeddf Addysg 2013, a'r grymoedd newydd i awdurdodau lleol yn hwyluso cynnydd.

Dilyniant ieithyddol

- 3.9 Diffinnir dilyniant ieithyddol o ran cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg fel 'parhau i astudio Cymraeg iaith Gyntaf a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth genedlaethol ac yn derbyn sylw priodol felly yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg - AS3.1 *Gwella dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn awdurdodau lleol ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant*. Deilliant 2 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw:

Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Y dangosydd a ddefnyddir yw canran disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Dyma'r sefyllfa genedlaethol.

2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
13.8%	14.2%	14.4%	14.4%	15.7%	15.3%	16.0%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%

Diben y targed hwn yw gwella dilyniant ieithyddol, gan sicrhau bod mwy o'r plant 7 oed a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn CA2 a CA3, yn hytrach na newid i ddilyn rhaglen astudio ail

¹⁶ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy>

iaith. Er i'r data barhau'n eithaf cyson dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2008 a 2010, mae wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r tabl isod yn ystyried y garfan a ddechreuodd ym Mlwyddyn 9 yn 2012 ac yn edrych yn ôl i'r cyfnod pan oeddent yn 11 oed (Blwyddyn 6, 2009) ac yn 7 oed (Blwyddyn 2, 2005), gan ddangos y niferoedd a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar gyfer y blynyddoedd hynny. Caiff yr awdurdodau lleol eu trefnu yn ôl consortia, a dangosir y cyfansymiau a'r newid ar ffurf canran rhwng 7 a 14 oed hefyd.

Consortia	Blwyddyn 2 2005	Blwyddyn 6 2009	Blwyddyn 9 2012	Y newid rhwng Blwyddyn 2 a 9
Ynys Môn	470	511	431	
Gwynedd	1249	1313	1154	
Conwy	280	279	210	
Sir Ddinbych	234	232	243	
Sir y Fflint	89	83	81	
Wrecsam	143	131	136	
Y Gogledd	2465	2549	2255	-8.5%
Powys	208	191	156	
Ceredigion	523	520	462	
Sir Benfro	272	252	185	
Sir Gaerfyrddin	936	966	740	
Abertawe	254	242	245	
Castell-nedd Port Talbot	267	250	173	
Y De-orllewin a'r Canolbarth	2460	2421	1961	-20.3%
Pen-y-bont ar Ogwr	134	123	99	
Bro Morgannwg	141	139	136	
Rhondda Cynon Taf	502	497	534	
Merthyr Tudful	68	66		
Caerdydd	428	406	389	
Canol y De	1273	1231	1158	-9.0%
Caerffili	222	241	236	
Blaenau Gwent	34	30		
Torfaen	94	94	177	
Sir Fynwy	21	21		
Casnewydd	52	46		

Y De-ddwyrain	423	432	413	-2.4%
Cymru	6621	6633	5787	-12.6%

- 3.10 Mae'r dilyniant ieithyddol yn ardderchog trwy'r ystod oedran cynradd, gyda bron i bob disgybl a gafodd ei asesu yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 2 yn parhau i gael ei asesu yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 6. Fodd bynnag, caiff nifer sylweddol o ddisgyblion eu colli wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd daearyddol. Mae'n fwy ystyriol cymharu'r naill gonsortwm â'r llall wrth ystyried y ffigurau hyn sy'n seiliedig ar ysgolion, yn hytrach nag edrych ar awdurdodau unigol, gan fod nifer sylweddol o ddisgyblion yn croesi ffiniau awdurdodau lleol wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae rhanbarth y De-orllewin a'r Canolbarth yn tynnu mwy o sylw na'r rhanbarthau eraill, gydag un o bob pump o ddisgyblion yn methu gwneud cynnydd â'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae hon yn broblem sy'n adleisio ffigurau diweddar y cyfrifiad, ac mae'n fater a ddylai fod ar frig agenda'r consortia newydd. Er mwyn cyrraedd targed 2015, bydd angen i nifer y disgyblion a gollir trwy Gymru gyfan rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9 ostwng i 10%.

Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gofyn i awdurdodau lleol hefyd adrodd ar gyfraddau dilyniant rhwng cyfnodau addysg gwahanol hefyd.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn trefi yr ardaloedd hyn

- 3.11 Un ffactor amlwg wrth weithredu polisi iaith addysg yw dylanwad y trefi mawr, yn enwedig y trefi prifysgol/trefi ysbytai. Gwelwyd datblygiad darpariaethau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg cwbl ar wahân yn y lleoedd hyn ers sawl degawd. Y gyffelybiaeth amlwg yw Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Gellir cymharu cydbwysedd darpariaeth nid yn unig yn y sector cynradd ond yn y sector uwchradd hefyd. Ceir gwahaniaeth syfrdanol rhwng graddau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Tryfan, Penweddig a Bro Myrddin ar y naill law a Friars, Penglais a Queen Elizabeth High ar y llall. Gellir cynnwys ysgolion Llanelli yn yr un rhestr. Cafwyd consensws eisoes rhwng y Llywodraeth a'r awdurdodau lleol perthnasol na fyddai model "y De-ddwyrain" yn addas dan yr amgylchiadau, hynny yw pwysau rhieni / asesu galw. Fodd bynnag, heriwn yr awdurdodau priodol i weithio gyda'i gilydd i geisio ffordd gadarnhaol ymlaen yn y cyswllt hwn yn benodol. Heb wneud cynnydd ar hyn ni fydd modd cyflawni'r nod o gynyddu nifer y Cymunedau Cymraeg.

Defnydd cymdeithasol

- 3.12 Ymddengys fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus wrth gyflwyno'r Gymraeg i ddisgyblion a chreu siaradwyr Cymraeg yn ôl y wybodaeth a gyflwynwyd uchod. Serch hynny, nid yw'r un disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg i'r fath raddau yn gymdeithasol, boed yn yr ysgol neu'r tu allan iddi. Mae hyn yn fater sydd wedi mynnu cryn sylw yn ddiweddar. Gofynna

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i awdurdodau amlinellu sut maent yn cefnogi ysgolion i gynorthwyo disgyblion i wneud defnydd ehangach o'r Gymraeg fel iaith anffurfiol. Caed ymatebion, yn ôl y Llywodraeth, oedd yn amlygu bod diffyg cynllunio bwriadus o ran y mater pwysig hwn gan ddibynnu ar weithgarwch mudiadau allanol ac ambell brosiect. Yr ateb arferol yw bod ystod o weithgareddau ar gael i'r disgyblion hyn:

Yn y sector uwchradd mae mwyafrif o'n hysgolion yn darparu ystod eang a chyfoethog o gyfleoedd anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer o brosiectau gan ysgolion, Mentrau Iaith, Bwrdd yr Iaith, Mudiad Meithrin, Estyn Llaw, Urdd Gobaith Cymru, Pwyllgor Ieuencid, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Chymraeg i Oedolion yn datblygu cyfleoedd dysgu ac addysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n gynhwysfawr a chynaliadwy. Maent yn atgyfnerthu ac yn gwireddu'r nod o sicrhau disgyblion rhugl dwyieithog, yn ogystal â meithrin cydweithrediad rhwng partneriaid allweddol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant mewn cyfleoedd dysgu.

Darperir cyrsiau preswyl yr Urdd a nifer helaeth o glybiau ar-ôl-ysgol yn y Cyfnod Sylfaen/ CA2/ CA3/ CA4.

Er bod y gweithgareddau hyn i gyd yn bwysig, gallant fod yn fodd i ysgolion osgoi'r cyfrifoldeb o ddelio gyda sefyllfa defnydd iaith o fewn yr ysgol.

Hefyd, wrth gwrs, mae'n dibynnu ar faint sy'n manteisio ar weithgarwch mudiadau allanol. A yw'r niferoedd yn fach neu'n sylweddol?

- 3.13 I fynd i'r afael â'r heriau o gynnal y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, sefydlodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg brosiect peilot gyda grŵp o ysgolion uwchradd (8) yn y De-orllewin. Pwrpas y prosiect oedd archwilio defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg o gylch yr ysgol a thu hwnt, ac i ganfod modd o gynyddu'r defnydd hwn. Un nodwedd arloesol ynghylch y prosiect oedd y cyfrifoldeb a roddwyd i'r disgyblion eu hunain i arwain a threfnu'r gweithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu hysgolion. Mae'r prosiectau yn y gorffennol wedi cynnwys sefydlu gorsaf radio; clybiau drama, celf a chwaraeon wythnosol; cynnal teithiau tu allan i'r ysgol; trefnu gwyliau a chynnal digwyddiadau ysgol gyfan tymhorol. Trefnir y gweithgareddau gan ddisgyblion y chweched dosbarth ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn bennaf, ond hefyd i ddisgyblion blwyddyn 8 a 9.

Lluniwyd adroddiad y *Prosiect Cefnogi Arferion Iaith* (PCAI) yn 2010 i gofnodi datblygiad ac esblygiad y prosiect ar ôl 3 mlynedd o weithredu. Amlygwyd sawl arfer dda gan gynnwys y manteision amlwg o gydweithio â phartneriaid allanol tebyg i'r Mentrau Iaith a'r Urdd; yr angen i ddisgyblion gyfarfod yn gyson i gynllunio gweithgareddau yn ogystal â threfnu gweithgareddau sy'n sicrhau cyswllt cyson â'r disgyblion iau; a'r angen i werthuso'n barhaol. Yn sgil yr adroddiad hynny ac yn dilyn ymgynghori helaeth gyda'r ysgolion, pobl ifanc a sefydliadau cymunedol, tyfodd y prosiect i gynnwys 35 o ysgolion ar draws Cymru yn 2011-12. Mae dwy brif elfen wedi bod i'r prosiect; a) gweithgareddau yn cael eu datblygu a'u harwain gan ddisgyblion hyn yr ysgol

er mwyn ceisio newid arferion iaith gymdeithasol oedrannau iau a b) gwaith dwysach mewn rhai o'r ysgolion i ddylanwadu ar ddefnydd iaith. Yn ystod 2011 cyflwynwyd elfen arall i'r gwaith, sef sesiynau seicoleg iaith. Pwrpas y sesiynau hyn oedd cynnig hyfforddiant ac arweiniad i gynrychiolwyr o'r ysgolion allu cynnal sesiynau seicoleg iaith fel rhan o'r rhaglen ABCh.

Mae'r prosiect bellach yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac, yn 2013, comisiynwyd Cwmni Trywydd Cyf i arwain ar y gwaith o gynnal PCAI mewn 30 o ysgolion ar draws Cymru gan ddatblygu law yn llaw â'r gwaith hynny, gyfres o brosiectau cymunedol mewn 6 ardal (ardaloedd i'w pennu) a llawlyfr o arferion da. Bydd yr ysgolion a fydd yn rhan o hyn yn ystod 2013/14 yn cynnwys croestoriad o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ardaloedd ieithyddol difreintiedig trefol a gwledig. Nodwedd gyffredin ers dechrau'r prosiect PCAI yw'r pwysigrwydd a roddir ar ennyn ymwybyddiaeth o berchnogaeth ymhlith aelodau tîm rheoli'r ysgol yn ogystal ag ymhlith y disgyblion eu hunain.

Yn 2009-10, ar y cyd ag athrawon y prosiect, lluniwyd y *Camau Defnydd Iaith*, sef graddfa iaith 10 cam i fesur cynnydd yn nefnydd ac agweddau'r disgyblion hyn ac iau o'r Gymraeg yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect. Mae'n ddull sydd wedi cael ei ddefnyddio i fesur llwyddiant y prosiect oddi ar hynny. Gofynnir i'r disgyblion ddewis pa gam sy'n disgrifio eu hagwedd a'u defnydd iaith yn yr ysgol orau, unwaith ar ddechrau'r prosiect ac eto ar ddiwedd y prosiect. Dangosodd y canlyniadau, yn dilyn PCAI 2012, bod cymryd rhan mewn prosiect o'r fath wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd iaith 90% o'r disgyblion hyn ar gyfartaledd ac 100% o'r disgyblion iau.

- 3.14 Tra bod Prosiect Cefnogi Arferion Iaith yn targedu'r sector uwchradd, gwelwyd awdurdod lleol Cyngor Gwynedd yn llunio a defnyddio Siarter Iaith ar gyfer ysgolion cynradd.¹⁷

Sefydlwyd gweithgor 'Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd' dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Addysg yn dilyn canfyddiadau am effaith iaith yn rhai o ysgolion cynradd Gwynedd.

Cynhaliwyd cynhadledd Ffactor C ym Mehefin 2011 ac fe lanswyd Siarter Iaith ar gyfer ysgolion yn y gynhadledd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, canolbwyntiwyd ar dair ysgol yn y gwahanol ranbarthau. Erbyn hyn, mae'r gwaith ar droed ymhob ysgol.

Cynhelir cyrsiau hyfforddi'r gweithlu i'r holl athrawon a'r cymorthyddion ac arferir effaith yr hyfforddiant a'r gweithredu yn dilyn hynny gan Adran Addysg Prifysgol Bangor.

- 3.15 Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi canllaw fydd yn cynnig awgrymiadau ar yr hyn y gall ysgolion ei fabwysiadu o ran cynllunio mwy systemataidd i

¹⁷ <http://moodle.cynnal.co.uk/course/view.php?id=397>

hybu defnydd iaith anffurfiol ymhlith disgyblion. Canolbwyntia hyn ar arfogi athrawon, gan gynnwys y timau rheoli, i gymryd y mater hwn o ddifrif. Ar lefel disgyblion, ariennir prosiect Cefnogi Arferion Iaith mewn ysgolion dros Gymru yn y gobaith y bydd yn annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned mewn ffordd fwy amlwg.

Canolfan Iaith Hwyrddyfodiaid Uwchradd Gwynedd

- 3.16 Sefydlwyd y Ganolfan Hwyrddyfodiaid ym Mhorthmadog yn 2004 gan awdurdod Gwynedd fel ymateb i'r her o gymathu hwyrddyfodiaid di-Gymraeg i ysgolion uwchradd y sir. Mae 13 o ysgolion uwchradd Gwynedd yn bwydo'r ganolfan, ac mae penaethiaid yr ysgolion yn annog rhieni plant sy'n cyrraedd yn ystod Cyfnod Allweddol 3 (yn bennaf) i fynychu'r Ganolfan.

Yn arferol, lle i 16 disgybl sydd ar gael bob tymor ac mae'r cyrsiau yn parhau am 8 wythnos. Darperir cludiant am ddim i'r disgyblion i fynychu'r canolfannau ac mae ymrwymiad y rhieni a'r disgyblion yn allweddol yn enwedig pan fo angen teithio o bell i gyrraedd y Ganolfan.

Darperir cwrs trawsgwricwlaidd gan ddau aelod o staff am gyfnod o wyth wythnos. Mae gwaith tracio cyson yn digwydd ac mae strategaeth ôl-ofal wedi'i phennu. Ar ddiwedd pob cwrs cynhelir seremoni wobrwyo. Yn ôl yn yr ysgolion wedi'r cyfnod yn y Ganolfan, bydd mentoriaid yn rhoi cefnogaeth i'r disgyblion wrth ymsefydlu. Strategaeth arall ar waith yw'r system bydis sy'n rhoi cefnogaeth ac anogaeth i'r newydd-ddyfodiaid.

Mae'r model yma o weithredu yn cael ei gydnabod gan Benaethiaid ac athrawon, yn ogystal â rhieni a disgyblion fel cynllun effeithiol wrth gynorthwyo a chefnogi disgyblion i integreiddio yn llawn i ddiwylliant Cymraeg a Chymreig ysgolion uwchradd Gwynedd. Gwelir bod arweiniad a gweledigaeth Cyngor Gwynedd wrth sefydlu a datblygu'r model yma wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Ganolfan.

Casgliadau

- 3.17 Rhaid symud o'r "amrywiaeth caleidosgopig" presennol i sefyllfa sy'n galluogi pob plentyn i ddod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn oedran gadael ysgol.
- 3.18 Caiff nifer sylweddol o ddisgyblion eu colli wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd daearyddol. Credwn fod yn rhaid gwella cyfraddau dilyniant ieithyddol yn y cyfnod addysg statudol drwy weithredu polisiau clir mewn modd cyson.
- 3.19 Mae dadl amlwg dros ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin.

- 3.20 O ran dull trochi effeithiol, mae model Hwyrddyfodiaid Gwynedd yn ddarpariaeth lwyddiannus ac mae angen archwilio ymarferoldeb ehangu'r model yn y sector cynradd a'r uwchradd ledled ardaloedd y canrannau uwch.
- 3.21 Mae angen i ysgolion gynllunio'n fwriadus ar gyfer cefnogi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion, a gwelir cyfle i ehangu ar brosiectau Siarter iaith Gwynedd ar gyfer ysgolion cynradd Gwynedd, yn ogystal â Phrosiect Cefnogi Arferion Iaith a weithredir mewn ysgolion uwchradd.

4. Statws, economi a seilwaith

Cefndir

- 4.1 Bydd y bennod hon yn ymdrin â meysydd go eang a chymhleth o safbwynt effaith a dylanwad datblygiadau yn statws y Gymraeg ynghyd â datblygiad economaidd yn ardaloedd y canrannau uchel presennol a'r seilwaith cymdeithasol yn nhermau tai a chynllunio. Oherwydd hynny ceir trefn a strwythur ychydig yn wahanol i'r bennod hon.

Afraid dweud o'r cychwyn fod tystiolaeth yn helaethach ar gyfer datblygiadau yn statws y Gymraeg, ac i raddau hefyd y datblygiad mewn gwasanaethau dwyieithog, a gweddol dameidiog yw'r dystiolaeth sy'n cyplysu sefyllfa'r Gymraeg gyda'r economi ac agweddau perthnasol eraill o ddatblygu rhanbarthol. "It's the economy, stupid!" oedd arwyddair cofiadwy un blaid yn ymgyrch arlywyddiaeth yr Unol Daleithiau yn reit ddiweddar ac erys hynny'n neges gwbl ganolog i orchwyl y Grŵp. Oni enillir *economi* y Fro Gymraeg ...

Cyd-destun hanesyddol

- 4.2 Gwerthfawrogir bod patrymau sawl cenhedlaeth wedi peri i'r sefyllfa sydd ohoni ddatblygu fel hyn. Mae'r Chwyldro Diwydiannol yn drobwynt hanesyddol amlwg ac mae'r hanes hwnnw wedi ei adrodd lawer gwaith ac yn yr un modd ystyrir dylanwad eang y "Llyfrau Gleision".¹⁸ Mae natur a dylanwad ieithyddol y diwydiannau a dyfodd yn seiliedig ar lechi yn y Gogledd-orllewin a glo yn y De-orllewin yn cynnig cymhariaeth a chyferbyniad mewn sawl ffordd.

Yn y ddwy ardal ddiwydiannol bu'n sbardun anhygoel i dwf poblogaeth, helaethu pentrefi a threfi, ac ysgogi datblygiad busnesau a gwasanaethau ynghyd â gweithgareddau crefyddol, hamdden a diwylliannol. Daw'r cyfalaf ariannol i sefydlu'r gweithfeydd mawr o'r tu allan i Gymru yn aml iawn ac o'r enghreifftiau hynny o berchnogion neu uwch-reolwyr oedd yn Gymry, gwelwyd tuedd ganddynt i gefnu ar y Gymraeg a mawrygu 'moderniaeth' y Saesneg fel cyfrwng busnes, gwareiddiad a chynnydd. Oherwydd graddfa'r twf yn y meysydd glo caled ni fu'r cyflenwad gweithwyr o Gymru'n ddigonol ac fe ddenwyd miloedd o bobl i'r ardal o ardaloedd amrywiol o Ynysoedd Prydain a'r tu hwnt. Cymathu, neu gymdeithasoli, i'r Gymraeg fu hanes nifer sylweddol yn y broydd hynny â'r canrannau uchaf – Cwm Gwendraeth a rhannau uchaf Dyffryn Aman yn y degawdau cynnar. Nid felly y bu yng nghymoedd y De wrth gwrs yn wyneb y twf aruthrol hwnnw. Twf poblogaeth amlwg fu hanes ardaloedd y chwareli llechi yn ogystal ond ar raddfa a olygai y cymathwyd trwch y gweithwyr di-Gymraeg neu fe gynhaliwyd peth pellter rhwng y gweithwyr Cymraeg cyffredin a'r pendefigion anghyfiaith. Yn y chwareli, y Gymraeg, yn anorfod, oedd cyfrwng sawl agwedd o'r

¹⁸ Jenkins, Geraint H. gol. (1998-2001) **Cyfres Hanes Cymdeithasol Yr Iaith Gymraeg**, yn cynnwys "Gwnewch Bopeth yn Gymraeg – Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911" ac "Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif".

gweithrediadau busnes, arwyddion mewnol heb sôn am gyfrwng llafar arferol trwch y gweithwyr. Statws is fu i'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth a gweithrediadau busnes ardal ddiwydiannol y De-orllewin, a hynny'n deillio o ffactorau amrywiol.

Effaith arall amlwg y Chwyldro Diwydiannol fu denu llawer iawn o bobl o oedran gweithio o gymunedau amaethu a physgota y Gorllewin i'r cyfleoedd newydd hyn am gyflogaeth yn yr ardaloedd diwydiannol yng Nghymru a'r tu hwnt. Cychwyn fu hyn i duedd ddemograffeg fwyaf arwyddocaol y ganrif ddiwethaf yng nghyswllt y rhelyw o ardaloedd y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Cafodd y ddau Ryfel Byd effaith ysgytwol ar boblogaeth yr ardaloedd hyn yn ogystal ac mae newidiadau cymdeithasol a symudoledd uwch i bob cyfeiriad yn sgil hynny ynghyd â phatrwm gwrth-drefoli ledled y byd "Gorllewinol" datblygedig wedi dylanwadu'n fawr iawn ar hynt llawer o gymunedau ieithoedd llai Ewrop a'r ieithoedd Celtaidd yn enwedig ar y cyrion gorllewinol.¹⁹

Gwelwyd hefyd adwaith cadarnhaol yn ardaloedd gorllewin Cymru, yn fwriadol neu beidio, a ddatblygodd yn fodd o liniaru rhai o effeithiau negyddol y Chwyldro Diwydiannol. Amlygir hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr ymdrechion i greu sefydliadau, sefydliadau a fyddai'n dilysu'r genedl ac yn rhoi ychydig o statws i'r iaith genedlaethol. Crewyd sefydliadau addysg uwch – Llanbedr-pont-steffan ar gyfer offeiriaid yn wreiddiol (1822), Caerfyrddin fel coleg hyfforddi athrawon (1848), Prifysgol Cymru a'i cholegau cynnar yn Aberystwyth (1872) a Bangor (1884). Yn sgil sefydlu casgliad o lyfrau a deunyddiau eraill ym Mhrifysgol Aberystwyth ac o ganlyniad i gystadleuaeth ffyrnig gyda Chaerdydd (a enillodd yr Amgueddfa Genedlaethol), sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth gan dderbyn Siarter Brenhinol yn 1907.

Bu twf gwasanaethau cyhoeddus wedi'r Ail Ryfel Byd yn enwedig – ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysbytai er enghraifft – yn fodd o gynnig cyflogaeth a throedle yn y meysydd addysg yn bennaf i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng gweithredu ffurfiol yn ogystal ag anffurfiol mewn sawl rhan o'r ardaloedd canrannau uchel. Arweiniodd ymrwymadau Polisi Ynni Llywodraeth San Steffan yn sgil yr Ail Ryfel Byd at sefydlu Atomfa Trawsfynydd a Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa. Dechreuwyd adeiladu Trawsfynydd yn 1959 a Wylfa yn 1963. Er yn ddadleuol iawn hyd heddiw, gwelwyd sefydlu'r gorsafoedd pŵer gan eu cefnogwyr fel hwb i ddatblygiad economaidd yr ardaloedd hyn ac yn ymdrech i gyflwyno diwydiannau cyfoes technolegol i ardaloedd a ddioddefodd yn sgil gweld crebachu ar y diwydiannau amlwg megis amaeth a'r chwareli llechi. Datblygodd diwydiannau cemegau ac olew mewn rhannau eraill o Gymru ond heb iddynt chwarae rhan mor berthnasol i gyflogaeth yr ardaloedd canrannau uchel ag a chwaraeodd y diwydiannau trwm yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

Beth am waddol y cyfnod mwy diweddar? Teimlwyd effeithiau ail-strwythuro economaidd y 1980au yn yr ardaloedd canrannau uchel wrth gau y pyllau glo

¹⁹ Gweler Jenkins uchod am drosolwg o sefyllfa Cymru a chymunedau iaith lleiafrifol eraill.

yng nghymoedd y gorllewin gan gael effaith fawr ar Gwm Gwendraeth a Dyffryn Aman. Crebachu'n ddirfawr fu hanes diwydiant y chwareli llechi yn ogystal. Tuedd ddylanwadol arall yw'r newidiadau pellgyrhaeddol ym myd amaeth sy'n golygu mai gostwng yw patrwm lefelau cyflogaeth (a chyflogau) yn y sector pwysig hwn yng nghyswllt y Gymraeg a'r ardaloedd canrannau uchel.

O safbwynt cynnydd, gwelwyd twf y diwydiant croeso yn chwarae rhan fwyfwy amlwg a deublyg. Cynigiodd twristiaeth gyfleoedd busnes newydd i bobl leol, a chyfleoedd arallgyfeirio i rai, ond hefyd fe brofodd yn atynfa i lawer o fentergarwyr o'r tu allan i'r ardal, diolch i'w cyfalaf a'u profiadau eu hunain fel ymwelwyr. Dengys y rhelyw o astudiaethau fod profiadau fel twristiaid wedi bod yn gymhelliant canolog i benderfyniadau pobl i fudo i'r ardaloedd canrannau uchel. Yn achos defnydd y Gymraeg, parhad go gyson a welwyd yng ngostyngiad nifer a chanran y siaradwyr yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn enwedig yn ardaloedd y canrannau uchel.²⁰

Statws y Gymraeg

- 4.3 Bu'n naturiol i'r consyrn pennaf a'r ymgyrchu bwriadus am wella statws cyhoeddus gychwyn yn y Gorllewin: Eileen a Trefor Beasley yn y 50au, sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ym Mhontarddulais a chynnal y brotest gyntaf ar Bont Trefechan, Aberystwyth, protestiadau arwyddion brwd y 1960au, ac ymgyrchu yn erbyn boddi Capel Celyn (a bygythiadau cronfeydd dŵr eraill). Arweiniodd hefyd at sefydlu mudiadau a darpariaethau cymunedol newydd eraill – Merched y Wawr, y Mudiad Ysgolion Meithrin, Papurau Bro. Gwelwyd cynnydd hefyd ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor yn sgil ymgyrchu helaeth gan arwain at sefydlu Neuaddau Preswyl Cymraeg Pantycelyn a John Morris-Jones, Undebau Myfyrwyr Cymraeg ynghyd â datblygiad mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai pynciau.

Yn sgil y gwrthdystiadau eang hyn pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 gan roi mesur cyfyng o statws cyhoeddus, yn bennaf y gallu i ddiffynyddion ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys. Bu Deddf Llywodraeth Leol 1972, a arweiniodd at ad-drefnu 1974, yn arwyddocaol dros ben drwy greu Gwynedd a Dyfed. Arweiniodd hyn, yn sgil ystyriaeth fanwl ymlaen llaw, at roi Polisi Iaith Gwynedd ar waith – cam y mae'n anodd iawn pwysleisio'n ormodol ei arwyddocâd.²¹ Cyplyswyd y Polisi Iaith cyffredinol gyda diffinio Polisi Iaith ar gyfer ysgolion Gwynedd ac roedd gweithredu'r Polisi hwn mewn modd yr un mor gadarnhaol â'r Polisi Iaith cyffredinol yn un arall o ddatblygiadau mawr yn sefyllfa'r Gymraeg.²² Llai blaengar a chadarnhaol fu ymrwymïadau Dyfed

²⁰ Aitchison, J. a Carter, H. (2000) **Language, economy and society: The changing fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century**. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

²¹ Am dipyn o'r hanes mewn cyd-destun cymharol, gweler Carlin, P. (2013) 'Doing as they are told? Subregional Language Policies in the Basque Country, Catalonia and Wales', *Regional and Federal Studies* 23, 67-85.

²² Ceir pennod dda yn olrhain yr hanes yn Williams, Iolo W. (2002) **Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000**. Tal-y-bont: Y Lolfa.

yn yr un cyfnod – rhai agweddau cyfyngedig ar statws cyfartal, y Gymraeg uwchben y Saesneg ar arwyddion ffyrdd a swyddogol a pholisi iaith ysgolion a adlewyrchwyd yn y trefniadau categoreiddio a ffrydio go gymhleth.²³ Gyda llawer iawn o drafod ad-drefnu llywodraeth leol ar hyn o bryd, ac ymgynghoriad eang ar waith nawr ar wasanaethau cyhoeddus a'u strwythur, credwn fod yn rhaid i'r canlyniad gryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel cyfrwng gwasanaethau ynghyd â gweithredu mewnol. Ceir risg real iawn o lastwreiddio'r cynnydd, yr arweiniad a'r normaleiddio clodwiw a gafwyd gan Gyngor Gwynedd ers 1974. Lle ceir risg negyddol, ceir risg o beidio â manteisio ar gyfle amhrisiadwy, wrth gwrs. Hwn yw y cyfle unwaith mewn dwy neu dair cenhedlaeth i ymestyn dylanwad gwerthfawr y patrwm a osodwyd gan Gyngor Gwynedd i goleddu defnyddio'r Gymraeg fel yr iaith weinyddu fewnol arferol.

Daeth y ddeddfwriaeth berthnasol yn y degawdau dilynol yn sgil llawer o bwysu a'r rhelyw ohoni o gyfeiriad ardaloedd y canrannau uchel. Eironi'r sefyllfa i ryw raddau yw bod natur genedlaethol (a chyfaddawdol yn anochel) y mesurau hyn wedi golygu fod eu heffaith gyhoeddus yn amlycach yn y Dwyrain na'r Gorllewin. Ystyrier hyn yng nghyswllt:

- Deddf Darlledu 1980 a sefydlu S4C yn 1982 – y pencadlys (ar hyn o bryd) a'r cwmnïau cynhyrchu yng Nghaerdydd (atynfa) a rhai cwmnïau cynhyrchu yn y Gorllewin a'r Gogledd-orllewin;²⁴
- Deddf Addysg 1988 (cyflwyno Cymraeg fel Ail Iaith yn bennaf yn yr ysgolion lle na addysgwyd y Gymraeg o gwbl, a'r rheini'n aml yn agos at y ffin gyda Lloegr);
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 – cyflwyno cynnydd amlwg yn statws cyhoeddus y Gymraeg yn y Deddwyrain a'r Gogledd-ddwyrain;
- Refferendwm ac Etholiad 1997-99 – sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ac ehangu maint y Gwasanaeth Sifil yng Nghaerdydd yn bennaf (gan dderbyn hefyd fod swyddfeydd Cyffordd Llandudno, Merthyr Tudful ac Aberystwyth yn rhan o bolisi bwriadus o adleoli swyddi o Gaerdydd)
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 – a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a fydd, yn fwy na dim, yn cysoni'r modd y bydd awdurdodau'r De-ddwyrain a'r Gogledd-ddwyrain yn mesur y galw am addysg Gymraeg yn eu hardaloedd,

²³ Ibid.

²⁴ Croesewir yr astudiaeth dichonolrwydd sydd, yn ôl penderfyniad yr Awdurdod fis Medi 2013, am weld adleoli'r Pencadlys S4C o Gaerdydd un ai i Gaerfyrddin neu i Wynedd. Gwerthfawrogwn hefyd gyfraniad tystiolaeth S4C sy'n pwysleisio nid yn unig werth y cynnwys darlledu ond effaith economaidd y sianel.

- Mesur y Gymraeg a chreu swydd Comisiynydd y Gymraeg yn 2011 – gyda phwyslais ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol a system newydd i'w chyflwyno o ran Safonau'r Gymraeg. Arhoswn i weld beth fydd effaith a dylanwad hyn yn yr ardaloedd canrannau uwch.

Cafwyd datblygiadau go reolaidd ar un olwg yn ystod y degawdau diwethaf yn statws y Gymraeg a dwyieithrwydd swyddogol mewn perthynas â bywyd cyhoeddus. Cynnydd cyfyngedig, serch hynny, a welwyd o safbwynt effaith uniongyrchol ac arwyddocaol y datblygiadau hyn yn ardaloedd y canrannau uchel ac afraid dweud mai mabwysiadu a gweithredu polisi iaith Cyngor Gwynedd yw'r datblygiad mwyaf effeithiol ac arwyddocaol o bell ffordd.

A yw cynnydd yn yr ardaloedd canrannau uchel yn bosib trwy ddeddfu?

- 4.4 Nodwn y pwyslais yn y cwestiwn ar “gynnydd” ac nid “gwarchod” neu “amddiffyn”. Yn nhyb y Grŵp rhaid arfer geirfa gadarnhaol. Ystyriwn isod dystiolaeth trefniadau deddfwriaethol gwahanol yng nghyswllt statws a chynnydd ieithyddol.

Ffactor arwyddocaol dros ben fel y dangoswyd yn y data eisoes yw mudo – allfudiad siaradwyr Cymraeg o'r ardaloedd canrannau uchel a mewnfudiad pobl ddi-Gymraeg i'r ardaloedd hynny. Byddai'n anfoesol ac yn anghyfreithlon yn ôl Cyfraith Loegr a chyfraith ryngwladol i geisio rhwystro symudiad pobl i mewn ac allan o'r ardaloedd canrannau uchel – boed atal siaradwyr Cymraeg rhag ymadael â'r ardaloedd perthnasol neu atal mudo pobl i'r ardaloedd hyn ar sail ieithyddol ac unrhyw sail arall. Anaddas hefyd fyddai delwedd a dylanwad trefniant megis tiriogaethau pobloedd brodorol yr Unol Daleithiau. Er hynny, dan orchwyl y Grŵp hwn rhaid ymholi pa rôl y gallai deddfwriaeth ei chwarae mewn perthynas â'r ardaloedd canrannau uwch a chynnig i'r Llywodraeth y meysydd lle byddai hyn yn berthnasol ac yn briodol. Yn ymarferol derbynnir bod Mesur y Gymraeg a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg yn ddatblygiadau newydd o hyd. Fodd bynnag, ystyrir yn benodol a ddylid pennu statws neu ddeddfwriaeth benodol i ddiffinio ac i effeithio ar ardaloedd y canrannau uchel.

Yn rhyngwladol, tuedda'r llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol i ddeddfu ar gyfer y diriogaeth a'r boblogaeth gyfan.²⁵ Gwelir hyn yn achos mesurau a pholisïau ieithyddol llywodraethau rhanbarthol Sbaen a Chanada (Quebec yn arbennig, ond mae New Brunswick ac Ontario hefyd yn berthnasol). Yn achos Ffriseg yn yr Iseldiroedd rhoddwyd statws iddi yn y 1950au wedi ei gyfyngu i bob pwrpas i dalaith Fryslân, sef y dalaith lle parheid i siarad Ffriseg yn reit gyffredin er gwaethaf mabwysiadu Iseldireg fel prif iaith statud, cyfraith a gweinyddiaeth gyhoeddus tua diwedd yr 16eg ganrif. Ni cheir unrhyw wahaniaethu statws cyfreithiol oddi fewn i dalaith Fryslân er y ceir amrywiaeth gweithredol lawr gwlad mewn sawl ffordd, er enghraifft patrymau cyfrwng addysg ysgolion cynradd ac uwchradd fel yng Nghymru.

²⁵ Gweler Jenkins eto am fan cychwyn cyffredinol ynghyd â chyhoeddiadau yr Athro Colin H. Williams, er enghraifft Williams, C. 2013. [Perfidious hope: the legislative turn in official minority language regimes](#). *Regional and Federal Studies* 23(1), pp. 101-122.

Gwladwriaeth arall lle rhoddir statws arbennig i iaith leiafrifol yw y Ffindir lle ceir deddfwriaeth i gefnogi'r gymuned sy'n siarad Swedeg. Fel yn achos y Ffriseg, cyfyngir statws swyddogol y Swedeg i ardaloedd penodol. Y tro hwn ceir elfen amrywiol wrth ddynodi'r ardaloedd hyn: dynodir ardal yn un ddwyieithog pan fo'r boblogaeth ddwyieithog yn 8% (neu'n 3,000) ond dynodir ardaloedd o dan 6% fel rhai unieithog. Yn yr ardaloedd / bwrdeistrefi ddwyieithog disgwylir y bydd pob gwas sifil yn ddwyieithog er mwyn gallu delio â'r cyhoedd yn eu dewis iaith. Ers y 1970au mae'r gyfundrefn addysg yn ceisio gweithredu'r nod o sicrhau y bydd pob disgybl yn ddigon medrus yn y ddwy iaith i allu ennill swydd mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ond cydnabyddir bod llwyddiant yn amrywiol iawn. Cred rhai mai'r diffiniad deinamig hwn yw un o'r rhesymau am leihad parhaus yn nifer y siaradwyr Swedeg yn y Ffindir a'i fod yn cyfrannu at ansefydlogrwydd y sefyllfa. Mae eraill hefyd yn feirniadol o effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol yn nhermau lefel a chysondeb gweithredu'r egwyddorion a geir ynddi.

Amlygir peth cyndynrwydd i ddynodi statws ieithyddol gwahanol i ardaloedd penodol oddi fewn i diriogaeth ehangach y gymuned ieithyddol ar sail mas critigol uwch. Derbynnir y ceir amrywiaeth ieithyddol helaeth ond ni welir unrhyw bolisiau penodedig neu statws diffiniedig oddi fewn i lywodraethau ymreolus Sbaen neu o fewn i Quebec, er enghraifft.

Fodd bynnag, ceir gwahaniaethu daearyddol mewn rhai achosion eraill. Un amlwg ac agos i Gymru yw'r Gaeltacht yng Ngweriniaeth Iwerddon – gwladwriaeth annibynnol a'i hiaith genedlaethol ei hun yn un lleiafrifol ac o dan fygythiad mawr. Sefydlwyd cysyniad y Gaeltacht yn gynnar yn hanes y Weriniaeth a hynny cyn diwedd y 1920au. Mireiniwyd y diffiniadau yn y 1950au. Mewn ymateb i ddirywiad yn sefyllfa'r Wyddeleg yn y Gaeltacht sefydlwyd *Údarás na Gaeltachta* yn 1980 yn sgil deddfwriaeth a basiwyd yn 1979. Cynhaliwyd adolygiad pellach yn sgil adroddiad ymchwil manwl yn 2007 a arweiniodd maes o law at gymalau pwysig yn y *Strategaeth 20 Mlynedd ar gyfer y Wyddeleg 2010-30* ynghyd â phasio *Deddf y Gaeltacht* ym mis Gorffennaf 2012 (dan amgylchiadau go ddadleuol).

Un rheswm amlwg iawn pam y bu gwrthwynebiad llafar ac amlwg i'r Ddeddf hon oedd y cymalau a fyddai'n arwain at ail ddiffinio statws ardaloedd a chymdogaethau'r Gaeltacht. Y perygl amlwg, o gydnabod realaeth y sifft ieithyddol sylweddol yn ystod yr hanner canrif aeth rhagddo, oedd y byddai'n anochel gweld llawer o'r cymunedau yn colli eu statws fel "aelodau" o'r Gaeltacht. Cythruddwyd llawer gan yr awgrym yn y Strategaeth a'r Ddeddf y byddai disgwyl i'r cymunedau hynny "berfformio" er mwyn cadw'u statws Gaeltacht a hynny heb unrhyw gynnydd mewn adnoddau na chefnogaeth i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol am ddirywiad ieithyddol. Gyda phersbectif hanesyddol 90 mlynedd o gydnabyddiaeth i'r Gaeltacht, hanner can mlynedd o ddynodi statws penodol, a thros 30 mlynedd o gynllunio dan awdurdod pwrpasol, rhaid cydnabod mai ychydig iawn a fyddai'n mynnu fod y strwythur a'r sylw yn darparu model llwyddiannus. Wrth gwrs, byddai hefyd yn rhesymol iawn dadlau mai graddfa ac effeithiolrwydd y gweithredu cynhaliol sydd wedi bod yn annigonol yn achos y Gaeltacht ac nid y cysyniad sylfaenol.

Yn fwy sylfaenol, fodd bynnag, mae'r angen i gydnabod y gwir resymau am fethiannau y dulliau o hybu'r Wyddeleg yn y Gaeltacht. Saif y newidiadau demograffig a'r dylanwadau economaidd yn glir iawn fel rhesymau am ddirywiad parhaus y Wyddeleg yn y Gaeltacht, ac mae'n glir iawn hefyd bod y colledion yn seiliedig ar effeithiolrwydd – neu ddiffyg pendantrwydd, cysondeb ac effeithiolrwydd – y gweithredu y tu ôl i'r deddfu a'r strategaethau.

Gellir ymhelaethu ar fodelau rhyngwladol ond mae'r dystiolaeth gwyno uchod yn awgrymu'n ddigon clir nad yw dynodi statws ieithyddol gwahanol i ardaloedd y canrannau uwch oddi fewn i diriogaeth ieithyddol ehangach yn ddull gweithredu a ffefrir. Ffefrir yn hytrach ddeddfwriaeth sy'n perthyn i'r diriogaeth gyfan. Lle gwelir dynodi statws gwahaniaethol, mae'n hawdd cydnabod fod y nod yn un digon clodwiw. Yn y gwledydd hynny lle ceir statws gwahaniaethol cawn gyfle i werthuso llwyddiant ar sail effeithiolrwydd y gweithredu. Ni welwyd gennym dystiolaeth gadarn lle ceid cyplysu statws gwahaniaethol gyda gweithredu digonol a wnaeth arwain, o ganlyniad, at gynnydd ieithyddol. Er hynny, ceir tystiolaeth ddigonol dan law rhai llywodraethau o weithredu polisïau iaith gwlad-gyfan sydd wedi arwain at gynnydd ieithyddol yn ardaloedd canrannau uwch y cymunedau iaith hynny. Yn ein barn ni mae'n amheus a fyddai deddfu fel yn lwerddon trwy ddynodi statws cyfreithiol gwahanol i'r ardaloedd canrannau uwch **ynddo'i hun** yn weithred gymeradwy. Er hynny, cred y Grŵp fod rhagor o fesurau a gweithredu mwy penodol a phwrpasol yn ardaloedd y canrannau uwch yn anhepgor os am gynyddu nifer y cymunedau hynny.

Economi: cyfoeth a chyflogaeth

- 4.5 Mae datblygiad economaidd a thynged y Gymraeg yn gyd-berthynas gwbl hanfodol. Gellir dadlau fod newidiadau economaidd lawn mor ddylanwadol yn y tymor hir ag unrhyw ymdrechion gan lywodraethau'r dydd i atal neu i hybu ieithoedd llai eu defnydd. Anodd yw deall, felly, ar un wedd pam mae'r ymchwil a'r dystiolaeth am y cyswllt rhwng iaith ac economi yn dal yn fylchog. Maes cymharol dlawd yn ei grynswth yw ymchwil mewn perthynas â'r Gymraeg am sawl rheswm. Mae Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso newydd y Llywodraeth i'w groesawu, wrth gwrs, yn yr un modd â sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr iaith Gymraeg a Datblygiad Economaidd. Cydnabyddiaeth yw'r datblygiadau hyn o'r angen am wella'n dealltwriaeth. Wedi'r cyfan mae'n naturiol i lywodraeth lunio strategaethau a chreu strwythurau yn y meysydd hynny sy'n flaenoriaeth. Bellach fe geir Grŵp sy'n cynghori'r Gweinidog Addysg a'i gynorthwyo i fonitro gweithredu'r Strategaeth Addysg Gymraeg. Tybed a oes achos cyffelyb i Weinidog yr Economi sefydlu grŵp cyffelyb i oruchwylio Strategaeth Datblygiad Economaidd a'r Gymraeg?

Ceir llawer o wybodaeth am ddatblygiad economaidd ac fe geir strategaethau cenedlaethol a nifer dda o gynlluniau ar gyfer sectorau penodol. Cefnogir y strategaethau gan adran o swyddogion a darpariaeth bwrpasol i gynghori busnesau ac ariannu mentrau refeniw a chyfalaf. Ni cheir, fodd bynnag, un lleoliad cyfleus neu deithlyfr hwylus ar gyfer dadansoddi anghenion ardaloedd

y canrannau uwch yng nghyswllt datblygiad economaidd. Nod yr is-adran hon yw bwrw golwg weddol gynnil ar y tueddiadau a'r anghenion.

Nid yw diweithdra yn arbennig o uchel yn ardaloedd y canrannau uchel ond ceir cyflogau isel mewn sectorau amlwg, a gor-ddibyniaeth ar rai sectorau a'r rheini'n medru bod yn gatalydd i fewnfudo – twristiaeth, iechyd ac addysg uwch yn eu plith. Amlygir y tyndra sydd ynghlwm â thwristiaeth mewn sawl achos adnabyddus megis yr ymgyrch llosgi tai haf, dadleuon Morfa Bychan, a nerfusrwydd ynghylch ehangu Hafan Pwllheli. Yn gyffredinol yn ardaloedd y canrannau uwch mae cyflogwyr mawr y tu allan i'r sector cyhoeddus yn reit brin, a busnesau bach yn tueddu i aros yn fach. Pan gollir cyflogwyr mawr o'r ardal – fel yn achos Alwminiwm Môn (400 o swyddi) yn 2010 a Welsh Country Foods (310 o swyddi) yn ddiweddar iawn – maent yn ergydion trwm a dweud y lleiaf.

Dadleuir bod cymhlethdodau'r trefniant datganoli cyfrifoldebau o San Steffan hefyd yn rhwystr – mae'r sector ynni (cynhyrchwr) a chyfrifoldeb trethi ymhlith rhai o'r materion tyngedfennol a gadwyd yn ôl. Mae'r prif fesuryddion economaidd yn cadarnhau fod Cymru yn parhau'n gymharol dlawd, yn nhermau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a Gwerth Ychwanegol Crynswth. Oddi fewn i Gymru mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau'n dlotach na'r Dwyrain ac yn parhau i fod wedi'u dynodi'n Ardaloedd a Gynorthwyr. Golyga hyn fod ardaloedd y canrannau uwch nid yn unig yn parhau i ddioddef difreintedd economaidd ond hefyd yn teilyngu mynediad at Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd er mwyn eu cynorthwyo. **A ninnau ar drothwy cymal pellach o fuddsoddiad o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020, ceir cyfle pellach i fanteisio ar ddatblygiadau allai fod yn llesol o safbwynt ardaloedd y canrannau uchel mewn ffordd nas gwirededwyd yn y gorffennol.**

Nid oes unrhyw beth newydd yn y sylwadau hyn ond gellir ychwanegu mai cymharol ychydig sydd wedi newid er gwell yn economaidd ers datganoli – cafwyd peth buddsoddiad mewn cysylltiadau de-gogledd ond llawer mwy i gyfeiriad dwyrain-gorllewin; a'r un datblygiad gwirioneddol fawr – Wylfa B – yn benderfyniad a gymerwyd yn Llundain. Wrth gwrs, rydym dan gwmwl parhaus y dirwasgiad byd-eang ers rhai blynyddoedd ac mae grymoedd buddsoddi Llywodraeth Cymru yn gyfyng a dweud y lleiaf. Mae cynlluniau cyfalaf presennol Llywodraeth Cymru o safbwynt isadeiledd trafnidiaeth yn rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau gorllewin-dwyrain – o dde Sir Benfro ac ar hyd yr M4 yn bennaf, ac yn y Gogledd anelir at welliannau pellach i'r A55. Fesul awdurdod lleol, mae gwariant cyfalaf arfaethedig y Llywodraeth hefyd yn tueddu tuag at ardaloedd dwyreiniol a'r glannau yn hytrach nag ardaloedd y canrannau uwch. Ceir rhesymeg economaidd ddigon dealladwy yn sail i'r blaenoriaethau hyn ac mae demograffeg Cymru hefyd yn plygu'r rhaglenni cyfalaf yn anochel tuag at y Dwyrain mwy poblog. Ai diffyg cyfalaf yw'r prif rwystr? Yn sicr mae'n ffactor amlwg a gaiff ei adlewyrchu yn y sylw sy'n dod o'r newydd ar gryfhau perthynas y Llywodraeth gyda chwmnïau angori ac ar ddenu mewnfuddsoddiad. Mae adolygiad yr Athro Dylan Jones-Evans yn gam cadarnhaol tuag at ddeall sut i hwyluso cyllid menter a benthychiadau i

hybu busnesau yng Nghymru. Gellir ystyried hefyd sut rôl fydd gan Fanc Busnes arfaethedig Llywodraeth San Steffan i'w chwarae.

Yn amlwg mae gan Lywodraeth Cymru ran adeiladol allweddol i'w chwarae. Ers mabwysiadu'r egwyddor o brif-ffrydio'r Gymraeg adeg *Iaith Pawb* (2003), tameidiog fu'r cynnydd yn hyn o beth dros y ddegawd ddiwethaf. O edrych ar ddatblygu economaidd, casglwn mai annigonol oedd arweiniad WEFO – a'r Llywodraeth hithau – yng nghyswllt rhoi ystyriaeth i faterion ieithyddol yn ystod cyfnodau Rhaglenni Amcan 1 a Chydygyfeiriant heb sôn am brif-ffrydio gwirioneddol. Prin yw'r enghreifftiau o brif-ffrydio ar waith yn y meysydd economaidd/adfywio ond mae'r rheini'n haeddu sylw. Y ddwy amlwg yw cynllun Brocer Iaith,²⁶ a weithredwyd yng Nghaernarfon, a datblygiad tai fforddiadwy a Chanolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog.²⁷ **Maent yn gynlluniau cymeradwy iawn ill dau ond yn cynrychioli deuawd cymharol ddistaw ac unig ar lwyfan llawn prosiectau perthnasol eraill a gefnogwyd gan y Llywodraeth.**

A welir unrhyw bwyslais penodol ar y Gymraeg neu ardaloedd y canrannau uwch yn strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru er mwyn amlhau'r enghreifftiau prin uchod? Ni ddigwydd unrhyw gyfeiriadau penodol yn y ddogfen ***Twf a Swyddi Cynaliadwy***, prif raglen economaidd y Llywodraeth. Ymhlith y 13 amcan yn y ddogfen nodir y disgwyliad ar gwmnïau sy'n ceisio cymorth neu'n ennill contractau gan y Llywodraeth i gytuno ag amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y Llywodraeth. **Un cyfle da ac ymarferol fyddai ychwanegu at Fframwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol gan nodi “gweithredu'n ddwyieithog a hybu'r Gymraeg” fel gweithgaredd addas ar gyfer busnesau.** Nid yw'r Fframwaith yn nodi hynny yn ei ffurf bresennol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012. Yn yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn ogystal, derbyniwyd llawer o sylwadau am rôl y sector preifat, gan gynnwys disgwyliadau uwch ar fusnesau cadwyn mawr i arddel dwyieithrwydd a'r angen am gefnogaeth amlycach a haws i fusnesau bach allu gweithredu'n ddwyieithog o safbwynt delwedd a deunydd.

Yn weithredol, mae'n werth cyfeirio at dri datblygiad yng nghyswllt ***Twf a Swyddi Cynaliadwy*** a'r tri yn arddangos synergedd go amlwg. Yn gyntaf ymhlith y saith Ardal Menter newydd ceir Ynys Môn ac Eryri. Yn ail, gwelwyd sefydlu Canolfan Ynni ar gampws Llangefni gan Golwg Menai (Grŵp Llandrillo-Menai). Yn drydydd, ceir Parc Gwyddoniaeth Menai, buddsoddiad o £10m o gyfalaf gan y Llywodraeth a fydd yn cael ei reoli gan Brifysgol Bangor. Cyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd y bydd ystyriaeth i sefydlu Parth Twf Lleol yn Nyffryn Teifi.

Mae'n deg olrhain seiliau'r datblygiadau yn y Gogledd-orllewin nid yn unig i orsafoedd pŵer Wylfa a Thrawsfynydd ond hefyd i'r ymdrechion a fu'n sail i lunio ***Cynllun Gweithredu Môn Menai*** (2010-14) a gychwynnwyd gan drafodaethau rhwng awdurdodau Môn, Gwynedd a Chonwy a Llywodraeth

²⁶ http://www.taeryri.co.uk/brocer_iaith

²⁷ <http://www.conglmeinciau.org.uk/>

Cymru yn 2005-06.²⁸ Ymdrech a chynllunio o'r math hwn (Cynllun Gweithredu Môn-Menai) fyddai'n llesol, os nad yn angenrheidiol, i ardaloedd canrannau uwch y Canolbarth a'r De-orllewin. Nodwn y cyfle pwysig hwn ac anogwn Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol perthnasol yn y Canolbarth a'r De-orllewin i ddod ynghyd i osod seiliau tebyg er mwyn gwireddu cynlluniau uchelgeisiol cyffelyb i ddatblygiadau Môn-Menai. Ardaloedd targed amlwg i'w hystyried at y gwaith hwn fyddai: Aberystwyth / Bro Ddyfi; Dyffryn Teifi / Preseli (man cyfarfod tair sir); tref Caerfyrddin / Dinefwr. **Byddai'n rhesymol dadlau fod sefydliadau Addysg Uwch y Gorllewin yn yrwyr economaidd go bwysig ac mae hybu datblygiadau o gylch Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin yn cynnig cyfle priodol iawn.** Perthnasol hefyd fyddai ystyried Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd mewn goleuni gofodol tebyg. Nid datblygiad newydd fyddai'r dull gofodol o gynllunio adfywio ac fe gafwyd cysail yn nyddiau Awdurdod Datblygu Cymru a dilyniant i hynny yng Nghynllun Gofodol Cymru Llywodraeth Cymru. **Fodd bynnag, yn wahanol i'r rheini, yr her uchelgeisiol i'r Llywodraeth a'r asiantaethau yw cynllunio ar gyfer twf ieithyddol yn ogystal ag economaidd.**

Yn gyffredinol mae'n anodd gweld o'r ddogfen **Twf a Swyddi Cynaliadwy** unrhyw dystiolaeth glir o brif-ffrydio'r Gymraeg ac o ystyried y Gymraeg yng nghyswllt twf economaidd ardaloedd y canrannau uwch yn arbennig. **Yn ogystal â'r Fframwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, y cyfle – a'r angen pennaf – yw ymdrech fwriadus a chyson i brif-ffrydio'r Gymraeg o'r bôn i'r brig yn y strategaethau economaidd ac adfywio a chyda phwyslais clir a mesuradwy ar ddatblygu yn ardaloedd y canrannau uwch.**

- 4.6 Mae gan fentrau cymdeithasol gyfraniad pwysig i'w wneud fel y clywodd y Grŵp mewn trafodaeth panel yn Llanllyfni. Ac i'r sector hwn y perthyn nifer helaeth yr endidau sydd ag amcanion ieithyddol amlwg. O'r 1970au a'r 1980au ymlaen sefydlwyd mentrau nodedig fel Antur Aelhaearn (1974, pentref cydweithredol cyntaf yr ynysoedd hyn), Antur Waunfawr, Antur Teifi, Cymad a Menter Môn yn arddel y Gymraeg yn fewnol ac yn allanol. Yn nodweddiadol o gymhlethdod a gwendid amlycach y sefyllfa ieithyddol, gwelwyd sefydlu anturiaethau adfywio yn y De-orllewin heb yr un diddordeb cymdeithasol-ieithyddol mewn cymhariaeth â'r Gogledd-orllewin. Yn Sir Benfro daeth S.P.A.R.C. (a Planed yn ddiweddarach) i chwarae rôl ddigon clodwiw mewn prosiectau adfywio a thwristiaeth gynaliadwy ond heb wneud cyfraniad ieithyddol positif yn ystod y cyfnod hwn. Ymrannu, i raddau helaeth, ar linellau ieithyddol a welwyd yn Sir Gâr gyda chyfraniadau Antur Cwm Taf Tywi – enw Cymraeg ond sefydliad di-Gymraeg – ac Anturiaeth Dyffryn Aman yn rhai gweithgar yn y maes ond heb ddiddordeb yn yr agweddau ieithyddol. Ond eto yn yr un sir sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth a'r Mentrau Iaith eraill gyda'r Gymraeg yn ganolog yn eu gweledigaeth. Ceid, felly, elfen o gynllunio ieithyddol ymwybodol yn y Gogledd-orllewin tra'n y De-orllewin tueddir i weld ymrannu ar seiliau iaith sydd ei hun yn adlewyrchiad o ffragmenteiddio demograffeg iaith yr ardal.

²⁸ <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2008/menai/?lang=cy>

Yn fwy diweddar byth yng ngodre Ceredigion mae Menter Aberteifi, menter gydwethredol 4CG ac Ymddiriedolaeth Cadwgan (sy'n datblygu Castell Aberteifi) yn cynnig enghreifftiau lle mae'r agwedd tuag at y Gymraeg wedi troi'n fwyfwy clir a chadarnhaol. Mae peth o'r trai yn troi'n llanw hefyd yn Sir Gâr lle mae llawer o waith adfywio cymunedol (a ariennir gan Gronfeydd Ewropeaidd) y sir bellach yng ngofal y 3 Menter (laith). Awgryma hyn fod y sefyllfa'n un ddeinamig a bod asio'r amcanion ieithyddol ac adfywio economaidd yn rhoi sylfaen gadarnhaol nid yn unig o safbwynt effeithiolrwydd ond hefyd yn nhermau ymgysylltu llwyddiannus.

4.7 Ceir ffrwd o weithgaredd perthnasol o du cwmni Menter a Busnes. Sefydlwyd Menter a Busnes yn 1989 gyda'r nod deublyg o hybu datblygiad economaidd ac annog siaradwyr Cymraeg i fentro i fyd busnes. Mae'r dulliau gweithredu fel cwmni dros y blynyddoedd yn ymdebygu i fenter gymdeithasol i raddau helaeth. Mae pwyslais y cwmni yn newid ac yn datblygu mewn ymateb i'w weledigaeth ac anghenion y farchnad ond mae'n parhau â'i egwyddor wreiddiol o weithredu'n fewnol fel cwmni Cymraeg sy'n medru darparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n cyflawni neu'n cyfrannu at amrediad o gynlluniau megis Ffatri Fenter, Potentia, Agrisgôp, Llwyddo'n Lleol ac yn y blaen sy'n brawf o'r ymrwymiad hwn ac mae gan y cwmni enw da am weithredu cynlluniau fel y rhain yn effeithiol. Bellach, ceir pwyslais cliriach ar weithredu cynlluniau a phrosiectau – rhai dan nawdd grant a llywodraeth ac eraill yn rhai masnachol pur. Ar yr un pryd ceir llai o bwyslais ar un wedd ar y nod cymdeithasegol gwreiddiol o weithredu fel catalydd i fentergarwch ymhlith siaradwyr Cymraeg. Mae'n amserol felly fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cynnull Grŵp i adolygu'r cyswllt rhwng iaith a datblygiad economaidd a bydd y Grŵp yn debygol o fynd i'r afael â chwestiynau am strwythurau a fydd yn gyrru ac yn cydlynu datblygiadau yn y maes hwn. Yn sicr mae profiad Menter a Busnes o weinyddu y Grŵp laith-Economi gwreiddiol rhwng 2001 a 2009 yn werthfawr ac mae gwersi pwysig i'w dysgu yn seiliedig ar yr ymdrechion hynny a'r dylanwad cyfyngedig iawn a gafodd y Grŵp.

O ddiddordeb hefyd yw rôl Menter a Busnes mewn perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bwrdd Datblygu Cymru Wledig gynt. Perthyn rhan helaeth o'r hanes i'r cyfnod cyn-datganoli. Yn ystod y cyfnod hwn datblygodd y Bwrdd gynllun "Llwybro-Routes" gyda'r nod o astudio'r rhesymau am allfudiad pobl ifanc o'r Gymru wledig a thros amser geisio ffyrdd o gadw mewn cyswllt â hwy a'u denu yn ôl. Ardal y Canolbarth fu'r maes astudio cychwynnol ond ehangwyd o dan Awdurdod Datblygu Cymru (yn sgil diddymu'r Bwrdd Gwledig) i gynnwys pob awdurdod lleol sydd ag ardaloedd gwledig a'r ardaloedd estynedig hyn yn cynnwys y cymunedau canrannau uwch i gyd. Daeth y cynllun i ben ychydig flynyddoedd yn ôl ond cyn diflannu comisiynodd y Llywodraeth werthusiad terfynol go fanwl gan gwmni Wavehill ac mae i hwnnw gasgliadau ac argymhellion priodol iawn.²⁹

²⁹ Nid oes copi ar-lein ar gael.

Teg dweud na wireddwyd addewid cynnar y prosiect Llwybro. Crewyd cronfa ddata, crewyd gwefan a gweithredwyd rhai cynlluniau marchnata ond proffil isel ac adnoddau cyfyngedig iawn a fuddsoddwyd yn y cyfan gan awgrymu diffyg blaenoriaeth a pherchenogaeth ar ran y comisiynwyr. Efallai i'r diffyg blaenoriaethu hwn adlewyrchu rhyw gymaint ar wendidau hanfodol Llwybro o'r cychwyn – os denu pobl ifanc yn ôl i'r Gymru wledig, eu denu gyda beth? Datblygwyd rhai gweithgareddau marchnata a'r negeseuon craidd yn y marchnata hwn oedd awgrymu fod bröydd mebyd y gynulleidfa darged yn llefydd diogel, gydag ansawdd bywyd da, a mwy o gyfleoedd swyddi na'r disgwyl. Gellir cynnig mai cam gwag oedd y neges "sâff a bôring" i'r bobl ifanc. Gellir cynnig hefyd, y tu ôl i'r tracio a'r cysylltu, bod y broblem sylfaenol heb ei datrys, sef diffygion enbyd yr economi a'r cyfleoedd cyflogaeth a bod y farchnad dai y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl leol, yn enwedig prynwyr cyntaf. Bu cynllun Llwybro yn syniad clodwiw ond fe'i llethwyd yn y pen draw gan ddiffyg adnoddau ac argyhoeddiad i gyflawni'r potensial. Fe'i llethwyd hefyd gan yr atebion a ganfuwyd i'r cwestiwn mawr ei hun – sut mae gwneud yr ardal yn un ddeniadol i bobl ifanc fel eu bod eisiau aros neu ddychwelyd iddi?

Yn ystod cyfnod mwy diweddar y prosiect Llwybro ar ddechrau'r 2000au fe sefydlwyd cyfres o brosiectau cydategol yn y Gogledd-orllewin yn bennaf, megis Llwyddo'n Lleol gan Gyngor Gwynedd, a Mônallu dan Fenter Môn. Ymatebai'r cynlluniau i faterion pwysig o ran ein gorchwyl ni, sef hybu economi Gwynedd a Môn trwy fuddsoddi mewn prosiectau hybu mentergarwch, sefydlu busnesau a rhoi blas i bobl arnynt, ynghyd â rhoi profiadau i bobl ifanc mewn amrywiaeth o alwedigaethau. Yn ddiweddarach mae prosiectau cyffelyb wedi eu sefydlu yn Sir Gaerfyrddin lle cânt eu gweithredu gan y Mentrau Iaith ac eraill. Unwaith eto, mae'n werth sylwi ar y pwyslais – yng Ngwynedd mae'r Cyngor Sir yn rhoi blaenoriaeth uchel ac yn gyrru'r cynlluniau. Mewn ardaloedd eraill mae'r cynlluniau cyffelyb ar raddfa is ac mae'r amcanion ieithyddol yn llai blaenllaw.

- 4.7 Crybwyllwyd gwaith y Mentrau Iaith eisoes ac edrychir ymlaen at gasgliadau Adolygiad Prifysgol Caerdydd o weithgareddau'r Mentrau Iaith a chynlluniau cymunedol eraill. Esblygiad y Mentrau Iaith yw un o ddatblygiadau amlwg yr ugain mlynedd diwethaf mewn cynllunio ieithyddol ac fe geir presenoldeb gweithredol ymhob rhan o Gymru erbyn hyn. Yn nhermau buddsoddiad, o safbwynt y Swyddfa Gymreig, y Bwrdd Iaith a Llywodraeth Cymru bellach, neilltuir cyfran go helaeth o grantiau "hybu'r Gymraeg" ar gyfer y Mentrau Iaith. Cafwyd trafodaeth fyw ar hyd y cyfnod, yn enwedig yn y Gorllewin a'r Gogledd-orllewin, am rôl ymarferol y Mentrau Iaith a'r pwyslais priodol y dylid ei roi ar adfywio economaidd o fewn i'r nod cyffredinol o gynllunio ieithyddol cymunedol. Ystyriwyd y cwestiwn hwn mewn cynhadledd ryngwladol a drefnwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1998. Ystyriwyd eto yn **Mentro Ymlaen** (2001),³⁰ adolygiad cynhwysfawr o waith a datblygiad y Mentrau Iaith a gomisiynwyd gan y Bwrdd.

³⁰ http://www.iaith.eu/uploads/mentro_ymlaen_2000.pdf

Gwerthfawrogwn dueddiadau ac awydd ymhlith rhai o'r Mentrau Iaith mwy aeddfed i gynyddu'r sylw i faterion economaidd eu natur. Yn achos mentrau'r Dwyrain gwelid rhai'n datblygu gwasanaethau Cymraeg ar ran awdurdodau lleol sydd heb na'r capasiti na'r diddordeb eu hunain i ddarparu cynlluniau gofal gwyliau ysgol, clybiau ar-ôl-ysgol ymhlith eraill a thrwy hynny'n creu cyfleoedd cyflogaeth pwysig. Tuedd wahanol a welwyd at ei gilydd yn y Gorllewin gyda llai o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau sylfaenol ond mwy o weithredu ym meysydd codi hyder, cynnal rhwydweithiau Cymraeg cymdeithasol, cymathu mewnfudwyr, a thargedu'r sector preifat ar lefel leol. Yn ystod y ddegawd ddiwethaf yn enwedig gwelwyd mentrau'r Gorllewin yn cyflawni cynlluniau gyda nawdd refeniw cronfeydd Ewropeaidd (y Gronfa Gymdeithasol a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn bennaf). **Mae'n werth sylwi mai ychydig iawn o gynlluniau cyfalaf a weithredwyd gan y Mentrau Iaith hyd yn hyn. Mae hwn yn sicr yn llwybr posib i'r dyfodol ac fe anogwn y Llywodraeth i gynorthwyo'r Mentrau Iaith ac asiantaethau partner addas i ddatblygu prosiectau refeniw a chyfalaf uchelgeisiol a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion adfywio a hybu cyflogaeth yn ardaloedd y canrannau uchel.**

Mae gwerth hefyd mewn cyfeirio at un astudiaeth achos sydd wedi cynnig tystiolaeth gadarn o effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r Gymraeg mewn maes pwysig o weithredu economaidd. Gweithgareddau Awyr Agored yw'r maes ac Eryri yw'r ardal dan sylw. Mewn adroddiad ymchwil gan Brifysgol Bangor yn 2004 dangoswyd mai 5% yn unig o weithwyr y sector Awyr Agored oedd yn ddwyieithog. Trwy gyd-ymdrechion aelodau'r Bartneriaeth Awyr Agored gyda chefnogaeth Menter Iaith Conwy a'r Urdd rhoddwyd ffocws ar annog pobl leol i ddod i mewn i'r maes yn fwyfwy ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant newydd. Canlyniad hyn, yn ôl ail-adolygiad yn 2013, oedd casglu fod 29% o'r gweithlu Awyr Agored bellach yn ddwyieithog sydd, mae'n amlwg, yn cynrychioli cynnydd sylweddol. **Cynrychiola gweithgareddau Partneriaeth Awyr Agored Eryri enghraifft o arfer dda o brif-ffrydio'r Gymraeg gan ddangos fod modd i fuddiannau datblygu economaidd ac ieithyddol gydderdded yn effeithiol.**³¹

Ymhellach mae Mentrau Iaith Cymru wedi cynnig y Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg fel fframwaith a chynllun ymarferol er mwyn mynd i'r afael ag amcanion sy'n cynnwys lleihau allfudiad, ehangu gwasanaethau Cymraeg a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Yn ymarferol byddai'n golygu gosod Swyddog Marchnad Lafur ym mhob Menter Iaith, a chyda chefnogaeth uned ganolog ym Mentrau Iaith Cymru ceir cynlluniau hyfforddi, cronfa ddata cysylltiadau unigolion a chapasiti lleol a chenedlaethol i weithio gyda chyflogwyr ac asiantaethau i ddiwallu'r angen am sgiliau dwyieithog ac ehangu'r galw yn ogystal. **Mae rhinweddau amlwg i'r Cynllun Marchnad Lafur ac mae'r uchelgais cenedlaethol i'w gymeradwyo. Anogwn WEFO a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu'r cynllun busnes mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Cymru er mwyn asesu'n effeithiol y**

³¹ <http://www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk/cy/>

modd y gallai'r cynllun hwn gyflawni amcanion perthnasol strategaethau laith Fyw: laith Byw a Twf a Swyddi Cynaliadwy.

- 4.8 Oes angen am Strategaeth Adfywio Economaidd Ranbarthol ar gyfer yr ardaloedd canrannau uwch? Yn sicr, roedd cynllunio gofodol fel hyn yn elfen o bolisi rhanbarthol San Steffan yn sgil yr Ail Ryfel Byd gan arwain, yn yr ardaloedd a gynorthwyir, at sefydlu yn ne Cymru y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, Tŷ'r Cwmniau yng Nghaerdydd a'r DVLA yn Abertawe. Gellir dadlau fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni nod digon cymeradwy, sef cefnogi twf addas mewn sawl rhan o Gymru. Mae ardaloedd menter, a sefydlu dinas-ranbarthau – y cyntaf ym Mae Abertawe (ac yn cynnwys talp go helaeth o Sir Gâr – â'r potensial i ymegnio rhai o'r ardaloedd hynny sydd â chanrannau uwch, megis Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman. Mae Ardaloedd Menter Môn ac Eryri yn addo rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg ac mae ymrwymiad i'r perwyl hwnnw yn achos cylch gwaith Parth Twf Lleol Dyffryn Teifi. **Anogwn y Llywodraeth i sicrhau mewnbwn cynllunio ieithyddol amlwg yn natblygiad dinas-ranbarth Bae Abertawe er mwyn mwylhau y buddion perthnasol yn yr ardaloedd canrannau uwch perthnasol.**

*O ble mae'r twf a'r datblygiadau arwyddocaol yn mynd i ddod? Ai gwelliannau i'r cyflymder Band Eang fydd y panacea economaidd? A oes tystiolaeth y bydd gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn sbardun economaidd? Beth am gyfraniad y dinas-ranbarthau Cymraeg – Môn-Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin? Anodd iawn i ni gynnig dadansoddiad ac atebion cynhwysfawr i bob cwestiwn. Fodd bynnag, o ofyn y cwestiwn hwn, "a yw'r strategaethau adfywio presennol yn dangos elfen ddigonol o gynllunio ieithyddol ac a fydd effaith y strategaethau, o'u gweithredu'n effeithiol, yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ardaloedd y canrannau uwch?" ein casgliad yw "na, nid ar eu ffurf bresennol". Ceir rhai camau clir a chymeradwy yn y Gogledd-orllewin ond mae'r sefyllfa'n wannach yn y Canolbarth a'r De-orllewin. **Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i geisio cau'r bwlb hwn. Yn ymarferol gellir rhoi sail gychwynnol i'r gwaith hwn trwy secondio timoedd bach ond profiadol o gynllunwyr ieithyddol i gyfoethogi'r elfen o brif-ffrydio'r Gymraeg yn y prif strategaethau a chynlluniau datblygu economaidd.***

Tai a Chynllunio

- 4.9 Bu materion Tai a Chynllunio yn destun ystyriaeth go helaeth yn nhrafodaethau'r Grŵp. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol yn ystod ein cyfarfodydd ac fe fu sawl cyfraniad a chyfeiriad at y meysydd hyn yn yr alwad am dystiolaeth. Yn ogystal derbyniwyd llawer iawn o dystiolaeth werthfawr a sylwadau trwy law'r cyfranogwyr niferus iawn a gwblhaodd yr arolwg ar-lein cyn y Gynhadledd Fawr a'r rheini, boed o'r ardaloedd canrannau uwch neu y tu hwnt i'r ardaloedd hynny, yn cefnogi'r safbwynt fod yn rhaid ceisio cael dylanwad mwy llesol ar fuddiannau'r Gymraeg yn ardaloedd y canrannau uwch trwy bolisïau a strategaethau addas ar y lefel genedlaethol a lleol.

Ffactor sylfaenol yn y drafodaeth am y sefyllfa tai yw grym y farchnad agored. Tanlinellwyd i'r Grŵp mai cyfyng dros ben yw gallu awdurdodau lleol i effeithio

ar drafodion y farchnad agored. Mae'r niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond yn fras fe werthir tua 15,000-20,000 o dai bob blwyddyn ar y farchnad agored yn ardaloedd y canrannau uwch. Yn yr un ardaloedd mae'r awdurdodau yn delio â cheisiadau i godi oddeutu 1,500-2,000 o dai newydd. Rhaid cadw mewn cof, felly, raddfa dylanwad y polisïau a'r awdurdodau perthnasol.

Pryder a leisir yn aml yw dylanwad negyddol gor-ddatblygu. Bu'n destun ymgyrchu eang yng nghyswllt yr amcan o godi 6,000 o dai o dan Gynllun Datblygu Unedol Ceredigion yn gynnar yn y 2000au. Mae gwaith awdurdodau lleol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd wedi esgor ar leisio pryderon am ganiatáu datblygiadau mawr yn Sir Ddinbych a datblygiadau tai arfaethedig ym Methesda a Bangor ac ardaloedd eraill yn ogystal. Cafwyd protestiadau yn ddiweddar hefyd ynghylch datblygiad Penybanc ger Rhydaman, Sir Gâr. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn destun peth tyndra yn ardaloedd y canrannau uwch oherwydd y pwyslais ar fynnu y bydd dros 50% o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn y trefi. Gwêl rhai fod hyn yn bwyslais sydd â chanlyniadau niweidiol i ffyniant pentrefi cefn gwlad a lle mae'r Gymraeg yn rhan amlwg iawn o'r gwead cymdeithasol lleol. Ac wrth gwrs, mae trafodaethau sy'n cysylltu'r iaith Gymraeg gyda materion tai a chynllunio yn troi'n ddadleuol yn sydyn iawn gyda chyhuddiadau o hiliaeth yn cael eu gwneud a'u porthi gan elfennau drygionus a di-ofal. Cyferbynnir hyn â natur disgwrs aeddfetach ynghylch bwriadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd ac Exmoor yn Lloegr, rai blynyddoedd yn ôl i gyfyngu ar dai gwyliau a blaenoriaethu ar sail galw pobl leol.

Mae problem hanesyddol fforddadwyedd yn parhau gyda phrisiau cyfartalog tai y tu hwnt i allu pobl leol i'w fforddio (mae prisiau tai Gwynedd ar gyfartaledd 5.7 gwaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog a 6 gwaith yn uwch ym Môn a Cheredigion) a phrisiau tai y siroedd gwledig o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.³² Gwelir bod tlodi tanwydd yn nodwedd hefyd am nad yw cyfran helaeth o bobl ar y rhwydwaith nwy, ac mae newid mewn budd-daliadau hefyd yn achosi cyni a chaledi gwaeth. Gwelwyd hefyd ail gartrefi a newidiadau demograffig yn arwain at godiadau sylweddol mewn prisiau tai.

Nid yw hyn yn newydd ac mae'r maes tai wedi denu llawer o sylw yn y blynyddoedd diwethaf. Yn sgil Adolygiad Essex (2008) datblygwyd dull llwyddiannus newydd o sicrhau cyflenwad newydd o dai newydd yn seiliedig ar gyd-gynhyrchu. Cyrhaeddwyd targed Llywodraeth Cymru o adeiladu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y Senedd diwethaf. Fodd bynnag mae cyfyngiadau gwariant cyhoeddus yn brathu'n galed bellach a'r grant tai cymdeithasol wedi ei leihau 31% yn y ddwy flynedd ddiwethaf. A ninnau'n parhau mewn cyfnod economaidd bregus awgrymir bod cyflenwad digonol o dai cymdeithasol a'r sefydlogrwydd a ddarperir gan y sector tai rhent cymdeithasol yn hynod o bwysig (Sefydliad Joseph Rowntree, 2011).³³ Yn yr

³² Am drosolwg diweddar gweler Catrin Fflur Huws (2008) "Siarad iaith yr aelwyd pan fo'r aelwyd yn anfforddiadwy" yn *Gwerddon* 3, tud. 71-93.

³³ <http://www.jrf.org.uk/publications/rural-housing-wales>

un adolygiad o'r dystiolaeth gyfredol cefnogir dull gweithredu Llywodraeth Cymru o safbwynt cyd-gynhyrchu ac a welir yn y strategaeth genedlaethol, *Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru*. Nodwn hefyd bwyslais newydd yn strategaeth adfywio Llywodraeth Cymru, *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* (2013), ar wella tai.

Fel y nodwyd uchod, cyfyng yw gallu awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion mewn perthynas â thrafodion y sector preifat. Yng Ngwynedd, er enghraifft, mae tai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu (159 mewn 5 mlynedd), tai gweigion yn cael eu rhoi ar rent (89) a thai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu (79) ond mae'r niferoedd yn fach o gymharu â'r galw. Mae datblygiadau polisi cymharol ddiweddar ledled y Deyrnas Unedig yng nghyswllt diwallu anghenion lleol wedi'u mabwysiadu yng Nghymru, yn enwedig o safbwynt ardaloedd gwledig lle mae prisiau tai wedi codi y tu hwnt i gyrraedd pobl leol. Ceir defnydd achlysurol gan rai awdurdodau o gytundebau o dan Adran 106 y Ddeddf Gynllunio 1990 lle neilltuir canran o'r tai mewn unrhyw ddatblygiad go sylweddol i fod yn dai fforddiadwy. Mae defnydd o gytundebau Adran 106 yn destun cryn drafod a negodi gofalus rhwng awdurdodau, datblygwyr a benthyccwyr gan fod tyndra amlwg yn gallu bodoli rhwng diwallu galw lleol a sicrhau'r elw mwyaf posib. Datblygiad arall y cyfnod diweddar yw gosod amod cysylltiad lleol mewn polisiâu gosod tai cymdeithasol sy'n gallu cynnwys cyfnod penodedig o breswyllo'n lleol ond nid iaith yn ôl Polisi Cynllunio Cymru. Nodwn hefyd yr ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth San Steffan ar ddatganoli Treth Tir y Dreth Stamp i Gymru. Cefnogwn yr amcan hwn yn bendant. Yn ogystal, o ddatganoli'r cyfrifoldeb, fe ellir ystyried y "cyswllt lleol" fel maen prawf posib i gynorthwyo unigolion a theuluoedd i fedru hawlio gostyngiad ar y dreth stamp.

Ar hyn o bryd, ymddengys bod rhyw 3,500 o bobl ar y gofrestr tai yng Ngwynedd, 6,000 yn Sir Gâr. Mae gan Gyngor Gwynedd ar y cyd â'r Cymdeithasau Tai Lleol Bolisi Gosod ac mae Ceredigion yn ymgynghori ar ei Strategaeth Tai newydd sy'n cynnwys Polisi Gosod gyda'r bwriad hefyd i amlygu dylanwad y cysylltiad lleol yn y meini prawf. Yn y ddau Gyngor ceir cynllun i gynorthwyo pobl i allu rhoi blaendal ar gyfer morgais, ac yn y ddwy ardal hefyd mae Asesiadau Anghenion Tai yn cael eu paratoi o'r newydd. **Rydym yn cymeradwyo ymdrechion Cyngorau Gwynedd a Cheredigion i seilio eu Strategaethau Tai ar dystiolaeth gadarn o'r galw lleol ac i gynnig cymorth ymarferol i ddiwallu'r galw hwn.**

Caiff llawer o'r rhwystredigaeth ei feio ar y Polisi Cynllunio cenedlaethol a dylanwad yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru – dogfen swmpus o dros 200 tudalen - yn cynnwys 9 brawddeg a thraean o un dudalen. Mae'n crybwyll "rhoi ystyriaeth", "gwerthfawrogi'r gwead cymdeithasol", "cynnig graddoli datblygiadau" fel ateb a "thai fforddiadwy" hefyd cyn rhybuddio'n chwyrn na ddylid gwahaniaethu rhwng penderfyniadau cynllunio na rhwng penderfyniadau gosod tai ar sail gallu ieithyddol. Egluro'r Polisi fydd pwrpas y Nodyn Cyngor Technegol 20, ac oes, mae angen canllaw ac eglurhad clir a fydd yn arwain ac yn galluogi'r awdurdodau perthnasol i fedru gwneud penderfyniadau ystyrlon yng nghyswllt effaith ieithyddol. Tybed

a yw hefyd yn amser adolygu'r Polisi Cynllunio ei hun gan edrych o'r newydd ar feysydd prif-ffrydio megis y Gymraeg?

Mewn adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yn sgil y Comisiwn ar Dai Gwledig yng Nghymru (2008) rhoddwyd ystyriaeth go dda i'r cwestiwn tai a'r Gymraeg ond – a thrwy ddyfynnu sefydliadau a gymerodd ran – mae'n nodi fod diffyg tystiolaeth am y berthynas rhwng tai a'r iaith Gymraeg ac yn argymhell cynnal ymchwil ar frys. Yn ddiddorol nodir hefyd yr angen am ymchwil ar y cysylltiadau rhwng tai, newid demograffig ac ailstrwythuro economaidd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ymchwil newydd i'r cyfeiriad hwn ac eithrio darn o waith sy'n digwydd ar hyn o bryd dan ofal Cyngor Gwynedd i ystyried y berthynas rhwng y Gymraeg a'r maes tai yn rhai o drefi a phentrefi'r sir.

Crybwyllwyd eisoes y prosiect “Tai, Gwaith, Iaith” yng Nghongl Meinciau, Botwnnog, a yrrwyd gan Gymdeithas Tai Eryri lle prynwyd safle adeiladu 12 tŷ fforddiadwy a chodi Canolfan Fenter yn darparu 12 Uned Busnes. Ar adeg llunio'r adroddiad mae'r tai yn llawn a'r Ganolfan Fenter hithau'n llawn hefyd. Mae'r amodau tenantiaeth i'r busnesau yn cynnwys ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith busnes bob dydd. Darparwyd gan y cynllun hwn asedau cymunedol gwerthfawr yn ogystal â'r tai safonol a'r unedau busnes deniadol a chost-effeithiol. **Congl Meinciau yw'r esiampl ddiweddar fwyaf cymeradwy a ddaeth ar ein traws hyd yma o ddatblygiad integredig sy'n ceisio cynnal cymunedau Cymraeg.** Bu'r datblygiad yn ffrwyth gwaith caled iawn a byddai'n bwysig gweld rhagor o ddatblygiadau cyffelyb sy'n asio'r elfennau hanfodol hyn. **Cwestiwn i'r Llywodraeth a'r Cymdeithasau Tai perthnasol yw a allan nhw efelychu'r un polisi iaith blaengar yn ardaloedd y Canolbarth a'r De-orllewin lle mae'r canrannau dipyn yn is?** Nodwn hefyd ddatblygiadau tai eraill yng Ngwynedd sydd, yn ôl pob golwg, fel yn achos Clynog Fawr, wedi cyfrannu at gynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned honno. Yn 2001 yng Nghlynog Fawr cafwyd bod 824 / 67.8% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg ac yn 2011 cafwyd bod 954 / 73.2% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Ymddengys y ceir perthynas go agos a rhinweddol rhwng y datblygiadau tai addas o amgylch Caernarfon, y galw bwriadus am sgiliau dwyieithog yn yr ardal hon, a “pherfformiad” cryf rhai o gymunedau'r ardal yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2011.

- 4.10 Gan symud o'r maes tai i faterion cynllunio ehangach, bu'r Grŵp yn ffodus i gael cyfraniadau o du awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd y TAN 20 diwygiedig yn ymddangos yn yr hydref ar ôl cryn oedi, bron i 10 mlynedd ers adroddiad Mark Tewdwr-Jones ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg a'r Nodyn Cyngor Technegol cyntaf yn 2000. Bydd arwyddocâd y Nodyn Cyngor diwygiedig i'w bwysu a'i fesur maes o law ond mae lle i ddadlau fod y cyfle a'r disgwyl i bwysu a mesur lles y Gymraeg ar lefel gymunedol yn nhermau cynllunio cyfannol wedi digwydd eisoes wrth i awdurdodau lleol lunio'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Nid yw hynny'n esgusodi'r awdurdodau perthnasol rhag y disgwyliad rhesymol i ystyried effaith iaith wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau unigol perthnasol. O edrych yn gyflym ar yr awdurdodau amlycaf nodwn fod Gwynedd a Môn ar gyfnod go gynnar yn y gwaith o lunio Cynllun

Datblygu Lleol ar y cyd. Rhoddwyd sylw dyledus i fuddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yng Ngheredigion ac mae sylwadau'r Arolygiaeth hefyd yn dangos peth gwerthfawrogiad o bwysigrwydd y mater.³⁴ Ceir papur pwnc go fanwl fel rhan o baratodau Sir Gâr yn ogystal â datganiad polisi penodol (#18) sy'n nodi'r ymrwymiad i weld asesiadau effaith ieithyddol a datganiadau amdanynt yn cael eu llunio.³⁵ Mae i eraill i farnu effeithiolrwydd gweithredu awdurdodau Ceredigion a Sir Gâr sydd heb, yn y gorffennol, lunio asesiadau effaith ieithyddol mewn perthynas â cheisiadau perthnasol. **Ar y blaen o ryw bellter sylweddol yn y maes hwn mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth ddwyn y mater i ganol y maes cynllunio yn gyson ac yn drylwyr. Lle ceir arweiniad gan gyrff megis y rhain dylai'r lleill ddilyn a cheisio efelychu (ac efallai rhannu ychydig o'u hargyhoeddiad yn ogystal). Anogwn y Llywodraeth i roi cyfeiriad bwriadus i Nodyn Cyngor Technegol 20 er mwyn darparu'r arweiniad angenrheidiol i'r awdurdodau hynny sydd heb dorri cwys amlwg yn y cyswllt hwn.**

Rhyngwladol

- 4.11 Cwestiwn a ystyriodd y Grŵp oedd "a oes ardal neu gymuned ieithyddol lle mae'r ffactorau hyn yn dod at ei gilydd mewn modd bwriadus ac wedi ei gynllunio?"

Yn anffodus mae tystiolaeth ymchwil ac ymarferol am y cyswllt iaith, Cynllunio ac Economi yn parhau'n weddol denau at ein dibenion penodol ni. Ceir peth gwaith ymchwil yn y maes polisïau iaith a'u heffaith ar statws neu ar sectorau gwahanol ond prin yw'r ymchwil sy'n cydgysylltu newidiadau demograffeg iaith gydag effaith polisïau hybu iaith ac economi. Ceir safbwyntiau gwahanol iawn mewn sawl cyswllt gyda rhai yn pwysleisio manteision dwyieithrwydd ac amrywiaeth ieithyddol mewn economi leol a byd-eang. Ond fe geir safbwyntiau neo-ryddfrydol yn ogystal lle rhagwelir tranc naturiol yr ieithoedd llai mewn cystadleuaeth ag ieithoedd mawr y byd "modern" gan awgrymu fod difodiad cymunedau ieithyddol llai yn rhan anochel o brosesau datblygiad economaidd.³⁶

Rhoddwyd peth sylw i faterion economaidd o safbwynt yr Aeleg yn yr Alban ac edrychwyd yn gadarnhaol ar nodwedd a ddiffiniwyd fel "Yr Economi Gaeleg".

³⁴ <http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=9980>

³⁵

<http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/amgylchedd/cynllunio/Policy/Local%20Development%20Plan/Pages/LocalDevelopmentPlanhome.aspx>

³⁶ Gweler, er enghraifft, Grin, François - Language planning and economics – yn : Current Issues in Language Planning. - vol. 4 (2003) no. 1; p. 1-67

Er hynny, fel y dadleua Mcleod (2002),³⁷ bu tuedd i ganolbwyntio ar gynnyrch yn yr Aeleg, megis gwerthiant cerddoriaeth draddodiadol neu ddatblygiad twristiaeth ddiwylliannol, ac nid ar faterion yn ymwneud â strwythur economi y cadarnleoedd a'i effaith ar barhad neu ddirywiad y gymuned ieithyddol. Ceir golwg wahanol ar dueddiadau demograffeg perthnasol yn gysylltiedig â dylanwad trefoli ar y Swedeg yn y Ffindir.³⁸ Y casgliadau a seiliwyd ar dystiolaeth y Ffindir oedd gweld cynnal sefyllfa ddemograffig y Swedeg yn yr ardaloedd canrannau uwch (lle ceid statws uwch i'r Swedeg) ond gwelwyd lleihad yn y defnydd o'r Swedeg yn y cymunedau swyddogol "dwyieithog", dirywiad yn y rhwydweithiau cymdeithasol a diffyg trosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Rhoddwyd llawer o sylw i'r materion hyn yng nghyswllt effaith polisiau iaith Quebec ar bob maes gan gynnwys y sector preifat. Ers y *Revolution Tranquille* yn y 1960au a Siarter yr Iaith Ffrangeg, "*Loi 101*" fel y'i gelwir, yn 1977 (a diwygiadau pellach iddo ers hynny), rhoddwyd seiliau cryf iawn i statws yr iaith Ffrangeg a hawliau i'w siaradwyr ochr yn ochr â rhaglen uchelgeisiol y llywodraeth ffederal i foderneiddio a hyrwyddo datblygiad economaidd Quebec. Er yn ddadleuol o safbwynt y rheini sy'n gwrthwynebu goblygiadau'r ddeddfwriaeth mae effaith ymarferol gweithredu'r polisiau iaith yn Quebec yn amlwg gan awgrymu fod y dull gweithredu hwn yn un effeithiol iawn yn nhermau cynnydd ieithyddol. Gwelir a chlywir y Ffrangeg ym mhob man ac mae Ffrangeg wedi ennill ei phlwyf mewn sawl ystyr fel iaith masnach a'r economi, addysg, llywodraeth a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Bu'r dadleuon yn rhai cyfreithiol hefyd ac fe welwyd sawl achos llys dros y blynyddoedd ynghyd ag adleoliadau o Quebec i Toronto gan rai cwmnïau mawrion. Gwelwyd dadleuon tebyg yng Nghatalonia mewn ymateb i ymdrechion i ymestyn dylanwad polisi iaith i'r sector preifat gan gynnwys dirwyon ers 1997 am beidio â chydymffurfio. Yn y ddau achos mae'n anodd dadlau fod hyrwyddo polisi iaith wedi niweidio'r economi mewn modd amlwg – mae Quebec a Chatalonia yn ardaloedd cyfoethog ac mae llwyddiant economaidd y ddwy ardal yn peri problemau gwahanol o safbwynt denu mewnffudiad i'r ardaloedd dinesig yn enwedig gan bobl sydd am elwa o sefyllfa economaidd iach. Gweithredir y polisiau iaith mewn modd gweddol gyson ledled Quebec a Chatalonia er y ceir realaeth ddwyieithog ac amlieithog amlycach yn yr ardaloedd dinesig, Montreal a Barcelona yn arbennig. Er nad yw'n bolisi swyddogol, ceir cydnabyddiaeth fod yr elfen orfodaeth i gydymffurfio a gosod dirwyon ar fusnesau yn cael ei gweithredu a'i monitro yn llai llym yn y dinasoedd hyn. Er hynny, **gellir dadlau yr enillwyd difidend ieithyddol cadarnhaol o bolisiau iaith Quebec a Chatalonia ac fe haedda eu llwyddiant ystyriaeth ofalus gan Lywodraeth Cymru wrth greu'r Safonau newydd yn sgil Mesur y Gymraeg (2011).**

³⁷ Mcleod, W. (2002) "Language Planning ar Regional Development? The Growth of the Gaelic Economy". Scottish Studies 38, http://scottishaffairs.org/backiss/pdfs/sa38/sa38_McLeod.pdf. Gweler hefyd McLeod, W. gol. (2006) *Revitalising Gaelic in Scotland*. Dunedin Academic Press: Michigan.

³⁸ Nordberg, B. (1994) *The Sociolinguistics of Urbanization: the case of the Nordic Countries*. De Gruyter: Berlin.

Mewn cyfrol sy'n ceisio cwmpasu sawl agwedd ar gynllunio ieithyddol mewn perthynas â sefyllfa'r Fasgeg, ceir pennod gan Jose Zendoia (The Case of Basque, 2005) sy'n adolygu'r dystiolaeth economaidd.³⁹ O gymryd trosolwg hanesyddol hir mae'n cysylltu newidiadau economaidd arwyddocaol gyda chyfnodau o ddirywiad yn sefyllfa'r Fasgeg. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae sefyllfa'r Fasgeg yn gwella mewn rhai ffyrdd yn y Gymuned Ymreolus yn bennaf ac mae hynny'n ganlyniad i fuddsoddiad ar bolisi iaith gan y llywodraeth ranbarthol. Er hynny, mae profiad y Fasgeg yn dangos fod:

- Twf ac ehangu sectorau newydd yn digwydd yn yr ieithoedd mawr (ac nid yr ieithoedd llai);
- Mae mudo sylweddol wedi digwydd o ganlyniad i ddatblygiadau economaidd ac nid oes angen wedi bod ar i'r mewnfydwyr ddysgu Basgeg;
- Nid yw'r awdurdodau a'r "ruling classes" (uwch-reolwyr / dosbarth yr elît), yn gyffredinol, yn dangos agweddau o blaid y Fasgeg – maent wedi cymathu i'r ieithoedd mawr ac yn modelu'r cymathu hwn i eraill eu hefelychu;
- Ceir proses (hir) o leihau bri a statws ac fe barheir i gysylltu y Fasgeg gyda sectorau ceidwadol a gor-draddodiadol.

Er gwaetha hynny gellir dadlau fod datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf – sy'n cynnwys technolegau newydd a chymdeithas gyfoes ei natur, ochr yn ochr â phwyslais amlwg ar weithgareddau hybu'r Fasgeg – yn cynnig gobaith na fydd y newidiadau economaidd sydd ohoni yn cael effaith negyddol. Mae i'r casgliadau hyn adlais amlwg yn y profiad Cymraeg.

Un ffynhonnell arall o dystiolaeth reit eang yw'r adroddiad Euromosaic (1996, Comisiwn Ewropeaidd)⁴⁰ a grewyd i geisio cloriannu tystiolaeth eang o feysydd demograffeg, statws, addysg, yr economi ac ati er mwyn cynnig dadansoddiad cyfannol o gyflwr yr ieithoedd llai eu defnydd yn Ewrop. **Dengys yr adroddiad Euromosaic gydberthynas go gyson rhwng meini prawf economaidd a chymdeithasol-ieithyddol gan gadarnhau fod rhagolygon gwell i ieithoedd llai eu defnydd mewn gwledydd sy'n fwy llwyddiannus yn economaidd.** Yn yr un modd, yn aml fe gysylltir yr ieithoedd sydd yn y sefyllfaoedd gwannaf gydag ardaloedd nad ydynt yn llwyddiannus yn economaidd.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth ryngwladol ceir neges go greiddiol i'r Grŵp – lle bo datblygiad economaidd llwyddiannus ceir effeithiau ieithyddol cadarnhaol yn gorbwyso effaith negyddol, ond lle ceir datblygiad economaidd gwannach

³⁹ Erthygl Zendoia yn Azurmendi, J-M a Martinez de Luna, I. (2005) **The Case of Basque: from the past toward the future**. Mouton de Gruyter: Michigan.

⁴⁰ http://ec.europa.eu/languages/euromosaic/euromosaic-study_en.htm

mae rhagolygon yr ieithoedd llai yn waeth. **Cred y Grŵp yn gyffredinol fod yn rhaid wrth ddatblygu – mae datblygu llwyddiannus yn iachach ac yn cynnig llwyfan posibiliadau i'r gymuned ieithyddol cyhyd â bod cynllunio ieithyddol yn rhan ganolog o'r cynllunio a'r gweithredu.**

Gallai atal datblygu a ffrwyno cyfleoedd twf beri mwy o ddrwg nag o les, boed yn enw cynaliadwyedd amgylcheddol neu "warchod" iaith neu'r ddau. **Y sefyllfa i'w chwennych yw economi llwyddiannus a deinamig wedi'i phriodi â pholisïau ieithyddol addas sy'n cael eu gweithredu'n ddoeth ond yn benderfynol. Gellir defnyddio'r term prif-ffrydio i ddisgrifio'r priodi hwn ac fe rown yr her hon i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdodau lleol perthnasol, i'w chyflawni.**

Casgliadau

Statws

- 4.12 Cafwyd datblygiadau go reolaidd ar un olwg yn ystod y degawdau diwethaf yn statws y Gymraeg a dwyieithrwydd swyddogol mewn perthynas â bywyd cyhoeddus. Cynnydd cyfyngedig, serch hynny, a welwyd o safbwynt effaith uniongyrchol ac arwyddocaol y datblygiadau hyn yn ardaloedd y canrannau uchel ac afraid dweud mai mabwysiadu a gweithredu polisi iaith Cyngor Gwynedd yw'r datblygiad mwyaf effeithiol ac arwyddocaol o bell ffordd.

Gaeltacht i Gymru?

- 4.13 Ni welwyd gennym dystiolaeth gadarn lle ceid cyplysu statws gwahaniaethol gyda gweithredu digonol a wnaeth arwain, o ganlyniad, at gynnydd ieithyddol. Er hynny, ceir dystiolaeth ddigonol dan law rhai llywodraethau o weithredu polisïau iaith gwlad-gyfan sydd wedi arwain at gynnydd ieithyddol yn ardaloedd canrannau uwch y cymunedau iaith hynny. Yn ein barn ni mae'n amheus a fyddai deddfu fel yn Iwerddon trwy ddynodi statws cyfreithiol gwahanol i'r ardaloedd canrannau uwch **ynddo'i hun** yn weithred gymeradwy.

Datblygiad Economaidd

- 4.14 Prin yw'r enghreifftiau o brif-ffrydio (y Gymraeg) yn y meysydd economaidd/adfywio.

O ofyn y cwestiwn, "a yw'r strategaethau adfywio presennol yn dangos elfen ddigonol o gynllunio ieithyddol ac a fydd effaith y strategaethau, o'u gweithredu'n effeithiol, yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ardaloedd y canrannau uwch?" ein casgliad yw "na, nid ar eu ffurf bresennol". Ceir rhai camau clir a chymeradwy yn y Gogledd-orllewin ond mae'r sefyllfa'n wannach yn y Canolbarth a'r De-orllewin. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i geisio cau'r bwlch hwn.

Cyfle da ac ymarferol fyddai ychwanegu at Fframwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol gan nodi “gweithredu’n ddwyieithog a hybu’r Gymraeg” fel gweithgaredd addas ar gyfer busnesau.

Ymdrech a chynllunio o’r math hwn (Cynllun Gweithredu Môn-Menai) fyddai’n llesol, os nad yn angenrheidiol, i ardaloedd canrannau uwch y Canolbarth a’r De-orllewin. Nodwn y cyfle pwysig hwn ac anogwn Llywodraeth Cymru a’r awdurdodau lleol perthnasol yn y Canolbarth a’r De-orllewin i ddod ynghyd i osod seiliau tebyg er mwyn gwireddu cynlluniau uchelgeisiol cyffelyb i ddatblygiadau Môn-Menai.

Byddai’n rhesymol dadlau fod sefydliadau Addysg Uwch y Gorllewin yn yrwyr economaidd go bwysig ac mae hybu datblygiadau o gylch Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin yn cynnig cyfle priodol iawn.

Yn gyffredinol mae’n anodd gweld o’r ddogfen *Twf a Swyddi Cynaliadwy* unrhyw dystiolaeth glir o brif-ffrydio’r Gymraeg ac o ystyried y Gymraeg yng nghyswllt twf economaidd ardaloedd y canrannau uwch yn arbennig. Yn ogystal â’r Fframwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, dyma gyfle – a dyma’r angen pennaf – i ymdrechu’n fwiadus a chyson i brif-ffrydio’r Gymraeg o’r bôn i’r brig yn y strategaethau economaidd ac adfywio a chyda phwyslais clir a mesuradwy ar ddatblygu yn ardaloedd y canrannau uwch.

Cynrychiola gweithgareddau Partneriaeth Awyr Agored Eryri enghraifft o arfer dda o brif-ffrydio’r Gymraeg gan ddangos fod modd i fuddiannau datblygu economaidd ac ieithyddol gyd-gerdded yn effeithiol.

A ninnau ar drothwy cymal pellach o fuddsoddiad o’r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 ceir cyfle pellach i fanteisio ar ddatblygiadau allai fod yn llesol o safbwynt ardaloedd y canrannau uchel mewn ffordd nas gwiredwdwyd yn y gorffennol.

Anogwn y Llywodraeth i gynorthwyo’r Mentrau Iaith ac asiantaethau partner addas i ddatblygu prosiectau refeniw a chyfalaf uchelgeisiol a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion adfywio a hybu cyflogaeth yn ardaloedd y canrannau uchel.

Mae rhinweddau amlwg i’r Cynllun Marchnad Lafur ac mae’r uchelgais cenedlaethol i’w gymeradwyo. Anogwn WEFO a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu’r cynllun busnes mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Cymru er mwyn asesu’n effeithiol y modd y gall y cynllun hwn gyflawni amcanion perthnasol strategaethau *Iaith Fyw: Iaith Byw a Twf a Swyddi Cynaliadwy*.

Anogwn y Llywodraeth i sicrhau mewnbwn cynllunio ieithyddol amlwg yn natblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe er mwyn mwylhau y buddion perthnasol yn yr ardaloedd canrannau uwch perthnasol.

Tai a Chynllunio

- 4.15 Rydym yn cymeradwyo ymdrechion Cyngorau Gwynedd a Cheredigion i seilio eu Strategaethau Tai ar dystiolaeth gadarn o'r galw lleol ac i gynnig cymorth ymarferol i ddiwallu'r galw hwn.

Congl Meinciau yw'r esiampl ddiweddar fwyaf cymeradwy a ddaeth ar ein traws hyd yma o ddatblygiad integredig sy'n ceisio cynnal cymunedau Cymraeg. Bu'r datblygiad yn ffrwyth gwaith caled iawn ac mae'n bwysig gweld rhagor o ddatblygiadau cyffelyb sy'n asio'r elfennau hanfodol hyn. Cwestiwn i'r Llywodraeth a'r Cymdeithasau Tai perthnasol yw a allan nhw efelychu'r un polisi iaith blaengar yn ardaloedd y Canolbarth a'r De-orllewin lle mae'r canrannau dipyn yn is?

Ar y blaen o bell ffordd yn y maes hwn (asesu effaith ieithyddol) mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth ddwyn y mater i ganol y maes cynllunio yn gyson ac yn drylwyr. Lle ceir arweiniad gan gyrff megis y rhain dylai'r lleill ddilyn a cheisio efelychu (ac efallai rhannu ychydig o'u hargyhoeddiad yn ogystal).

Rhyngwladol

- 4.16 Yng ngoleuni'r dystiolaeth rhyngwladol ceir neges go greiddiol i'r Grŵp – lle bo datblygiad economaidd llwyddiannus ceir effeithiau ieithyddol cadarnhaol yn gorbwyso effaith negyddol, ond lle ceir datblygiad economaidd gwannach mae rhagolygon yr ieithoedd llai yn waeth. Cred y Grŵp yn gyffredinol fod yn rhaid wrth ddatblygu – mae datblygu llwyddiannus yn iachach ac yn cynnig llwyfan posibiliadau i'r gymuned ieithyddol cyhyd â bod cynllunio ieithyddol yn rhan ganolog o'r cynllunio a'r gweithredu.

5. Bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol

Cefndir

- 5.1 Mae natur cymdogaeth yn gymhleth, ac yn newid yn barhaus. Yn hanesyddol, roedd pobl yn ymwneud â'i gilydd o fewn cylch cyfyng o fewn ardal benodol nad oedd ei ffiniau yn ymestyn ymhell. Ond gyda thwf mewn symudoledd, newidiadau mewn arferion gwaith ac arferion cymdeithasol, yn ogystal â datblygiadau pellgyrhaeddol y cyfryngau cyfathrebu, mae cymunedau daearyddol y Gorllewin yn llawer llai unffurf a sefydlog heddiw nag ar unrhyw adeg. Nid un rhwydwaith a welir o fewn cymdogaeth, ond yn hytrach plethiad o rwydweithiau amrywiol – yn deuluol, yn gymdeithasol, yn grefyddol, yn ddiwylliannol, ac yn y blaen. Ymestynna'r rhwydweithiau cymdeithasol ar draws ffiniau daearyddol, a newidiadau a chyflymder y datblygiadau technolegol yn arwain at newidiadau sylweddol mewn patrymau byw, gwaith a hamdden.

Er y newidiadau sydd ar waith, ystyrir fod y gwerth a roddir i'r gymuned ddaearyddol draddodiadol yn parhau i fod yn elfen allweddol y dylid ei diogelu a'i datblygu. Er sefyllfa fregus y Gymraeg ar sawl ystyr, gwelir fod yna weithgarwch a dyfalbarhad eithriadol sydd wedi nodweddu ein cymdogaethau Cymraeg ers degawdau, ac sy'n dal yn amlwg ar waith heddiw. Y gweithgarwch a'r bwrlwm yma sy'n cyfoethogi'r profiad o berthyn i fro neu ardal benodol ac sy'n amlygu amrywiaeth a dyfnder y profiad cymdeithasol-ddiwylliannol Cymraeg.

Mae'r sefydliadau a'r mudiadau traddodiadol megis Merched y Wawr, MM, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Eisteddfodau Lleol, yr Eisteddfod Genedlaethol, a Phapurau Bro yn parhau i chwarae rhan allweddol ym mywyd cymunedau Cymraeg, a hynny er profi llanw a thrai mewn sawl ardal dros y degawdau. Y sefydliadau yma yw'r 'gyrwyr' sy'n egnïo ymdrechion gwirfoddol ac yn cynnig ystod o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol sy'n rhan annatod o fywyd cymunedol yr ardaloedd Cymraeg. Rhain yw'r cyrff sy'n cynnal y diwylliant Cymraeg ac sy'n creu bwrlwm yn yr iaith.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, gwelwyd datblygiadau sylweddol ymysg nifer o'r sefydliadau traddodiadol sydd wedi eu cefnogi'n ariannol drwy grantiau cymunedol Bwrdd yr Iaith gynt, ac yn awr o gyfeiriad y Llywodraeth yn ogystal â thrwy ffynonellau eraill megis y Loteri. Mae cyfanswm gwariant y Llywodraeth drwy grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg eleni (2013/14) yn £3,557,347.00.

Mae rhwydwaith o Fentrau Iaith yn gweithio'n lleol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fe'u gwelir yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol o bob math ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion, a hynny'n aml mewn perthynas â phartneriaid lleol. Mewn datblygiad diweddar, darparwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i Fentrau Iaith Cymru ar gyfer penodi cydlynedd cenedlaethol. Mae cyfanswm y grantiau ar gyfer y Mentrau Iaith yn y flwyddyn ariannol 2013/14 yn £1,511,614.00.

Ar y llaw arall, mae mudiadau a sefydliadau eraill yn chwarae rhan amlwg ym mywyd cymdeithasol pob ardal. Er nad yw hybu'r Gymraeg yn rhan o'u *raison d'être*, mae ganddynt hwythau rôl allweddol, e.e. Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, pwyllgorau neuaddau pentref, clybiau chwaraeon, dosbarthiadau nos, sioeau amaethyddol.

Un o'r heriau amlycaf sy'n wynebu'r cymdeithasau a'r mudiadau lleol yw'r dasg o gynnal y Gymraeg o fewn eu gweithgareddau, tra'n llwyddo ar yr un pryd i estyn allan a chynnwys unigolion nad ydyn nhw'n medru deall na siarad Cymraeg. Yn y cyswllt hynny, mae'n debygol y gall diffyg hyder ac anghynefindra rhai siaradwyr Cymraeg â dulliau pontio hefyd greu heriau.

Her arall o ran y sefydliadau traddodiadol a'r bywyd cymdeithasol a diwylliannol yw denu pobl i gymryd at yr awenau a chymryd cyfrifoldeb dros eu harwain. Mae athrawon a gweinidogion a fu ar un adeg yn weithgar o fewn eu hardaloedd yn arwain a hybu gweithgarwch diwylliannol bellach gyda llai o ddylanwad yn gymunedol. Yn gyffredinol, gwelir mai pobl hŷn fel arfer sy'n arwain yn lleol, ac mae dyfodol sawl cyfrwng traddodiadol megis y Papur Bro a'r eisteddfod leol yn destun pryder gwirioneddol mewn nifer o ardaloedd.

Er hynny, gwelir tystiolaeth o rai cyfeiriadau megis y Ffermwyr Ifanc, MyW a'r Urdd fod mudiadau'n dal yn feithrinfa ar gyfer arweinyddion cymunedol a diwylliannol. Ym Mro Ddyfi, gwelir hyn yn amlwg wrth i CFFI, Aelwyd yr Urdd a Theatr Maldwyn feithrin arweinwyr cymunedol sy'n sicrhau parhad i'r bwrllwm cymdeithasol a diwylliannol o fewn yr ardal.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd hefyd sefydlu gwyliau cyffrous a phoblogaidd mewn nifer o ardaloedd e.e. Gŵyl Bro Dinefwr yng Nghil y Cwm, Chwilgig ym Mhenllyn, Llanast Llanrwst, Gŵyl Cefni yn Sir Fôn, Gŵyl Nôl a Mlân yn Llangrannog, a Gŵyl Crug Mawr, Aberteifi. Gwelir hefyd ardaloedd yn cynnal gwefannau cymunedol cyfrwng Cymraeg effeithiol, e.e. www.Trefeurig.org

Y Dystiolaeth

- 5.2 Mae gwaith ymchwil Marion Loeffler ar fywiogrwydd rhwydweithiau Cymraeg ardaloedd Abergwaun ac Aberaeron a gyflawnwyd yn 1997 yn ddadansoddiad manwl o swyddogaeth a chyfraniad mudiadau cymunedol megis yr Urdd a Merched y Wawr.⁴¹

Mae'r gwaith yn cynnig casgliadau allweddol sy'n berthnasol heddiw wrth ystyried hyfywedd y Gymraeg yn gymunedol:

⁴¹ Jenkins Geraint H. a Williams Mari A: Ymchwil Marion Loeffler i rwydweithiau Cymraeg yn ardaloedd Abergwaun ac Aberaeron 'Mudiad yr Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd: Beth All Cymdeithasau Lleol ei Gyflawni?', *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, (Caerdydd, 2000), pp. 473–506.)

- fod gan gysylltiadau diwylliannol yn ogystal â chymeriad ieithyddol y gymuned ddylanwad trwm ar y dewis iaith ymysg siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.
- fod bod yn rhan o gymdeithas neilltuol yn dylanwadu mwy ar gymeriad ieithyddol cylch o gyfeillion nag a wna'r iaith a siaredir o fewn y teulu.
- mewn cymuned fechan, fod bywyd cymdeithasol pobl (y tu allan i'w cylch o ffrindiau) yn tueddu i ymwneud â gweithgarwch cymdeithasol gwirfoddol ac â'r achlysuron cymdeithasol a drefnir ganddynt.
- gwelwyd bod yr achlysuron Cymraeg traddodiadol ymhlith y mwyaf poblogaidd yn y ddwy gymuned ymysg pobl ifanc ac oedolion, a bod achlysuron sy'n ymwneud â'r diwylliant Cymraeg yn ganolog i fywyd cymdeithasol y ddwy gymuned a'u bod o ddiddordeb i drwch y boblogaeth.
- po leiaf o Gymraeg a glywir yn gymdeithasol o gymharu â'r Saesneg, lleiaf tebygol y bydd o gael ei derbyn fel y cyfrwng cyfathrebu naturiol yn nhyb ei siaradwyr.
- mae clywed Cymraeg mewn amryfal sefyllfaoedd ac achlysuron cymdeithasol yn meithrin agwedd gadarnhaol a hyder siaradwyr iaith gyntaf ac ail-iaith wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- bod cyfraniad cymdeithasau diwylliannol a digwyddiadau Cymraeg yn allweddol: yn fynyh y rhain yw'r unig gyfle sydd ar gael i siaradwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau megis Abergwaun.

Gwelwyd darlun lled obeithiol yn Aberaeron, ac roedd casgliadau'r ymchwil yn nodi fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth gan ei siaradwyr iaith gyntaf y tu allan i'r ysgol uwchradd a'r cylch cyfeillion, a dangosai'r genhedlaeth iau fwy o hyder na'r rhai hŷn. Er hynny, amlygwyd gagendor amlwg yn y defnydd o'r iaith rhwng siaradwyr iaith gyntaf a mwyafrif y siaradwyr ail-iaith.

Roedd profiadau siaradwyr Cymraeg yn Abergwaun yn amrywio yn ôl oedran. Oherwydd natur glos y gymuned, roedd digon o gyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg gan y genhedlaeth hŷn. O safbwynt pobl ifanc, gwelwyd cyfleoedd i gymdeithasu'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg (mewn sefyllfa nad oedd yn amlwg ddiwylliannol) yn prinhau, gyda'r canlyniad fod diffyg hyder ac agwedd lai cadarnhaol at yr iaith yn amlwg. Ymddangosai i'r bobl ifanc fod y Gymraeg wedi ei chyfyngu i ddigwyddiadau a chymdeithasau amlwg Gymraeg.

Neges allweddol Loeffler yn y gwaith yma oedd fod rhaid sicrhau rhagor o ddatblygiadau ar raddfa fechan o fewn cymunedau er mwyn cynnig cyfleoedd i siaradwyr iaith gyntaf, siaradwyr ail-iaith a dysgwyr ddefnyddio'r iaith.

- 5.3 Mae'r gwaith ymchwil diweddarach yma a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith yn 2006 i *Rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc*⁴², ac a gyflawnwyd gan Ganolfan Ymchwil Ewrop (Cymru) a Cwmni Iaith, yn cynnig dadansoddiad pellach yn ogystal â dyfnhau'r gydnabyddiaeth i'r ffactorau sydd ar waith o safbwynt pobl ifanc.

Roedd y gwaith ymchwil wedi ei seilio ar astudiaeth fanwl o rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc rhwng 13 a 17 oed mewn 12 o ardaloedd, sef:

- Abergwaun
- Aberystwyth
- Amlwch
- Y Bala
- Llanbedr PS
- Llandysul ac Aberteifi
- Llangefni
- Llanrwst
- Machynlleth
- Pwllheli
- Ystradgynlais

Roedd prif gasgliadau'r ymchwil yn nodi:

- mai'r prif ffactor oedd yn diffinio defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc yw iaith y cartref
- fod tri math o gymuned ieithyddol wedi eu nodi wedi'u seilio ar y berthynas rhwng aelodau'r gwahanol grwpiau ieithyddol
- Math 1: Cymunedau sy'n cymathu
- Math 2: Grwpiau ieithyddol pendant
- Math 3: Cymunedau wedi'u cymathu

Mae'r gwaith ymchwil yma yn cynnig arweiniad clir yn y gwaith o gynllunio ar gyfer cynyddu defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Effaith mudoleddd ar fywyd cymdeithasol

- 5.4 Heb os, mae mudoleddd yn un o'r ffactorau sydd yn newid demograffeg yr iaith ar lefel gymunedol. Mae'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael eu broydd genedigol yn niweidiol o ran hyfywedd a bwrlwm bywyd cymdeithasol Cymraeg naturiol o fewn y gymuned. Mae i fewnfudo hefyd ei sgil-efeithiau a bu'n destun pryder i'r rhelyw o'r cymunedau dan sylw yn ystod y degawdau diwethaf.

⁴²: Canolfan Ymchwil Ewrop (Cymru) a Cwmni Iaith: *Rwydweithiau Cymdeithasol a defnydd iaith Pobl ifanc*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ceir sylw i'r mewnlifiad a chymathu newydd-ddyfodiaid yng nghyfrol Yr Ieithoedd Llai⁴³. Ffrwyth cynhadledd a gynhaliwyd yn 1991 gan Gydweithgor Dwyieithrwydd yn Nyfed ar y testun 'Cyfannu, Cymathu a Chynllunio' yw ysgrifau'r gyfrol yma. Dengys fod nifer o destunau allweddol y gynhadledd honno yn berthnasol heddiw, sef....

- cryfhau seiliau'r ieithoedd llai eu defnydd drwy gynllunio ieithyddol trefnus mewn llywodraeth leol a sefydliadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau.
- marchnata ieithoedd llai eu defnydd trwy greu ymwybyddiaeth o'u bodolaeth ac o'u pwysigrwydd trwy gyfrwng addysg gymunedol drefnus.
- annog a galluogi siaradwyr yr ieithoedd llai i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i ofynion gwaith eu rhanbarthau, a thrwy hynny leihau'r angen am fudo gwaith-berthnasol i mewn ac allan, gan ganiatáu felly fwy o amser ar gyfer cymathu.
- sicrhau bod darpariaeth effeithlon ar gael yn gyfleus i newydd-ddyfodiaid ar gyfer dysgu'r iaith lai.
- cymell datblygu mentrau cymunedol gyda'r nod o gynyddu bywiogrwydd a helaethu peuoedd yr ieithoedd llai eu defnydd.

Mae Language Revitalization yn cynnwys pennod ar waith ymchwil cynhwysfawr yn 1997 ar sefyllfa'r Gymraeg yn Nyffryn Teifi gan Colin Williams a Jeremy Evas.⁴⁴ Mae'n cynnig dadansoddiad manwl o sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal yn y 90au, ardal a welodd fewnfudiad sylweddol yn negawd olaf yr ugeinfed ganrif. Amlyga'r gwaith nifer o faterion allweddol sy'n nodweddiadol o heriau'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg, megis:

- mewnlifiad ar raddfa eang
- allfudo
- y defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu
- diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder i'w defnyddio ble mae dewis ar gael
- niferoedd isel o oedolion yn dysgu'r iaith
- tensiynau rhwng grwpiau ieithyddol a dwy gymuned yn bodoli ar wahân

⁴³ Yr Ieithoedd Llai: Pennod Cymathu Newydd-ddyfodiaid, gol. Llinos Dafis 1991

⁴⁴ Williams, Colin H., *Language Revitalization Policy and Planning in Wales*, Gwasg Prifysgol Cymru. Pennod Declining Density Jeremy Evas

Canolbwyntia gwaith ymchwil Delyth Morris ar batrymau rhyngweithio cymdeithasol o fewn Cymunedau Ynys Môn yn yr wythdegau⁴⁵. Roedd prif gasgliadau'r ymchwil yn nodi fod y patrymau rhwydweithiau yn rhannu i dri grŵp penodol sef:

- Grŵp 1: y siaradwyr Cymraeg oedd â'r nifer mwyaf o rwydweithiau a'r rhai mwyaf dwys, yn ogystal â'r mwyaf o gysylltiadau
- Grŵp 2: y mewnfudwyr Saesneg eu hiaith oedd â'r nifer lleiaf o rwydweithiau a'r lleiaf dwys, yn ogystal â'r lleiaf o gysylltiadau
- Grŵp 3: y mewnfudwyr Cymraeg eu hiaith oedd â rhwydweithiau o faint a dwyster rhwng pegynau'r grwpiau uchod

O'r gwaith maes, nodwyd fod y ddwy gymuned iaith, er yn byw ochr yn ochr o fewn y gymuned, yn rhyngweithio ar wahân. Heb fedru'r iaith, doedd y di-Gymraeg ddim yn perthyn i'r sefydliadau lleol Cymraeg eu hiaith, ac i bob pwrpas, roedd y ddwy gymuned iaith yn bodoli ar wahân.

Ar y cyfan, gwelwyd mwy o debygrwydd rhwng y grwpiau siaradwyr Cymraeg 1 a 2, gan arwain i'r casgliad mae'r iaith oedd y ffactor bwysicaf wrth strwythuro rhwydweithiau yn lleol.

Yn ôl gwaith ymchwil *Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-Orllewin Cymru* gan Dylan Phillips a Catrin Thomas yn 2001 amlygwyd bod cyswllt agos rhwng twristiaeth a mewnfudo. Gwelir effaith hyn ar nifer o ardaloedd glan môr a hefyd ardaloedd o harddwch naturiol, ardaloedd sydd wedi gweld dirywiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg dros y tri degawd diwethaf. Nodwyd bod nifer helaeth o fewnfudwyr wedi symud i'r ardal o ganlyniad i ymweliadau yn y gorffennol. Dengys ymchwil i dueddiadau newydd ddyfodiaid gan Beaufort yn 2003 bod awydd gan nifer i integreiddio yn llawn i'w cymuned newydd gan fynd ati i ddysgu'r iaith.

Er mwyn hwyluso hyn sefydlodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg nifer o gynlluniau cymathu mewnfudwyr o fewn ardaloedd megis Pen Llŷn, de-orllewin Môn, Penllyn y Bala a Chonwy wledig. Nod y cynlluniau hyn oedd penodi nifer o hwyluswyr cymunedol fyddai yn gwneud cysylltiad â newydd-ddyfodiaid gan gynnig arweiniad a chefnogaeth iddynt fod yn rhan o'r gymuned.

Gwerthuswyd y cynlluniau hyn gan ymgynghorwyr allanol ac eto gwelwyd bod y cynlluniau hyn wedi bod yn adnodd gwerthfawr a bod rôl a chysylltiad yr hwylusydd cymunedol yn allweddol i lwyddiant y cynllun. Amlygwyd hefyd bod rôl y swyddogion o greu ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'i diwylliant wedi bod yn amhrisiadwy ac yn annog newydd-ddyfodiaid i sylweddoli bod gallu'r Gymraeg yn agor cymaint o ddrysau cymdeithasol a diwylliannol.

⁴⁵ Morris, D., *Rhwydweithiau cymdeithasol ym Môn* Contemporary Wales
<http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/listarticles/llgc-id:1179046/llgc-id:1179353>

Elfen arall y bu'r Bwrdd yn ymwneud â hi oedd cydweithio gyda'r Mentrau Iaith yn y Gogledd a'r De-orllewin i sefydlu'r Pecyn Croeso. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth darpar fewnfudwyr am y Gymraeg cyn iddynt benderfynu symud i'w cymuned newydd. Roedd y cynllun hwn yn annog arwerthwyr tai i ddosbarthu pecynnau i ddarpar brynwyr tai. Gwelwyd bod nifer o arwerthwyr tai yn gweld y cynllun hwn fel dull effeithiol i addysgu pobl am y gymuned y maent yn bwriadu byw ynddi tra roedd eraill yn amau bod cynllun o'r fath yn peryglu gwerthiant.

Wrth werthuso'r cynllun hwn amlygwyd bod y nifer o fewnfudwyr yn gweld y pecyn yn un defnyddiol ac yn rhoi arweiniad iddynt am fywyd yn y gymuned Gymraeg.

Gwaith ymgynghori diweddar gan gynnwys cyflwyniadau i'r Grŵp

Grwpiau Ffocws

5.5 Fel rhan o broses ymgynghori y Grŵp, cynhaliwyd dau grŵp ffocws sy'n cyfrannu at y dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr adroddiad yma. Nodau'r grwpiau oedd:

- clywed barn dysgwyr Cymraeg (sydd wedi symud i dde Ceredigion o ardaloedd eraill i fyw) ar sut mae modd ennyn diddordeb newydd-ddyfodiaid i ddeall perthnasedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn a'u hannog i fynd ati i'w dysgu
- clywed barn unigolion Cymraeg sydd wedi symud i Gaerdydd o gadarnleoedd y Gymraeg yng ngogledd a de-orllewin Cymru

Ymhlith y canfyddiadau, gwelwyd yn achos y grŵp yng Nghaerdydd, mai dychwelyd i'w hardaloedd genedigol fyddai'r ddelfryd i bawb pe na bai ffactorau penodol yn rhwystro hynny. Roedd y grŵp o fewnfudwyr yn Aberteifi i gyd yn gytŷn fod dysgu Cymraeg wedi eu cynorthwyo i "setlo" ac integreiddio yn yr ardal.

Gweler adroddiadau llawn ar y gwaith yma yn Atodiadau 4 a 5.

Cymraeg i Oedolion

5.6 O safbwynt ardaloedd canrannau uwch, fe'u gwasanaethir o dan y strwythur presennol gan dair Canolfan. Er bod y dull yn llai na manwl ac yn amcangyfrif bras iawn, gellir dod i'r casgliad fod canran a nifer yr oedolion sy'n mynd ati i ddilyn cyrsiau yn parhau'n is na'r hyn sydd ei angen i weld cyfraniad positif at gynyddu niferoedd siaradwyr:

Gwynedd: 1,500 (sef 3.9% o'r boblogaeth 16oed+ sy'n ddi-Gymraeg);

Môn: 560 (2.1%)

Ceredigion: 1,075 (2.8%)

Sir Gâr: 1,040 (1.2%)

Yn galonogol, fe wnaeth arolwg diweddar o ddysgwyr Canolfan y Gogledd ddarparu tystiolaeth bositif iawn o fodlonrwydd y dysgwyr gyda'r ddarpariaeth a nodi hefyd fod canran uchel ohonynt (ar bob lefel) yn dweud eu bod yn defnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarthiadau. Ystyrir yn y maes dysgu

ieithoedd llai fod cymhelliant y dysgwr yn bwysig ac, yn achos dysgwyr y Gogledd, ymhlith eu rhesymau pennaf dros ddysgu oedd siarad gyda'r plant a'u gyrfa.

Gan fod adroddiad cynhwysfawr ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion newydd ei gyhoeddi,⁴⁶ mae'r grŵp yn awyddus i gefnogi argymhellion yr adroddiad ac yn cytuno gyda sylw Cadeirydd y Grŵp Dr Haydn Edwards am bwysigrwydd y maes, a bod yr amser wedi dod "i ni fel cenedl *godi golygon*".

Theatr Felinfach a Phwerdai Ceredigion

- 5.7 Sefydlwyd Theatr Felinfach ym 1972 gan Adran Addysg Cyngor Sir Aberteifi, ac ers hynny, bu'r Theatr yn fwrwm o greadigrwydd ac o weithgarwch diwylliannol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ethos a'r egwyddorion gwreiddiol o fod yn gweithio ar gryfderau a photensial cymdogaethau Cymraeg cynhenid Ceredigion yn dal yn berthnasol ac yn weithredol heddiw, ac yn cynnig model effeithiol o weithredu ar sail egwyddorion cadarn o fod yn gynhwysol ac yn agored i bawb. Cynrychiola Theatr Felinfach arfer dda mewn gweithgareddau ar gyfer grwpiau amrywiol o ran oedran a chefnidir ac sy'n eu cymdeithasoli'n llwyddiannus yn yr iaith Gymraeg. I'r perwyl hwn gallai cymdogaethau eraill elwa'n fawr o fabwysiadu y model hwn.

Tyfodd cysyniad y **Pwerdai** o waith addysg gymunedol Theatr Felinfach, ac yn gynllun arbrol a sefydlwyd mewn 4 ardal i geisio mynd i'r afael â sefyllfa fregus cymdogaethau Cymraeg cefn gwlad Ceredigion. Cyhoeddwyd *Llawlyfr y Pwerdai* yn 2009 sy'n cynnig arweiniad ymarferol i gynorthwyo cymdogaethau Cymraeg i ymateb yn gadarnhaol i'r her sy'n eu hwynebu, yn ogystal ag enghreifftiau o arfer dda yng Ngheredigion mewn perthynas â hybu gweithgareddau cymdeithasol.

Partneriaith Aman Tawe

- 5.8 O ganlyniad i ddadansoddiadau ystadegol ac adroddiad manwl gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011, nodwyd Aman Tawe fel ardal o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Amlygwyd sefyllfa fregus y Gymraeg yn yr ardal a sefydlwyd **Partneriaith** Aman Tawe fel cynllun peilot o fodel cynllunio ieithyddol cyfannol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r heriau o ran y Gymraeg o fewn yr ardal, yn ogystal â chynigion ar gyfer camau gweithredu arbennig i adfer y sefyllfa. Gwelir o ddarllen yr adroddiad yma fod nifer o'r cynigion hynny ar waith erbyn hyn, a'r gwaith o greu strategaethau a chynlluniau wedi arwain at weithredu cadarnhaol a chyffrous er lles y Gymraeg ar draws yr ardal.

Mae'r Cynllun yn gweithredu mewn ardal gymharol fechan ar draws ffiniau tair sir, sef Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot a Phowys ac yn cael ei redeg ar y

⁴⁶ Yn ystod haf 2012, sefydlwyd Grŵp gan Lywodraeth Cymru i adolygu maes Cymraeg i Oedolion yn nhermau cyrhaeddiad dysgwyr, cynnwys cwricwlaid, strwythurau darparu a gwerth am arian. Cyhoeddwyd adroddiad 'Codi Golygon' ym Medi 2013 yn crynhoi canfyddiadau'r Grŵp Adolygu a'u hargymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a strwythurau'r maes yn y dyfodol.

cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Menter Bro Dinefwr, Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Menter Brycheiniog, gan gydweithio'n agos â'r tri awdurdod lleol a'r partneriaid strategol eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal. Cryfder di-os y cynllun yw'r modd y mae'n gweithredu mewn ardal fechan ar draws ffiniau daearyddol, a hynny ar lefel ymarferol a strategol. Mae modd felly nodi anghenion lleol, a chanolbwyntio ffocws ac egni lle mae'r angen mwyaf a'r cyfleoedd mwyaf i wneud gwahaniaeth. Er enghraifft, petai 37 yn fwy o bobl wedi nodi eu bod yn medru'r iaith yng nghymuned Brynmanan yng Nghyfrifiad 2011, byddai'r ardal yn parhau â dros 70% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

Mae arolygon lleol wedi digwydd hefyd i edrych ar faterion megis y defnydd o'r iaith gan fusnesau, y gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn Gymraeg, a'r darpariaethau ieuencid a hamdden. Eto, mae modd gweld y prif wendidau drwy hyn a phenderfynu ar fan cychwyn wrth gynllunio ymyrraeth benodol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Cafodd chwe maes strategol eu nodi sy'n cwmparu pob agwedd ar fywyd, sef iaith yn y cartref; y gymuned; plant a phobl ifanc; ysgol a chymuned; gwaith, iaith a'r economi; a hefyd hyrwyddo a marchnata.

Mae prosiectau llwyddiannus wedi eu rhedeg eisoes megis ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf gyda busnesau; gweithio gyda rhieni i newid eu harferion iaith; cynllun Radio Aman Tawe ar y we, a ddenodd bron i 1,500 o wrandawyr ar gyfer un rhaglen; ynghyd â llu o weithgareddau cymdeithasol, oll â'r un nod o newid arferion ieithyddol unigolion a chymunedau a chodi hyder y trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Gwelir mwy a mwy o gyrff a mudiadau lleol yn cysylltu am gyngor neu gymorth i drefnu digwyddiadau Cymraeg - arwydd pendant o'r bwrlwm cynyddol.

Elfen bwysig o'r prosiect yw'r gwaith i gynyddu capasiti y cymunedau eu hunain i gynyddu gweithgareddau a gwasanaethau Cymraeg. Sefydlwyd 4 Pwerdy Iaith o fewn yr ardal gan gynnig cyfleoedd o'r newydd i bobl leol gael mynegi eu barn ynghylch dyfodol y Gymraeg o fewn eu hardaloedd. Arweinir y gwaith gan swyddogion a gyflogir drwy grant gan y Llywodraeth i Fentrau Iaith Dinefwr a Chastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â dau swyddog o Uned y Gymraeg yn y Llywodraeth. Mae'r cynllun newydd yma wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg i ystod o oeddrannau ar draws yr ardal. Yn 2012/13, cynhaliwyd cyfanswm o 175 o weithgareddau.

Mae'r model yma o weithredu yn un sy'n haeddu ystyriaeth ar gyfer ardaloedd eraill. Mae'r Grŵp yn ymwybodol fod Prifysgol Caerdydd, ar ran y Llywodraeth, yn cynnal adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith yn ogystal â Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe ar hyn o bryd. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn yr Hydref.

Dyffryn Nantlle 2020

- 5.9 Yng Ngwynedd gwelwyd sefydlu'r grŵp lleol **Dyffryn Nantlle 2020**. Mewn tystiolaeth a roddwyd i'r Grŵp, mynegwyd bod dwy gymuned yn cyd-fyw yn gyfochrog ac nad oes 'empathy' gan y di-Gymraeg tuag at yr iaith o fewn yr ardal. Mae'r grŵp yn gweithio tuag at greu pecyn croeso i'w ddosbarthu yn lleol i newydd-ddyfodiaid; creu tectyn i fesur 'ôl-troed ieithyddol unigolyn'; a sefydlu cynllun mentora ble bydd Cymry Cymraeg yn cefnogi ac yn cynorthwyo unigolion di-Gymraeg i ddysgu a defnyddio'r iaith.

'Gweithredu'n Lleol'

- 5.10 Mae **'Gweithredu'n Lleol'**⁴⁷, sef adnodd a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith ym mis Chwefror 2012, wedi arwain at sefydlu nifer o grwpiau ar gyfer gweithredu o blaid y Gymraeg o fewn eu cymdogaeth lleol. Derbyniwyd tystiolaeth gan y Grŵp ar yr hyn sydd gan yr adnodd i'w gynnis i grwpiau sy'n awyddus i weithio er lles y Gymraeg ar lawr gwlad.

Mae'r adnodd yn cynnig canllawiau ar gyfer asesu sefyllfa'r Gymraeg ar y lefel micro, ac yn cynnig fframwaith sydd wedi ei strwythuro yn ôl themau perthnasol i hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd sydd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.

Un o'r themâu allweddol o fewn y Fframwaith yw Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol, a cheir cyfres o ddangosyddion perthnasol a ddefnyddir fel mesuryddion i fesur 'iechyd' y Gymraeg o fewn y gymdogaeth. Mae'r dangosyddion ar gyfer y maes yma yn cynnwys:

hyfforddiant perthnasol ar gyfer swyddogion Mentrau Iaith a Chynlluniau Gweithredu Iaith er mwyn eu harfogi i ddefnyddio'r adnodd, a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol wrth i'r gwaith fynd rhagddo mewn 15 o ardaloedd.

Roedd y prosiectau a nodwyd neu a ysgogwyd yn cynnwys:

- mwy o ddefnydd cymunedol ar offer cyfieithu ar y pryd
- gwaith cefnogi teuluoedd lleol
- cynhyrchu pecyn croeso a chynllun ymestyn llan lleol
- hybu dwyieithrwydd ymysg busnesau lleol
- rhaglen o gyngherddau
- rhoi cefnogaeth i gymreigio'r Cylch Ti a Fi lleol
- cymreigio'r Clwb Pêl-droed lleol
- cymreigio'r Ganolfan Hamdden lleol
- cynnal Ffair Gymdeithasol i rannu gwybodaeth am gyfleoedd cymdeithasol Cymraeg
- arwyddion i godi balchder bro

⁴⁷ *Gweithredu'n Lleol (fframwaith ar gyfer hwyluso cynllunio ieithyddol micro ymysg cymdogaethau Cymraeg)*
Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012

- sefydlu meithrinfa blant Gymraeg
- cynllun i Gymreigio iaith yr iard yn yr ysgol leol
- creu pantomeim cymunedol
- diwrnod hwyl i'r teulu
- sefydlu Grŵp Adfywio Bro

Gwelir fod yna botensial i ddatblygu'r gwaith yma ymhellach, ac mae adroddiad yn cynnig arweiniad ar hynny:

- bod y pecyn adnodd ar gyfer gweithredu cynllunio iaith micro gyda chymdogaethau Cymraeg – 'Gweithredu'n Lleol' – wedi llwyddo a'i fod yn arf ymarferol a defnyddiol ar gyfer ysgogi cynllunio iaith micro ar y cyd â grwpiau gweithredu lleol.
- bod y broses a amlinellwyd yn y canllaw ysgrifenedig yn profi'n llwyddiannus ac yn fodd i hwyluswyr cynlluniau iaith lleol roi technegau datblygu cymunedol priodol ar waith gyda grwpiau gweithredu o blith cymdogaethau Cymraeg.
- bod y Fframwaith Asesu yn ysgogi trafodaeth eang a phriodol a'i fod yn fodd i grwpiau lleol ddod i gasgliadau cadarn ynglŷn â'u blaenoriaethau gweithredol.
- bod y Cofnod Electronig yn hwyluso'r broses o gofnodi a chynllunio.
- bod angen i asiantaethau lleol sydd eisiau rhoi proses 'Gweithredu'n Lleol' ar waith fod yn effro i'r ymrwymiad mewn amser, adnoddau a sgiliau rhyngbersonol sydd ei angen i'w gyflawni'n effeithiol.
- bod angen arweiniad a hyfforddiant penodol ar hwyluswyr dibrofiad er mwyn eu hysgogi a'u cefnogi yn y gwaith.
- bod angen ystyried sefydlu Cronfa Ddatblygu er mwyn hwyluso ambell i brosiect a nodir o ganlyniad i ddilyn proses 'Gweithredu'n Lleol'.
- bod lle i ddatblygu eto ar gyrsiau hyfforddi galwedigaethol mewn perthynas â chynllunio iaith cymunedol at ddefnydd swyddogion Mentrau Iaith ac asiantaethau tebyg.

Bro Ddyfi

5.11 Fe dderbyniodd y grŵp gyflwyniad ar adroddiad a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith ar sefyllfa'r Gymraeg yn ardal Bro Ddyfi – ardal sy'n meddu ar hunaniaeth gref. Ymddengys o'r gwaith hwnnw fod yr heriau sy'n wynebu'r Gymraeg o fewn yr ardal yn cynnwys:

- y gyfradd sy'n trosglwyddo'r iaith ymysg teuluoedd cymysg yn waeth na chyfartaledd Cymru
- mewnlifiad sylweddol wedi digwydd yn yr ardal

- arolwg defnydd iaith yn dangos mai hanner poblogaeth Powys sy'n gallu siarad yr iaith sy'n ei defnyddio bob dydd
- y defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc y tu allan i'r ysgol yn gwanhau
- dwy gymuned ieithyddol ar wahân yn bodoli yn yr ardal
- canolbwynt traddodiadol ardal Bro Ddyfi yw tref Machynlleth, ond gwelwyd bod trefi megis Aberystwyth a'r Amwythig yn denu'r boblogaeth o ran siopa a bwrlwm cymdeithasol.

Ar y llaw arall, adroddwyd am faterion cadarnhaol, sy'n fynegbyst at weithredu pwrpasol i'w diogelu a'u cryfhau:

- nifer uchel o bobl ifanc yr ardal am aros yn eu cynefin neu ddychwelyd yno – angen dysgu o hyn ar gyfer ardaloedd eraill
- mudiadau traddodiadol yn darparu rhwydwaith cymdeithasol cryf i siaradwyr Cymraeg yr ardal
- tystiolaeth o waith y CFFI, Aelwyd yr Urdd a Theatr Maldwyn yn darparu rhwydwaith cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg yr ardal sy'n meithrin arweinwyr cymunedol
- rhwydwaith cryf o fudiadau ieuenctid a chymunedol Cymraeg megis Aelwydydd yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, corau a chapeli.

Bwrlwm Trefol

- 5.12 Bu datblygiadau y blynyddoedd diwethaf yng Nghaernarfon a'r cyffiniau yn destun tystiolaeth a roddwyd gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Gwynedd.

Mae datblygiad Caernarfon fel cyrchfan waith sy'n denu siaradwyr Cymraeg wedi creu sefyllfa gadarnhaol i'r iaith a hynny, nid yn unig o fewn y dref ei hun, ond mewn pentrefi cyfagos megis Bontnewydd, Bethel, Llanrug a'r Felinheli. Mae ystod o gyfleoedd gwaith a gynigir drwy weithleoedd sylweddol megis y Cyngor Sir, y cyfryngau a'r celfyddydau, a nifer o fusnesau micro eraill sy'n rhoi pwyslais ar gyflogi siaradwyr Cymraeg, yn cael dylanwad llesol ar fwrlwm cymdeithasol yr ardal. Gwelir y ffactorau yma yn denu teuluoedd ifanc i ddewis symud i ardal sy'n ymddangos yn gymuned Gymraeg ffyniannus.

Byddai cryfhau ardaloedd trefol eraill ar draws y Gorllewin yn economaidd, a chan roi statws uchel i'r Gymraeg o fewn gweithleoedd, yn cael dylanwad cadarnhaol o ran bwrlwm cymdeithasol yr ardaloedd hynny, gan sicrhau delwedd gyfoes a deniadol i bobl ifanc mewn ardaloedd trefol megis Llanelli, Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor.

Newidiadau mewn arferion rhyngweithio cymdeithasol a'r cyfryngau newydd

- 5.13 Er bod y defnydd o'r Gymraeg o fewn cymuned ddaearyddol yn parhau i fod yn hynod bwysig, mae natur rhyngweithio cymdeithasol yn newid yn gyflym, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae patrymau teithio, gweithio a chyfathrebu wedi newid cymaint fel bod cylch cymdeithasol llawer o bobl wedi ehangu y tu

hwnt i'w hardal leol. Effaith hyn yn aml yw diffyg diddordeb ac amser i ymwneud â chymdogion a bywyd cymdeithasol lleol. Erbyn hyn, mae bron pawb o fewn y gymdogaeth yn perthyn i rwydweithiau ehangach (o ddiddordeb ac yn ddaearyddol) yn ogystal â'r rhwydweithiau lleol.

Y newid amlwg arall o arwyddocâd yw dylanwad y we a'r cyfryngau cymdeithasol newydd. Mae'r datblygiadau technolegol yma wedi newid yn syfrdanol y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau, ac yn faes sy'n newid yn gyson ac yn gyflym. Mae gan yr holl ffurfiau gwahanol ar y cyfryngau newydd yma ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae angen i'r Gymraeg a'i siaradwyr fanteisio ar gyfleoedd cyffrous a newydd i sicrhau 'bwlwm' a hyfywedd y Gymraeg o fewn y rhwydweithiau newydd yma. Mae hefyd angen annog a chefnogi sefydliadau cymunedol Cymraeg i sicrhau mwy o bresenoldeb ar-lein.

I hybu ymdrechion yn y maes yma, mae'r Llywodraeth newydd gyhoeddi cynllun i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg a chyfryngau digidol Cymraeg, gan neilltuo £250,000 yn flynyddol dros 3 blynedd ar gyfer hynny. Mae S4C hefyd wedi lansio cronfa ddigidol werth 31 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o 4 blynedd.

Datblygiad cyffrous ac uchelgeisiol o fewn y maes yma yw sefydlu Radio Beca – sef radio cymunedol ar gyfer siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Mae OFCOM eisoes wedi dyfarnu trwydded ddarlledu i gynllun Radio Beca sydd wedi ei sefydlu gan grŵp o Gymry'r ardal, ac mae cynrychiolwyr o Gyfeillion Radio Ceredigion, Cwmni Cydweithredol Theatr Troed y Rhiw, Mentrau Iaith Lleol a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant wedi dod at ei gilydd er mwyn cynnig gwasanaeth radio lleol unigryw cyfrwng Cymraeg yn y De-orllewin.

Yn gefndir i'r cynllun i sefydlu Radio Beca mae'r anfodlonrwydd gyda darpariaeth Gymraeg Radio Ceredigion, ers i Town and Country Broadcasting brynu'r orsaf.

Disgwylir i'r orsaf ddechrau darlledu yn fuan.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif gwelwyd y cyfryngau darlledu yn chwarae rôl allweddol, drwy gyfrwng y radio a'r teledu, i ddatblygu a diogelu'r Gymraeg. Bydd gan y cyfryngau digidol newydd yma gyfraniad yr un mor allweddol i ddyfodol y Gymraeg yn ystod y ganrif yma.

Casgliadau

- 5.14 Bod presenoldeb a llwyddiant y sefydliadau traddodiadol yn gyfraniad allweddol i hyfywedd ieithyddol y cymdogaethau Cymraeg.
- 5.15 Bod parhad y gweithgarwch drwy'r sefydliadau yma yn dibynnu ar ymroddiad gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-flino i sicrhau eu parhad. Mae'n hanfodol fod pob sefydliad yn ystyried sut mae sicrhau parhad i'r arweinyddiaeth i'r dyfodol.

- 5.16 “Beth yw sefyllfa’r Gymraeg yn y gymdogaeth hon?” Rhaid cofio nad yw cymdogaethau yn unfurf ac mae i bob cymdogaeth ei nodweddion a’i heriau ei hun. Mae angen datblygu gallu cymdogaethau i adnabod eu hanghenion a’u potensial eu hunain, a blaenoriaethu a gweithredu yn unol â hynny. Mae model *Partneriaith* Aman Tawe a sefydlwyd i ymateb i’r her o gynnal y Gymraeg yno yn fodel y gellir ystyried ei weithredu mewn ardaloedd eraill o arwyddocâd ieithyddol arbennig.
- 5.17 Cynrychiola Theatr Felinfach arfer dda mewn gweithgareddau ar gyfer grwpiau amrywiol o ran oedran a chefnidir ac sy’n eu cymdeithasoli’n llwyddiannus yn yr iaith Gymraeg. I’r perwyl hwn gallai cymdogaethau eraill elwa’n fawr o fabwysiadu y model hwn.
- 5.17 Bod ‘Gweithredu’n Lleol’ yn adnodd pwrpasol ar gyfer ei ddefnyddio a’i ddatblygu i gynorthwyo gyda’r gwaith o hybu’r Gymraeg ar y lefel micro.
- 5.18 Y dylid annog pob sefydliad i ystyried dulliau cyfoes o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth drwy’r we a dulliau electronig cyfoes, gan sicrhau fod y diwylliant cynhenid yn endid amlwg a gweladwy...
- o ran codi a chynnal hyder y gymdogaeth
 - o ran galluogi pawb o fewn y gymdogaeth i gyfranogi
 - sy’n creu teimlad cryf o fwrlwm yn y gymuned, ac o ‘falchder bro’.
- 5.19 Yr angen i fod yn gynhwysol a bod denu cefnogaeth trigolion di-Gymraeg lleol yn bwysig. Mae angen i sefydliadau gymathu mewnfudwyr tra ar yr un pryd yn cynnal y Gymraeg fel y prif ac unig gyfrwng. Mae hyn yn gwahaniaethu o un sefydliad i’r llall, ac o un ardal i’r llall. Dylai pob sefydliad edrych ar eu prosesau i ddenu aelodau newydd o blith mewnfudwyr a dysgwyr.
- 5.20 Y byddai codi pont iaith a diwylliant rhwng ysgol, rhieni a chymdogaeth yn cynnig strwythur ar gyfer cryfhau’r ymdeimlad o gymdogaeth. Dylid ystyried cynnal prosiect peilot i gyflogi swyddogion pontio sy’n gweithio’n agos gyda chlwstwr o ysgolion mewn nifer penodol o ardaloedd.
- 5.21 Bod angen cryfhau ardaloedd trefol yn economaidd gan sicrhau statws uchel i’r Gymraeg o fewn gweithleoedd er mwyn cael dylanwad cadarnhaol o ran bwrlwm cymdeithasol yr ardaloedd hynny. Mae angen sicrhau delwedd gyfoes a deniadol i gymdeithasu yn Gymraeg ymhlith pobl ifanc mewn ardaloedd trefol megis Llanelli, Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor.

Rhan 3: Y cynllun gwaith

Argymhelliad 1	Hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau
Camau Gweithredu	○ Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp gweithredu fydd yn gweithio i lunio strategaeth a gweithredu cynllun datblygu newydd ar gyfer ardaloedd Bangor, Caerfyrddin ac Aberystwyth a fydd yn asio adfywiad economaidd a gwelliannau seilwaith gyda thwf ieithyddol.
Effaith	○ Cynyddu cyflogaeth a chyfleoedd economaidd mewn trefi allweddol yn ardaloedd y canrannau uwch ○ Darparu sail a chyfle newydd ar gyfer prif-ffrydio'r Gymraeg yng nghynlluniau gweithredu dinas-ranbarthau ardaloedd y canrannau uwch ○ Gwrthdroi tueddiadau demograffig negyddol sy'n gwanhau ardaloedd y canrannau uwch
Cyfrifoldeb	Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd

Argymhelliad 2	Gwella effaith polisiâu'r Llywodraeth ar y Gymraeg gan ddefnyddio Asesiadau Effaith leithyddol trwy NCT 20 a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn gallu hyrwyddo cynllunio rhanbarthol deinamig a chadarnhaol sydd hefyd yn llesol o safbwynt y Gymraeg.
Camau Gweithredu	○ Llywodraeth Cymru i gyhoeddi NCT 20 ac arweiniad clir ar Asesu Effaith leithyddol mewn modd cyfannol ac ar gyfer ceisiadau unigol perthnasol ○ Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio ac awdurdodau lleol i sicrhau datblygiad safonol a defnydd cyson o Asesiadau Effaith leithyddol ○ Llywodraeth Cymru i ychwanegu "cefnogi'r Gymraeg a gweithredu'n ddwyieithog" fel rhan o'r Fframwaith Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol ○ Llywodraeth Cymru i secondio timoedd profiadol i brif-ffrydio'r Gymraeg fel elfen amlwg o'i phrif strategaethau datblygu economaidd ○ Comisiynu ymchwil i ystyried cyd-berthynas materion cyfreithiol, polisi a gweithredol ym meysydd cynllunio, tai, datblygiad economaidd a'r iaith Gymraeg.
Effaith	○ Cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg mewn perthynas â materion cynllunio a lliniaru effeithiau negyddol ○ Gwella cysondeb Asesiadau Effaith leithyddol ○ Cefnogi amcan y Llywodraeth o brif-ffrydio'r Gymraeg
Cyfrifoldeb	Llywodraeth Cymru Awdurdodau lleol Yr Arolygiaeth Gynllunio Cymdeithasau Tai

Argymhelliad 3

Camau Gweithredu

Effaith

Cyfrifoldeb

Cysoni darpariaeth addysg 3-14 oed ledled Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pwerau'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fel sail i newidiadau perthnasol ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr
- Awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i lunio papur safbwynt ar gyfer ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ym Mangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin
- Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ymchwilio i ymarferoldeb ehangu model darpariaeth hwyrddyfodiaid Gwynedd ledled ardaloedd y canrannau uwch
- Cynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol

Llywodraeth Cymru
Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

Argymhelliad 4

(O wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) sicrhau y crëir ethos a rhaglenni hybu defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg mewn cydweithrediad â'r ysgolion a'u cymunedau

Camau Gweithredu

- Ymestyn a datblygu model Siarter Gwynedd a'i weithredu ym mhob ysgol gynradd, gan sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth awdurdodau lleol Môn, Ceredigion a Sir Gâr i'r cynllun
- Annog awdurdodau lleol ac ysgolion perthnasol yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Powys, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro i fabwysiadu model Siarter Gwynedd
- Ymestyn a datblygu model Prosiect Cefnogi Iaith ym mhob ysgol uwchradd ym Môn, Ceredigion a Sir Gâr gan sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth pob awdurdod lleol i'r cynllun
- Sefydlu cynllun peilot i benodi swyddogion cymunedol ar gyfer pontio rhwng yr ysgol a'r gymuned

Effaith

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, ac mewn gweithgareddau cymunedol

Cyfrifoldeb

Awdurdodau addysg
Ysgolion cynradd ac uwchradd
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith
Yr Urdd

Argymhelliad 5

Camau Gweithredu

Parhau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu yn yr iaith Gymraeg trwy gefnogi mudiadau a chymdeithasau a thrwy sbarduno mentrau newydd.

- Parhau a dwysau'r gwaith o hybu'r arfer o drosglwyddo'r iaith yn y teulu trwy roi sylw ychwanegol i ardaloedd perthnasol
- Hybu mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg fforddiadwy yn yr ardaloedd perthnasol er mwyn gwneud magu plant a gweithio ar yr un pryd yn opsiwn deniadol i deuluoedd ifanc
- Datblygu ac ehangu'r defnydd o'r adnodd 'Gweithredu'n Lleol' sy'n cynnig fframwaith addas ar gyfer ysgogi cynllunio iaith micro.
- Sefydlu rhwydwaith Cefnogi Cymdogaethau Cymraeg ar gyfer
 - bod yn fforwm (wyneb yn wyneb ac ar lein) ar gyfer rhannu arfer dda o ardal i ardal
 - cynllunio a datblygu syniadau newydd
 - trefnu hyfforddiant perthnasol ar faterion yn ymwneud â datblygiad y Gymraeg o fewn cymdogaethau Cymraeg
 - llywio datblygiad 'Gweithredu'n Lleol'
 - adrodd i'r Llywodraeth yn flynyddol ar faterion allweddol
- Sefydlu Cronfa Cymdogaethau Cymraeg i alluogi grwpiau a chymdeithasau i ymgeisio am arian i sbarduno gweithgareddau ar y lefel leol;
- Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Mentrau Iaith i ddarparu cymorth a chynghor i grwpiau cymunedol
- Cefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion unigolion, teuluoedd a chyflogwyr gan weithredu ar argymhellion *Adroddiad Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion 2013*
- Datblygu a gwella o ran gweithgareddau pontio a chymathu sy'n cynyddu ymlyniad a defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg

Effaith

- Cynyddu'r arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Cryfhau rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg
- Cynyddu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg

Cyfrifoldeb

Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith
Grwpiau Cymunedol
Awdurdodau Lleol
Darparwyr Cymraeg i Oedolion

Argymhelliad 6

Camau Gweithredu

Cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg

- Awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a sefydliadau addysg bellach ac uwch sy'n gwasanaethu Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ymrwymo i ofynion newydd a ddaw yn sgil y Safonau arfaethedig
- Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol i bennu targedau recriwtio a datblygu gweithlu i gynyddu'n ystyrlon nifer y gweithwyr dwyieithog

Effaith

- Cynyddu nifer y sefydliadau sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg fel cyfrwng gwaith a gweinyddu
- Cynyddu hyder gweithwyr i ddefnyddio mwy o'u Gymraeg

Cyfrifoldeb

Llywodraeth Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Awdurdodau lleol Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin
Prifysgol Bangor, Aberystwyth a Chymru y Drindod Dewi Sant
Coleg Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr
Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda

Argymhelliad 7

Camau Gweithredu

Effaith

Cyfrifoldeb

Ehangu peilot Cynllun Aman Tawe i ardaloedd eraill sydd wedi profi shifft ieithyddol amlwg yn y blynyddoedd diweddar a chefnogi datblygiadau pellach yng ngoleuni Adolygiad Prifysgol Caerdydd.

- Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau digonol i sefydlu hyd at 6 o Gynlluniau Hybu'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.
- Awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith a phartneriaid allweddol eraill i lunio a gweithredu strategaeth hirdymor fydd â'r nod o sicrhau twf ieithyddol ar sail anghenion lleol.
- Adolygiad o'r datblygiadau i'w gyflawni bob tair blynedd.
- Cynyddu'r adnoddau i hybu'r Gymraeg yn gymunedol ar sail tystiolaeth.
- Llywodraeth Cymru yn arwain ar sefydlu Ardaloedd Hybu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Mentrau Iaith a phartneriaid lleol

Atodiad 1: Rhestr aelodau

Cadeirydd:

Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor dros y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Aelodau:

- Sali Burns, Aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg ac yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd a Llefarydd ar yr Iaith Gymraeg, CLILC
- Owain Gruffydd, Aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, Prif Weithredwr Menter Iaith Bro Dinefwr
- Lynne Reynolds, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Elin Rhys, Cyfarwyddwr Telegop a Chadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iaith ac Economi
- Yr Athro Elan Closs Stephens, Ymddiriedolwraig Cymru y BBC a chyn-Gadeirydd S4C.

Atodiad 2: Cylch gorchwyl

Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith

Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cylch Gorchwyl Drafft

Cefndir

Ym Mawrth 2012 cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau strategaeth newydd ar y Gymraeg, *Iaith Fyw:Iaith Byw* a bydd yn weithredol am y pum mlynedd tan 31 Mawrth 2017.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth yn ystod pob blwyddyn ariannol.

Camau gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu cyntaf yn cadarnhau'r bwriad i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i lunio cynllun ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith. Yn benodol, disgwylir i'r grŵp gyflawni'r canlynol:

Aelodaeth

Dylai'r grŵp gynnwys aelodaeth sy'n cynrychioli'r meysydd canlynol: cynllunio, busnes, economi, tai, adfywio, cynllunio ieithyddol, materion cefn gwlad (allfudo/mewnfudo), addysg, pobl ifanc, datblygu cymunedol ac awdurdodau lleol.

Tasg

Creu cynllun gwaith erbyn Mawrth 2013, i'w gyflwyno i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, er mwyn cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith. Mae casglu tystiolaeth yn rhan allweddol o'r gwaith er mwyn datblygu cynllun gwaith sy'n adlewyrchu natur ac anghenion ieithyddol y cymunedau dan sylw.

Gweinyddiaeth

1. Gellir gwahodd cyflwyniadau a thystiolaeth gan arbenigwyr yn ôl yr angen.
2. Os na all aelodau'r grŵp fynychu'r cyfarfod caniateir iddynt anfon eilyddion.
3. Disgwylir i'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd hyd at Mawrth 2013.
4. Cynhelir y cyfarfodydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru.
5. Uned y Gymraeg yn y Gymuned fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cyfarfodydd.

Atodiad 3: Llyfryddiaeth, adroddiadau a dogfennau cyfeirio eraill

Adroddiad Gorolwg y Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI), Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2010.

Aitchison, J. a Carter, H. (2000) *Language, economy and society: The changing fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Carlin, P. (2013) *Doing as they are told? Subregional Language Policies in the Basque Country, Catalonia and Wales, Regional and Federal Studies* 23, 67-85.

Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion, Llywodraeth Cymru 2013.

Cyfrifiad 2011 (Yr Iaith Gymraeg), Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyfrifiad 2011 (Ysgolion), Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013.

Davies, E. *Cefnogi Teuluoedd i Drosglwyddo'r Gymraeg*, Iaith Cyf., 2010.

Edwards, V. K. & Newcombe, L. P. *Gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Cynllun Twf, sy'n annog rhieni i drosglwyddo'r iaith Gymraeg i'w plant*, Prifysgol Reading, 2003.

Encyclopaedia of Bilingualism and Bilingual Education (1993) Cleveland: Multilingual Matters.

Fishman, J. (1991) *Reversing Language Shift: theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages*. Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

Grin, François - *Language planning and economics – yn: Current Issues in Language Planning*. - vol. 4 (2003) no. 1; p. 1-67.

Gweithredu'n Lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012.

Morris, D. & Jones, K. *Welsh Language Socialisation within the Family*, Prifysgol Cymru Bangor, 2005.

Gathercole, *Trosglwyddo iaith mewn Teuluoedd dwyieithog yng Nghymru*, V. C. M. et al, 2007.

Huws, Catrin Fflur., (2008) *Siarad iaith yr aelwyd pan fo'r aelwyd yn anfforddiadwy yn Gwerddon* 3, tud. 71-93.

Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Llywodraeth Cymru.

Irvine F., Roberts G., et al, *'Twf ac Ymlaen: Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen'*, Prifysgol Cymru Bangor, 2008.

Jenkins, Geraint H. gol. (1998-2001) Cyfres Hanes Cymdeithasol yr Iaith Gymraeg, yn cynnwys "Gwnewch Bopeth yn Gymraeg – Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911" ac "Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif".

J-M a Martinez de Luna, I. (2005) *The Case of Basque: from the past toward the future*. Mouton de Gruyter: Michigan.

Jones, Hywel M. *Darlun Ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg*, Hywel M Jones, Bwrdd yr iaith Gymraeg 2012.

Jones, K., *Adroddiad Tracio Teuluoedd*, Iaith Cyf 2012.

Jones, K, *Cymdeithasoli'r iaith Gymraeg o fewn y Teulu*, Iaith Cyf.

J Jones R a Fowler C (2007) 'Where is Wales? Narrating the territories and borders of the Welsh nation', *Regional Studies* 41: 89-101.

Llywodraeth Cymru, *Strategaeth y Gymraeg 2012-17 – Iaith fyw: iaith byw*.

Llywodraeth Cymru, *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*.

Lewis, Dr W Gwyn. *Addysg Ddwylieithog yn yr ugeinfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol*, Gwerddon.

McLeod, W. (2002) *Language Planning and Regional Development? The Growth of the Gaelic Economy*. Scottish Studies 38.

McLeod, W. gol. (2006) *Revitalising Gaelic in Scotland*. Dunedin Academic Press: Michigan.

Morris, D. *Rhwydweithiau cymdeithasol ym Môn* Contemporary Wales
<http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/listarticles/llgc-id:1179046/llgc-id:1179353>

Nordberg, B. (1994) *The Sociolinguistics of Urbanization: the case of the Nordic Countries*. De Gruyter: Berlin.

Twenty year Strategy for the Irish Language 2010-30.

The Case of Basque (pennod 3, The Social Movement in Favour of the Normalization of the Basque Language).

Welsh in the 21st Century (gol. Delyth Morris).

Williams, Iolo W. (2002) *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000*. Tal-y-bont: Y Lolfa.

Williams, Colin H. *Language Strategies in Comparative Perspective*, Ysgol y Gymraeg, Coleg Prifysgol Caerdydd 2013.

Williams, Colin H. *Language Revitalization Policy and Planning in Wales*, Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, C. 2013. *Perfidious hope: the legislative turn in official minority language regimes*. *Regional and Federal Studies* 23(1), pp. 101-122.

Yr Ieithoedd Llai: Cymathu Newydd-ddyfodiaid, gol. Llinos Dafis 1991.

Atodiad 4: Grŵp ffocws – Aberteifi

Grŵp Ffocws 1

Neuad y Dref, Aberteifi - 25.09.13

1. Cefndir

A. Pwrpas ac amcanion y grŵp ffocws

Hoffai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg glywed barn dysgwyr Cymraeg (sydd wedi symud i dde Ceredigion o ardaloedd eraill i fyw) ar sut mae modd ennyn diddordeb newydd-ddyfodiaid i ddeall perthnasedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn a'u hannog i fynd ati i'w dysgu.

B. Cyfranogwyr

- Ceisiwyd trefnu grwpiau o 8-10.
- Roedd yn rhaid i bob un fod wedi symud o ardal arall (yng Nghymru neu'r tu hwnt) i dde Ceredigion i fyw
- Roedd yn rhaid i bob un fod yn dysgu Cymraeg ar y pryd
- Trawstoriad o oed
- Trawstoriad gendr

C. Targedu'r Cyfranogwyr / Proses Recriwtio

- Cydweithio gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru trwy anfon gwahoddiad at bob dysgwr Cymraeg oedd yn byw ac yn dysgu yn ne Ceredigion
- Y gwahoddiad i gynnwys briff o'r unigolion yr ydym yn eu recriwtio
- Cafwyd 10 o ymatebion, gyda phob un yn ffitio'r briff, felly gwahoddwyd pawb, gweler y trawstoriad isod. Dim ond 9 ddaeth ar y noson.
- Yn bresennol hefyd roedd Siwan Hywel a Carol Davies (swyddogion Llywodraeth Cymru) at ddibenion hwyluso a chofnodi'r drafodaeth.

2. Crynodeb o'r drafodaeth

Nodwyd mai bwriad y grŵp ffocws oedd clywed barn y grŵp am symud i dde Ceredigion i fyw, y broses o ddysgu Cymraeg, eu hagwedd hwy ac eraill tuag at y broses o integreiddio, a sut mae helpu eraill sydd yn symud i'r ardal i integreiddio, a dysgu'r iaith.

Byw a dysgu Cymraeg yn Ne Ceredigion

Y bwriad yma oedd holi ymhellach am rai o agweddau'r grŵp, gyda'r pwyntiau/cwestiynau isod yn llywio'r drafodaeth:

- **Faint o'r mynychwyr oedd yn ymwybodol fod yr iaith Gymraeg yn bodoli cyn symud i dde Ceredigion i fyw?**
 - Pawb yn ymwybodol fod y Gymraeg yn bodoli – y rhan fwyaf oherwydd eu bod wedi bod yma ar wyliau. Llauer wedi cael sioc o weld y Gymraeg ar arwyddion wrth ddod i'r ardal.
 - Rhai ddim yn ymwybodol o gryfder y Gymraeg tan eu bod yn mynychu gwersi Cymraeg

- Wedi cael peth sioc o ran amrywiaeth yr iaith Gymraeg o un ardal i'r llall - llawer o Gymraeg ym Meulah ond dim cymaint yn Aberteifi.
- **Faint o'r mynychwyr dderbyniodd wybodaeth am yr ardal cyn symud - hy hanes, diwylliant, iaith ayb**
 - Heb dderbyn unrhyw wybodaeth oddi wrth asiantaeth dai na Chyngor Sir cyn symud i'r ardal.
 - Wedi derbyn peth gwybodaeth oddi wrth gymdogion.
- **Oedd y croeso yn dderbyniol wrth symud i'r ardal?**
 - Croeso yn gynnes iawn gan y rhan fwyaf o gymdogion.
 - Ychwanegodd un o'r grŵp nad oedd y Cymry Cymraeg cynhenid yn groesawgar iawn i bobl ddi-gymraeg (fel nhw eu hunain pan symudon nhw i'r ardal).
 - Rhai pobl yn fwy croesawgar os oeddent yn ymwybodol eu bod yn mynd ati i ddysgu Cymraeg.
 - Wedi cael syndod fod rhai pobl hŷn yn yr ardal yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu'n Saesneg - cysyniad newydd iddynt.
 - Roedd y grŵp i gyd yn gytŷn fod dysgu Cymraeg wedi eu cynorthwyo i "setlo" ac integreiddio yn yr ardal.
- **Faint o'r mynychwyr oedd wedi bwriadu dysgu Cymraeg pan symudon nhw i fyw i dde Ceredigion?**
 - Y rhan fwyaf wedi bwriadu dysgu Cymraeg.
 - Nodwyd pwysigrwydd dysgu iaith yng nghyd-destun gwledydd eraill, ee os byddech chi'n symud i Sbaen neu Ffrainc, byddech yn naturiol yn dysgu'r iaith - felly does dim yn wahanol am wneud hynny yng Nghymru.
 - Rhai yn teimlo, pan ddaethant yma'n gyntaf i weithio, nad oedd amser ganddynt i ddysgu'r iaith, ond wrth iddynt gyrraedd oedran ymddeol mae mwy o amser a hyblygrwydd ganddynt i fynychu cyrsiau.
 - Nododd un unigolyn (oedd wedi symud i dde Ceredigion i fyw ers 1989) nad oedd ganddo fwriad i ddysgu'r iaith yn wreiddiol, ond erbyn hyn mae ei wyron a'i wyresau yn gallu siarad Cymraeg, felly penderfynodd ddysgu gan nad oedd am gael ei ynysu.
- **Sut aeth y mynychwyr ati i chwilio am wersi Cymraeg?**
 - Diddordeb mewn ieithoedd beth bynnag ond wedi gweld taflenni'n hysbysebu gwersi.
 - Ffonio Coleg Ceredigion i weld a oedd cyrsiau ar gael.
 - Gofyn i gymdogion.
 - Ar y we - trwy google ayb.
 - Derbyn nodyn trwy'r post gan y Cyngor Sir.

- Llyfryn bach oddi wrth Gyngor Sir Benfro yn hyrwyddo cyrsiau cyffredinol i oedolion ee hanes, TG ayb.
 - Llyfrgell leol.
 - Radio Ceredigion.
 - Stondin Cymraeg i Oedolion ym mynedfa Tesco.
 - Prosbectws Cymraeg i Oedolion y De-orllewin wedi dod trwy'r post (roedd y person yma'n byw yng Nghrymmych).
- **Pa fath o gefnogaeth leol (tu allan i'r dosbarth) mae'r mynychwyr wedi ei derbyn wrth fynd ati i ddysgu'r iaith?**
 - Un aelod wedi bod yn mynd mewn i ysgol gynradd leol i gynorthwyo plant i ddarllen er mwyn cynyddu hyder yn yr iaith OND pan yn yr ysgol yr athrawon yn troi i siarad Saesneg gyda hi, er ei bod yn gofyn iddyn nhw beidio.
 - Dim llawer o gefnogaeth mewn nifer fawr o siopau'r ardal - tueddu i newid i'r Saesneg gan ei bod yn "rhwyddach".
 - Ond roedd aelodau'r grŵp yn gwybod am siopau lle roedd gweithwyr Cymraeg yno ac yn siarad Cymraeg gyda staff siopau traddodiadol y dre ee Siop y Cardi, Awen Teifi, Cardigan Arms ayb.
 - Pobl ifanc mewn siopau lleol yn fwy tebygol i gynorthwyo dysgwyr i siarad Cymraeg yn hytrach na rhai hŷn.
 - Gwranddo/gwyllo rhaglenni cyfrwng Cymraeg.
 - S4C - rhai rhaglenni yn denu sylw, nid pawb oedd yn hoff o raglen HWB - ond yn ei gwyllo.
 - Radio Cymru - un person yn lawrlwytho podlediadau ac yn gwranddo arnynt wrth weithio ar y fferm gartref.
 - 7 o'r 9 oedd yn y grŵp yn darllen Papurau Bro lleol.
 - Un o'r grŵp wedi Mynychu Bwt Camps Say Something in Welsh.
 - **Ydy'r mynychwyr yn cymdeithasu mewn cylchoedd Cymraeg (ee MyW, grwpiau lleol, côr ayb)?**
 - Cylchlythyr wythnosol (bob dydd Gwener) gan diwtor lleol, Nic Dafis, yn hyrwyddo digwyddiadau i ddysgwyr, ond nododd y rhan fwyaf o'r grŵp nad oedden nhw yn mynd i'r digwyddiadau. Yn bennaf oherwydd amser/ pellter.
 - Dosbarthiadau CYD yn dal i fodoli.
 - Corau lleol.
 - Mae byw mewn ardal wledig yn ei gwneud yn anodd mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol, felly ddim bob amser yn cael cyfle i fynychu digwyddiadau Cymraeg.
 - Roedd un aelod o'r grŵp yn gweithio fel gwyddonydd, felly yn mynd allan o'i ffordd i fynychu cynadleddau cyfrwng Cymraeg ar bynciau gwyddonol er mwyn cynyddu hyder yn yr iaith, ac yn bwrpasol ddim yn defnyddio clustffonau cyfieithu ar y pryd.

- **Beth oedd y rhwystrau pennaf wrth ddysgu'r iaith?**

- Wedi sylwi fod unigolion sy'n gadael byd addysg yn gynnar yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu gyda dysgwyr lle mae rhai sy'n mynd 'mlaen i addysg bellach yn fwy parod ac amyneddgar i gynorthwyo dysgwyr i siarad yr iaith.
- Iaith sy'n cael ei dysgu yn y gwersi yn wahanol iawn i'r iaith lafar sy'n cael ei defnyddio'n lleol.
- Tafodiaith wahanol yn peri anhawster.
- Prinder amynedd gan Gymry Cymraeg i siarad Cymraeg efo'r dysgwyr ac yn hytrach yn newid i'r Saesneg.

3. Ennyn diddordeb newydd-ddyfodiaid mewn dysgu cymraeg

Gofynnwyd am farn y grŵp ar y ffyrdd gorau o annog newydd-ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg wrth iddyn nhw symud i dde Ceredigion. Defnyddiwyd y pwyntiau isod i lywio'r drafodaeth:

- **Sut mae darganfod pwy sy'n symud i'r ardal i fyw?**

- Trwy'r Cyngor Sir - talu treth
- Cofrestru gyda'r Feddygfa leol
- Dod i'w hadnabod nhw trwy'r gymdogaeth leol
- A fyddai modd i asiantaethau tai roi mwy o wybodaeth iddyn nhw?

- **Sut mae targedu unigolion sy'n symud i'r ardal i fyw mewn perthynas â'r Gymraeg a sut ddylid marchnata gwersi Cymraeg i Oedolion i dargedu newydd-ddyfodiaid yn yr ardal?**

- Trwy'r Cyngor Sir.
- Trwy'r ysgolion Cymraeg lleol - targedu rhieni sydd yn anfon eu plant yno, ac i'r unedau trochi.
- Defnyddio pobl Gymraeg leol - eu hyfforddi hwy i sicrhau bod ganddyn nhw'r wybodaeth bwysig/gyfredol i'w phasio ymlaen i fewnfudwyr newydd.
- Cynnig gwersi/sesiynau bach (am ddim o bosibl) i gychwyn er mwyn ennyn diddordeb.
- Mynd trwy fusnesau lleol i annog staff i ddysgu'r iaith.
- Trwy'r Cyngor Sir ac ysgolion yn bennaf.
- Mewn tafarndai/caffis a siopau lleol (o fewn y dref a phentrefi cyfagos).

- **Beth yw rôl siaradwyr iaith gyntaf lleol?**

- Eu hyfforddi hwy i sicrhau bod ganddyn nhw'r wybodaeth bwysig/gyfredol i'w phasio ymlaen i fewnfudwyr newydd.
- Bod yn fwy hyderus yn eu Cymraeg eu hun yn y lle cyntaf. Nifer yn dueddol o droi i'r Saesneg gan fod "eu Cymraeg nhw ddim yn ddigon da".
- Angen gwneud mwy i hybu manteision a phwrrpas y Gymraeg ymhlith Gymry Cymraeg - trwy'r cyfryngau ac ar lawr gwlad. Cyfrifoldeb – y

Llywodraeth a llywodraeth leol, unigolion, mudiadau a sefydliadau yn ogystal â'r sector preifat.

- Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg!!
- Dysgwyr i hyrwyddo'r iaith hefyd.
- Angen i siaradwyr Cymraeg werthu'r iaith yn lleol.
- Ysgogi pobl ifanc i ymfalchïo yn yr iaith a'r diwylliant Cymreig os ydynt yn aros yn lleol neu'n mynd i ffwrdd i golegau a byd gwaith.

Nodiadau ychwanegol

- Bywyd yn llawer mwy lliwgar ers dysgu'r Gymraeg.
- Nifer o Gymry yn gystadleuol iawn wrth ddod i eisteddfodau ayb ond ddim yn ystyried fod yr iaith yn llawn haeddu'r un angerdd a brwdfrydedd.

Atodiad 5: Grŵp ffocws – Caerdydd

Grŵp Ffocws 2

Gwesty Jolyon's, Caerdydd - 26.09.13

1. Cefndir

A. Pwrpas ac amcanion y grŵp ffocws

Hoffai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg glywed barn unigolion Cymraeg sydd wedi symud i Gaerdydd o gadarnleoedd y Gymraeg yng ngogledd a de-orllewin Cymru ar yr isod:

- Pa gyfleoedd a pha rwystrau sy'n bodoli o safbwynt sicrhau cyflenwad addas o dai i bobl leol yng nghadarnleoedd y Gymraeg?
- Pa gyfleoedd a pha rwystrau sy'n bodoli o safbwynt cyflogaeth a datblygiad economaidd yng nghadarnleoedd y Gymraeg?
- Sut gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chymdeithasau ddylanwadu'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yng nghadarnleoedd y Gymraeg? Wrth ystyried y cwestiwn hwn, gallech roi sylw i'r canlynol:
 - Trosglwyddo'r iaith yn y cartref ac yn ystod y blynyddoedd cynnar
 - Addysg ffurfiol ac anffurfiol
 - Bwrlwm cymdeithasol
 - Economi, gwasanaethau a seilwaith (trafnidiaeth, Technoleg Gwybodaeth ac ati)
 - Safonau ar y Gymraeg

B. Cyfranogwyr

- Ceisiwyd trefnu grwpiau o 8 o leiaf.
- Roedd yn rhaid i bob un fod wedi symud i'r ddinas o ardaloedd Cymraeg y Gogledd a'r De-orllewin.
- Roedd yn rhaid i bob un fod yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf.
- Trawstoriad o oed
 - Trawstoriad gendr

C. Targedu'r Cyfranogwyr / Proses Recriwtio

- Cydweithiwyd gyda Menter Caerdydd trwy anfon gwahoddiad at eu cronfa ddata o drigolion y ddinas sydd wedi cofrestru i dderbyn e-chlysur (hysbyseb ar e-bost) gan y Fenter.
- Cafwyd 35 o ymatebion, rhai oedd wedi symud i Gaerdydd i fyw ers yr 80au a'r 90au, a rhai yn fwy diweddar. Dewiswyd yr unigolion oedd wedi symud fwyaf diweddar i'r ddinas, dewiswyd cynrychiolaeth o'r De--orllewin a'r Gogledd a dewiswyd trawstoriad o ran oed a gendr.
- Yn bresennol hefyd roedd Siwan Hywel a Meinir Thompson (staff LIC) at ddibenion hwyluso a chofnodi'r drafodaeth.

2. Crynodeb o'r drafodaeth

Nodwyd mai bwriad y grŵp ffocws oedd clywed barn y grŵp am fyw a gweithio yng Nghaerdydd a chael rhywfaint o syniadau ynglŷn â beth fyddai'n debygol o'u hannog i symud o Gaerdydd yn ôl i'w hardaloedd genedigol.

Dychwelyd i fyw i'r Gogledd/De-orllewin

Y bwriad yma oedd holi ymhellach am rai o agweddau'r grŵp, gyda'r pwyntiau/cwestiynau isod yn llywio'r drafodaeth:

- Faint o'r mynychwyr oedd wedi, neu sydd ar hyn o bryd, yn ystyried dychwelyd i fyw i'w hardaloedd genedigol?
- Oedd yna unrhyw un a oedd yn meddwl efallai y byddai'n ystyried mynd yn ôl i'w ardal enedigol rywbryd yn y dyfodol? Os hynny, beth yw'r prif resymau dros wneud hynny?
- Oedd yna unrhyw un a oedd ar hyn o bryd yn meddwl na fyddai fyth yn dychwelyd i'w ardal enedigol? Os hynny, beth yw'r prif resymau am hynny?

Roedd 6 o'r 8 oedd yn y grŵp yn ystyried dychwelyd i'r Gogledd/ De-orllewin i fyw. Roedd un eisoes wedi gwneud trefniadau i ddychwelyd, a'r pump arall yn gobeithio dychwelyd rywbryd yn y dyfodol, ond heb wneud unrhyw gynlluniau pendant ar hyn o bryd. Yn sicr, ymddengys mai dychwelyd fyddai'r ddelfryd i bawb pe na bai ffactorau penodol yn rhwystro hynny.

Yr oedd ymdeimlad cyffredinol ymhlith y grŵp bod Caerdydd yn lle da i fyw yn eich ugeiniau ac roedd pawb yn falch iawn o fod wedi cael profi bywyd yn y ddinas. Serch hynny, awgrymwyd yn gryf gan aelodau'r grŵp bod manteision mwy haniaethol neu reddfol eu hardaloedd genedigol - e.e. amgylchedd, diwylliant, cymuned, teimlad cartrefol - yn cael eu hystyried yn fwy dymunol yn y pen draw na rhinweddau mwy 'ymarferol' y ddinas, megis adnoddau a chyfleusterau.

Oherwydd hyn, o bosibl, awgrymodd sawl aelod y byddai eu blaenoriaethau'n debygol o newid gydag oedran, a'u bod hwy a nifer o'u ffrindiau'n ystyried 'adref' yn lle da i ddychwelyd iddo i fagu plant. Nodwyd na fyddai pawb yn dychwelyd i'w bröydd genedigol fel y cyfryw, gyda rhai yn nodi y bydden nhw'n symud i drefi Cymraeg megis Caernarfon.

Nodwyd hefyd fod amseriad yn bwysig iawn wrth feddwl am symud yn ôl 'adref', sef bod y swydd ddelfrydol yn codi i'r unigolion (ac i'r partner/gŵr/gwraig) a thŷ delfrydol yn dod ar y farchnad, yn ogystal â gallu fforddio hynny.

Roedd pryder ymysg y grŵp hefyd am orfod cael gostyngiad mewn cyflog wrth symud o'r ddinas i fyw. Soniwyd y dylid cael mwy o bwyslais ar weld cwmnïau mawr yn agor swyddfeydd ar draws Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl symud.

Roedd dwy o'r grŵp nad oedd mor awyddus i symud o'r ddinas. Roedd gan xxxx deulu, a'r plant yn mynd i'r ysgol Gymraeg leol. Ni fyddai hi yn gallu symud o'r ddinas i fyw oherwydd sefyllfa ei gŵr a'i phlant, ac roedd yn hapus yma. Roedd xxxx yn dod o Landeilo yn wreiddiol, a chan ei bod hi'n gweld ei theulu a'i ffrindiau o'r ardal tua 4 gwaith y mis, nid oedd yn awyddus i symud o Gaerdydd i fyw oherwydd hwylustod hynny a chyfleusterau yma.

Daeth yn amlwg yn ystod y drafodaeth bod y ffaith bod nifer helaeth o Gymry ifanc yn byw yng Nghaerdydd yn golygu bod bywyd y ddinas yn fwy a mwy deniadol gan fod yno gylch cymdeithasol 'parod' ar eu cyfer. Yn sicr, ymddangosai na fyddai dinas

fel Abertawe neu Fanceinion mor atyniadol â'r brifddinas, gan fod y Gymraeg yn bwysig iddyn nhw.

Rhwystrau

Holwyd y grŵp am y rhwystrau sy'n eu hatal rhag dychwelyd i'r Gogledd/ De-orllewin.

Roedd swyddi'n ffactor amlwg iawn yn y drafodaeth. Nododd yr aelod a oedd eisoes wedi cychwyn cynllunio ar gyfer symud yn ôl ei bod wedi trefnu i gael ei hadleoli, ac yn cadw ei swydd, a'r un telerau. Nododd un y byddai ei sgil hi (cyfieithydd) yn ei galluogi i allu dechrau gweithio ar ei liwt ei hun, ond hoffai fwy o gefnogaeth ar gyfer hynny.

Nododd un aelod bod prisiau tai wedi codi llawer yn ddiweddar, ac felly bod derbyn swydd ag iddi gyflog is na chyflogau Caerdydd yn llai ymarferol bellach.

Cytunai pawb bod y ffordd o'r De i'r Gogledd yn fwrn, ond yn ddiddorol, o bosib, teimlai aelodau'r grŵp y byddai cael ffordd well yn debygol o'u hannog i aros yng Nghaerdydd gan y byddai 'picio' adre yn haws.

Roedd y mynychwyr yn manteisio ar wasanaethau megis bwletin e-bost Menter Caerdydd er mwyn dod i wybod am ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd ar gael yn eu digonedd bellach. Er nad yw hynny'n rhwystr yn benodol, felly, mae'n wir ei fod yn diddymu un o fanteision traddodiadol llefydd fel y Gogledd, a'r De-orllewin, sef y gallu i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnwyd i aelodau'r grŵp beth oedd y rhwystr pennaf, ac enwodd pawb ddiffyg swyddi addas, a chostau prynu tŷ (arall) fel y prif ffactor.

3. Sgorio barn y grŵp

Wedi'r drafodaeth dosbarthwyd taflen i bob aelod, yn cynnwys rhestr o rai pethau sydd yn bwysig yn eu bywydau nhw, ac a fyddai'n gallu eu denu yn ôl i'r Gogledd/ De-orllewin i fyw. Gofynnwyd i bawb sgorio pob un o'r elfennau hynny gan ddefnyddio'r raddfa 1 = ddim yn hanfodol na dymunol o gwbl, 2 = ddim yn hanfodol, ond yn ddymunol, 3 = hanfodol a dymunol iawn (hy po uchaf fo'r sgôr, y mwyaf hanfodol a dymunol fo'r elfen). Dangosir y canlyniadau isod:

Cyfartaledd

Swyddi	4.8
Tai	4.8
Teulu	3.5
Y Gymraeg	4.9
Ffrindiau	4.4
Adloniant / bywyd cymdeithasol	3.5
Ysgolion / addysg i blant	3
Gweithgareddau hamdden / chwaraeon	4.2
Cyfleoedd hyfforddiant / addysg	3.1

Yn sgil y gweithgaredd, cafwyd trafodaeth dan y penawdau canlynol: cymdeithasu yn Gymraeg, a phwysigrwydd y Gymraeg yn eu bywydau

- Mae digon o opsiynau o ran byw bywyd Cymraeg yn y ddinas ond mae rhaid chwilio amdano ac mae'n fwrriadol iawn. Rhwydwaith ydyw nid bywyd naturiol.
- Roedd pawb yn y grŵp yn mynychu digwyddiadau Cymraeg, ac yn gweld pwysigrwydd hynny o ran eu bywyd cymdeithasol bob dydd.
- Roedd pawb yn nodi eu bod yn cael clywed am ddigwyddiadau Cymraeg drwy Fenter Caerdydd / e-chlysur / Facebook a Twitter.
- Nodwyd fod tuedd i Gymry Cymraeg ynysu ei hunain wrth gymdeithasu yn y ddinas.
- Nododd un yn y grŵp, lle bynnag y bydd yn byw, y bydd yr iaith yn bwysig. Mae'n rhaid bod gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'n poeni am gylchoedd cymdeithasol nad ydynt yn Gymraeg.
- Roedd un mynychwr wedi bod yn gwirfoddoli yn y Chapter ac yn gwneud pwynt o siarad Cymraeg gyda phawb. Mae'r ymateb i hyn wedi bod yn wych gyda phawb yn ymdrechu i siarad ychydig o Gymraeg.

Y Cyfrifiad

Cafwyd trafodaeth fer ar ganlyniadau'r cyfrifiad, a barn yr unigolion am hynny:

- Nid oes cymaint o banig am golli'r iaith gartref gan eu bod yn ei chlywed bob dydd.
- Mae diffyg hyder ymhlith Cymry Cymraeg i werthu'r iaith.
- Roedd teimlad cryf am yr iaith gartref, ac yng Nghaerdydd.
- Pwysigrwydd cylchoedd Cymraeg yn y cynefinoedd. Yn ôl y cyfrifiad mae niferoedd pobl sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng, ond mae pobl yn cymryd yr iaith yn ganiataol yn y cynefinoedd. Mae teuluoedd a ffrindiau yn byw eu bywydau bob dydd drwy'r Gymraeg ac felly nid yw'r broblem yn eu taro.
- Nodwyd nad yw dysgwyr yn teimlo bod digon o bobl yn siarad Cymraeg gyda hwy. Mae rhaid annog pawb i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg.

Gofynnwyd a oedd unrhyw un yn cymdeithasu trwy gyfrwng y Saesneg.

- Roedd gan un ferch yn y grŵp gymar nad oedd yn siarad Cymraeg felly roedd y teulu / ffrindiau yn wrthwynebus iawn o ran y Gymraeg a doedd dim gwerthfawrogiad o'r iaith o gwbl.
- Roedd un person yn y grŵp yn cymdeithasu efo rhieni yn yr ysgol oedd ddim yn siarad Cymraeg. Nododd hefyd nad oedd staff y cylch lleol yn siarad Cymraeg.

Addysg a Hyfforddiant

- Roedd pawb o'r grŵp oedd â phlant/am gael plant yn awyddus iddyn nhw gael addysg Gymraeg. Os bydd yr unigolion mewn sefyllfa i wneud hyn, bydd y plant yn cael elu haddysgu mewn ysgol nôl yn y Gogledd/De-orllewin.
- Amlygwyd problem bod plant mewn ysgolion Cymraeg ddim yn siarad Cymraeg efo'i gilydd ar yr iard, a thu allan i'r ysgol.
- Cyrsiau menter Caerdydd yn bwysig iawn. Roedd un person yn mynychu'r cyrsiau am eu bod yn Gymraeg ac nid am fod ganddi ddiddordeb yn y cwrs. Mae'n gyfle i gymdeithasu.

4. Gwybodaeth / Cefnogaeth

Gofynnwyd i'r grŵp pa fath o gefnogaeth y byddent yn awyddus i'w chael er mwyn eu helpu i ddychwelyd i'w bröydd genedigol. A ddylai fod cymorth i bobl symud yn ôl i'w cynefin?

- Roedd barn gref na ddylai pobl gael cymorth i symud nôl i'w cynefin, ond yn hytrach dylid rhoi cymorth i bobl aros yn eu cynefin yn y lle cyntaf.
- Roedd ychydig o elyniaeth tuag at bobl oedd eisoes wedi symud.
- Ond hefyd, roedd y grŵp yn teimlo bod rhagfarn yn erbyn y rhai sy'n dod nôl ac yn prynu tai.
- Nodwyd bod angen cefnogaeth i greu swyddi yn y Gogledd / Gorllewin. Dylai cwmnïau mawr gael cyllid i greu mwy o swyddfeydd dros Gymru, a gall cwmnïau fod yn hyblyg i sicrhau bod pobl yn gallu gweithio o gartref.

Atodiad 6: Cyflwyniadau i'r Grŵp

Cyflwyniadau i'r Grŵp

Trosolwg ar raglenni rhyngwladol sydd yn ceisio normaleiddio iaith leiafrifol - Meirion Prys Jones, NPLD

Adroddiad sgöpio Ardal Bro Ddyfi - Owain Gruffydd, Menter Bro Dinefwr

Cynllun 'Gweithredu'n Lleol' – Dilwyn Jones, Llywodraeth Cymru

Grŵp gweithredu Dyffryn Nantlle 2020 - Craig ap Iago, Cadeirydd Dyffryn Nantlle 2020

Y Maes Tai - Elliw Llŷr, Cyngor Gwynedd

Economi y Gogledd a'r Gorllewin - Iwan Trefor Jones, Cyngor Gwynedd; Gwyn Roberts, Cynllun Adfywio Strategol Môn Menai; Yr Athro Dylan Jones Evans, Prifysgol Cymru; Menna Jones, Prif Weithredwr, Antur Waunfawr

Prif ganfyddiadau cyfrifiad 2011 – Luned Jones, Llywodraeth Cymru

Y maes Addysg - Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor; Gari Lewis, Llywodraeth Cymru; Liz Saville Roberts, Grŵp Coleg Llandrillo-Menai

Trosglwyddo'r iaith a sut mae prosiectau teuluoedd y mae iaith Cyf yn eu gweithredu yn mynd i'r afael â'r heriau – Gareth Ioan, iaith Cyf.

Canfyddiadau Cyfrifiad 2011 mewn perthynas â throsglwyddo'r iaith a mudoedd - Sali Wyn Islwyn, Llywodraeth Cymru

Sefyllfa'r Gymraeg mewn perthynas â'r maes cynllunio – John Howells, Llywodraeth Cymru

Mudoedd a chymathu: Cynllun Pecyn Croeso / Symud i Gymru - Iddon Edwards

Integreiddio disgyblion a theuluoedd sy'n mewnfudo i ysgolion Gwynedd - Carys Lake, Cyngor Gwynedd

Cynllun Peilot Ardal Hybu'r Gymraeg Aman Tawe - Owain Gruffydd, Menter Bro Dinefwr

Prif ganlyniadau ymgynghori y Gynhadledd Fawr – Iwan Evans, Llywodraeth Cymru

Atodiad 7: Llythyr ymgynghoriad

Llythyr a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru i alw am dystiolaeth gan y cyhoedd

Annwyl Gyfaill,

Yn ystod Gwanwyn 2012, cyhoeddodd Mr Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ei fwriad i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg.

Prif nod sefydlu y grŵp gorchwyl a gorffen yw llunio cynllun ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith. Nid ydym wedi diffinio'r cymunedau yn rhy benodol ar hyn o bryd ond mae'n deg nodi mai ardaloedd y Gogledd a'r De-orllewin sydd dan sylw yn bennaf. Sefydlwyd y grŵp ar y 14eg o Fedi 2012.

Mae'r grŵp eisoes wedi edrych ar nifer o feysydd sy'n cynnwys:-

- Diffiniadau ieithyddol a daearyddol
- Ystadegau Tai
- Y berthynas rhwng yr economi ac iaith
- Demograffeg y Gymraeg
- Y cyd-destun Ewropeaidd
- Addysg Gymraeg

Bydd y grŵp yn edrych ar y meysydd canlynol yn y dyfodol:

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Cynllunio
- Bwrlwm cymdeithasol

Hoffai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen glywed barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â materion sydd o dan sylw gan y grŵp. A wnewch chi ystyried y cwestiynau canlynol wrth ymateb?:

1. Pa bolisiâu a mesurau allai helpu i gynyddu nifer y plant a theuluoedd ifanc yn yr ardaloedd perthnasol (gogledd a de-orllewin Cymru) sy'n siarad Cymraeg?
2. A ddylai pob disgybl ysgol yn yr ardaloedd hyn fedru bod yn hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol?
3. Ym mha ffyrdd y mae'n bosib meithrin ymdeimlad o berthyn ac o falchder yn y Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref?
4. Sut mae modd ennyn diddordeb newydd-ddyfodiaid i ddeall perthnasedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn a'u hannog i fynd ati i'w dysgu?
5. Pa gyfleoedd a pha rwystrau sy'n bodoli o safbwynt sicrhau cyflenwad addas o dai i bobl leol yn yr ardaloedd hyn?
6. Pa gyfleoedd a pha rwystrau sy'n bodoli o safbwynt cyflogaeth a datblygiad economaidd yn yr ardaloedd hyn?

7. Sut gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chymdeithasau ddylanwadu'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn? Wrth ystyried y cwestiwn hwn, gallech roi sylw i'r canlynol:
- Trosglwyddo'r iaith yn y cartref ac yn ystod y blynyddoedd cynnar
 - Addysg ffurfiol ac anffurfiol
 - Bwrlwm cymdeithasol
 - Economi, gwasanaethau a seilwaith (trafnidiaeth, Technoleg Gwybodaeth ac ati)
 - Safonau ar y Gymraeg
8. Gellid ystyried y term 'cadarnleoedd' yn un anaddas fel disgrifiad o'r ardal o dan sylw. A ddylid diffinio ardaloedd "Cymraeg" mewn rhyw ffordd arbennig? Mewn perthynas ag unrhyw bolisiau neu fesurau, a ddylid gwahaniaethu rhwng ardaloedd a chymunedau, er enghraifft ar sail canran siaradwyr Cymraeg?

Yn gywir,

Dr Rhodri Llwyd Morgan
Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 5:00 p.m. 5 Medi 2013 drwy un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost: cymunedaucymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Drwy'r post: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg
Penrallt
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 2EP